# Comisiwn Coedwigaeth Cymru

## Adroddiad Blynyddol
## a Chyfrifon ar gyfer Cymru 2002-2003



Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Dylunio: argraff@arywe.co.uk

# Cyswllt

Dylai ymholiadau ynglŷn a'r adroddiad hyn gael eu cyfeirio at:

Cyfarwyddwr Cymru
Comisiwn Coedwigaeth
Swyddfa Genedlaethol i Gymru
Rhodfa Fuddug
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2DQ

Ffôn: **+44 (0)1970 625866**

Ebost: **fcwales@forestry.gsi.gov.uk**

Mae copi o Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Coedwigaeth 2002-03 ar gael ar safle'r we'r Comisiwn Coedwigaeth **www.forestry.gov.uk**

Mae'r adroddiad yma hefyd i'w gael yn Saesneg

ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

**ISBN 0-85538-465-4**

# Cynnwys

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002 - 2003 ar gyfer Cymru.
Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag
atodlen 7 (6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998. 28 Ionawr 2004


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cadeirydd | 1 |
| Cyflwyniad gan y Prif Warchodwr | 2 |
| Cyflawni Polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru | 3 - 4 |
| Hyrwyddo Rheolaeth Goedwigaeth Gynaladwy | 5 |
| Rhaglenni a Gweithrediadau yn deillio o Strategaeth Coetiroedd Cymru | 6 |
| Coetiroedd i bobl | 6 - 10 |
| Pwyslais newydd ar reoli coetiroedd | 10 - 12 |
| Cymru fel lleoliad ar gyfer diwydiannau coedwigaeth o safon fyd-eang | 13 - 14 |
| Amgylchedd amrywiol ac iach | 15 - 17 |
| Twristiaeth, hamdden ac iechyd | 17 - 18 |
| Defnyddio adnoddau yn effeithiol | 19 - 22 |
| Uchafbwyntiau Ariannol | 23 |
| Cyfrifon Adnoddau | 24 - 60 |
| Cyfrifon Menter Coedwigaeth | 61 - 93 |
| Atodiadau | 94 - 98 |
| Tablau | 99 - 102 |
| Mapiau | 103 - 105 |
| Cyfeiriadau | 106 |

# Rhagair gan y Cadeirydd

Unwaith eto cafodd y flwyddyn ei rheoli gan y newidiadau i strwythurau llywodraethiant oddi mewn i'r Comisiwn Coedwigaeth y mae eu hangen i weithredu'n llawn y newidiadau gweinyddol angenrheidiol yn dilyn datganoli. Cytunodd y Gweinidogion y dylid derbyn argymhellion yr Adolygiad Datganoli Coedwigaeth ym mis Awst 2002, yn ogystal â chefnogi darparu polisi coedwigaeth trwy'r Comisiwn Coedwigaeth. Roeddynt am weld coedwigaeth yn cael ei hintegreiddio fwyfwy i waith arall yn ymwneud â pholisi gwledig ym mhob gwlad, gan gadw cyfleoedd ar gyfer delio â materion cyffredin trwy gydweithrediad.

Yng Nghymru mae hyn wedi arwain at Goncordat rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hwn yn disgrifio'n fanwl sut y bydd y ddwy Adran yn cydweithredu er mwyn sicrhau bod polisïau materion gwledig y Cynulliad yn cael eu cyflawni. Mae hefyd yn rhoi mwy o fanylion o ran lle gellir gwella gweithio trwy bartneriaeth wrth gydweithredu'n agosach. Y math hwn o bartneriaeth rhwng sefydliadau cyhoeddus yw'r unig ffordd ymlaen os ydym i ddarparu'r math o weithio cydgysylltiol y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl erbyn hyn, ac mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi bod ar y blaen wrth weithio gydag eraill fel hyn.

Mae penodi un Comisiynydd gweithredol a dau Gomisiynydd anweithredol i gynrychioli Cymru ar y Bwrdd a ffurfio Pwyllgor Cenedlaethol Cymru wedi atgyfnerthu ymrwymiad y Comisiwn Coedwigaeth i weithio'n agosach â'r Cynulliad Cenedlaethol. Yn wir, mae Cyfarwyddwr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol yn aelod hefyd o Bwyllgor Cenedlaethol Cymru.


Bydd Menter Coedwigaeth fel asiantaeth ar gyfer Prydain yn peidio â bod ar ddiwedd y flwyddyn a sefydlir Asiantaeth Rheoli Coedwigoedd newydd i Gymru o 1 Ebrill 2003 wrth i statws hirdymor Menter Coedwigaeth gael ei ystyried. Dylai hyn gael ei gwblhau tua diwedd 2003.

Mae'r holl newidiadau hyn wedi golygu canolbwyntio fwyfwy ar faterion sydd o bwys yng Nghymru, a dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu polisi coedwigaeth i bobl sydd â chysylltiad agos â Chymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Er bod ystyried y newidiadau hyn wedi cymryd llawer o amser amryw o staff Coedwigaeth Cymru, gwnaed argraff dda arnaf gan y ffordd na wnaeth hyn eu rhwystro rhag canolbwyntio ar gyflawni ein hamcanion.

Erbyn hyn mae'r camau polisi pwysig a ddaeth yn sgil datganoli yn dod yn gliriach ac yn canolbwyntio ar yr angen am newid golwg y coedwigoedd a'r coetiroedd er mwyn adlewyrchu dymuniad cymdeithas i gael math gwahanol o goetir yng Nghymru. Mae'r awydd am leoedd amrywiol sy'n amgylcheddol ddeniadol ar gyfer hamdden a mwynhad tawel yn dal i fod yn gryf, yr un fath â'r dymuniad i ddiogelu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, tra'n darparu swyddi sydd eu hangen yn fawr mewn ardaloedd gwledig trwy ymrwymiad parhaus i gynhyrchu pren o ansawdd uchel.

Mae datblygu Cynllun Busnes Ynni Pren a lansio rhaglen Cydcoed 2 – Coedydd i Bawb, yn ddwy enghraifft ragorol o fentrau pwysig a fydd yn golygu manteision enfawr i bobl ledled Cymru. Gobeithiaf y gall y Comisiwn Coedwigaeth, fel canlyniad i hyn oll, barhau i gael ei ystyried fel gwarcheidwad cyfrifol rhan helaeth o'r adnodd coetir naturiol yng Nghymru.

Cafwyd newidiadau sylweddol i bolisi coedwigaeth oddi ar ddatganoli ac, ar adeg pan fo'r diwydiant coedwigaeth yn profi'r amodau gwaethaf o fewn cof yn y farchnad bren, cafodd y polisïau newydd hyn eu cyflawni er gwaethaf sefyllfa economaidd anodd dros ben. Fel rydym wedi dangos sawl gwaith yn ein hanes, gall y Comisiwn Coedwigaeth wynebu'r heriau hyn â meddwl creadigol a dulliau proffesiynol er mwyn parhau â'i waith ar ran pobl Cymru.



**Yr Arglwydd Clark o Windermere**

# Cyflwyniad gan y Prif Warchodwr

Y flwyddyn hon eto mae ein gwaith wedi ehangu wrth i ni fynd i'r afael â'r amcanion a nodir yn Strategaeth coetiroedd a choed y Cynulliad Cenedlaethol, Coetiroedd i Gymru. Er i'r farchnad pren cartref barhau i ddirywio, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda nifer o brif themâu'r Strategaeth, sydd â'r nod o ddefnyddio a rheoli ein coetiroedd mewn modd cynaladwy.

Bu'n rhaid i ni asesu ein hadnoddau yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd prif nodau'r Strategaeth Goetir ac yn cyflawni'r amcanion pwysicaf. Rydym hefyd yn cydnabod yr heriau a wynebir gan yr holl ddiwydiant coedwigaeth yng Nghymru a, diolch i frwdfrydedd, ymroddiad a phroffesiynoldeb parhaus ein staff, rydym wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â nifer o'r materion sy'n wynebu holl sectorau'r diwydiant. Ceir manylion am y materion hyn yn yr adroddiad hwn.

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Fforwm Coetir sy'n goruchwilio gweithredu'r Strategaeth yn ystod y flwyddyn a, thrwy ei chwe Gweithgor, parhaodd i ddatblygu rhaglenni i gwrdd âi amcanion. Un mater a gododd oedd yr angen i gyflymu trawsnewid coetiroedd y Cynulliad yn gymysgedd mwy amrywiol o rywogaethau coed, a lleihau effaith cwympo llwyr.

Bu cynnydd wrth adnabod ardaloedd o goetir sy'n addas i'w trawsnewid yn goedwig gorchudd di-dor gan ddefnyddio systemau rheoli Coedwrol Effaith Ysgafn, a darparwyd hyfforddiant i amryw o staff y CC. Parhawyd i ddatblygu'r polisi pwysig hwn, gan gynnwys dulliau eraill o sefydlu coed collddail trwy aildyfu naturiol a hau hadau. Rydym yn disgwyl i'r rhaglenni hyn gynyddu amrywiaeth rhywogaethau coetiroedd y Cynulliad yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf, tra'n gwella ansawdd y pren ar gyfer defnyddiau olaf cynhyrchiol.

Ym maes allweddol cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cymunedol bu nifer o ddigwyddiadau pwysig yn ystod y flwyddyn. Lansiodd ein Cadeirydd, yr Arglwydd Clark, ein Strategaeth Hamdden yn Sioe Frenhinol Cymru 2002 a chynhaliwyd cynhadledd Coetiroedd ar gyfer Dysgu lwyddiannus a fynychwyd gan fwy na 160 o gyfranogwyr. Ehangwyd Menter Addysg Goedwig a Gwasanaeth Addysg Menter Coedwigaeth o ganlyniad i gynyddu'r cyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol, a chawsant eu hail-lansio gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson AC.

Cafodd aelod o'r staff ei leoli gennym ar secondiad gyda thîm Rhoi Cymunedau'n Gyntaf y Cynulliad Cenedlaethol a, thrwy bartneriaeth â'r Awdurdod Lleol, prynasom 220 hectar o goetir ger Caerffili i fod yn goetir cymunedol sy'n darparu gwell mynediad cyhoeddus i bobl yr ardal.


Darparodd partneriaeth lwyddiannus gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru leoliadau gwaith a hyfforddiant yng nghefn gwlad Gogledd Cymru, ac mae wedi arwain at ddatblygu rhaglen lawer mwy, Dyfodol Cymunedau, sy'n disgwyl cyllid ar hyn o bryd.

Ym maes rheoli coetir, cwblhawyd yr arolwg mwyaf cynhwysfawr o goetiroedd Cymru trwy gyhoeddi'r Rhestr Genedlaethol o Goetir a Choed yng Nghymru. Dangosodd yr arolwg hwn fod gorchudd coetir wedi cynyddu mwy na 45,000 hectar ers yr arolwg diwethaf ym 1980, a bod yr arwynebedd wedi dyblu er 1947. Dangosodd hefyd fod arwynebedd coed collddail wedi cynyddu mwy na 80% rhwng 1980 a 1997 gyda chyfran gymharol coed collddail i goed conwydd yn cynyddu o 29% i 44%. Mae hyn yn golygu fod coetiroedd Cymru bellach yn ymestyn dros arwynebedd mwy nag ar unrhyw adeg er cyfnod Owain Glyn-dŵr.

Derbyniodd adroddiad y Grŵp Strategaeth Datblygu Coetiroedd a Biomas gefnogaeth unfrydol gan y Cynulliad yn dilyn dadl lawn. Mae ceisiadau am gyllid ar gyfer y prosiect ynni coed pwysig hwn bellach wedi eu cyflwyno. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y prosiect yn gwneud cyfraniad mawr i dargedau'r Cynulliad ar gyfer defnyddio adnoddau adnewyddol i gynhyrchu ynni, yn ogystal â darparu marchnad newydd sydd ei hangen yn fawr ar gyfer pren Cymreig.

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi creu partneriaethau llwyddiannus gyda sefydliadau ar brosiectau mor amrywiol â gwella ansawdd pysgota ar afonydd Cymru, i wella poblogaethau magu saith rhywogaeth o adar prin.

Yn olaf, parhaodd y gwaith o ailstrwythuro ein Cynllun Grantiau Coetir mewn ymgais i hyrwyddo'r amcan o reoli coedwigoedd Cymru mewn modd cynaladwy. Mae'r gwaith hwn yn helpu i greu coetiroedd sy'n darparu budd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, ac yn hyrwyddu pren cartref o ansawdd fel adnodd adnewyddol.



**Simon Hewitt**

# Cyflawni Polisiau LLywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ei weithgareddau yng Nghymru. Nodir themâu a thargedau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei Chynllun Strategol, gwellcymru.com, ac mae'r ddogfen hon yn sail i 'Coetiroedd i Gymru', sef Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Coed a Choetiroedd. Mae'r Strategaeth yn disgrifio'r cyfraniad y gall coedwigaeth ei wneud i agendâu datblygu cynaladwy a chymunedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n sail ar gyfer ein gweithgareddau.

Ar y cyd ag ARAD (Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru), mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli'r mesurau coedwigaeth yn y Cynllun. Mae'r gweithredu trwy gyfrwng y Cynllun Grantiau Coetir a gweithredu uniongyrchol ar ystad goetir Llywodraeth Cynulliad Cymru, a reolir gan ein hasiantaeth, Menter Coedwigaeth.

Mae coedwigaeth yn cyfrannu yn y ffyrdd a ganlyn at y meysydd blaenoriaethol allweddol yn gwellcymru.com, a byddwn yn cynnig sylwadau manylach am hyn yn nes ymlaen:

- Gwell cyfleoedd ar gyfer dysgu
- Gwell economi sy'n gryfach
- Gwell iechyd a lles
- Gwell ansawdd bywyd
- Gwell llywodraeth sy'n symlach

**Prosiectau mewn partneriaeth ag Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Grŵp Strategaeth Datblygu Coetir a Biomas

Gwnaeth staff y Comisiwn Coedwigaeth ddau gyflwyniad ynghylch yr adroddiad Datblygu Coetiroedd Fferm a Biomas, y naill i Bwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol a'r llall i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Cafodd yr adroddiad ei ystyried mewn sesiwn cyflawn yn y Cynulliad ar 2 Gorffennaf 2003. Bob tro rhoddwyd cefnogaeth unfrydol i'r adroddiad, ond gan gydnabod na ellir cael unrhyw gynnydd heb bartneriaeth. Yn dilyn y ddadl yn y sesiwn cyflawn, bu'r Comisiwn yn cwblhau a dosbarthu Astudiaeth Adnoddau ynghylch argaeledd coed tanwydd o goetir Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwahoddwyd mynegiadau o ddiddordeb ac mae'r ymgeiswyr yn cael eu hasesu gyda golwg ar gynnig Llythyrau o Fwriad yn ystod haf 2003.

**Cyswllt Ffermio**

Nod y fenter hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw darparu gwasanaethau "cydgysylltiol" gan y Llywodraeth i ffermwyr ledled Cymru. Mae'n bartneriaeth o sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â darparu cyngor a grantiau i ffermwyr. Ei phwrpas yw rhoi'r cyngor cydlynol gorau posibl i ffermwyr am dechnolegau newydd, technegau cynhyrchu a rheolaeth amgylcheddol trwy gyfrwng cyngor uniongyrchol, hyfforddiant a grantiau.

Fel rhan o'r fenter hon, mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi ariannu swydd cydlynydd yn swyddfa Awdurdod Datblygu Cymru yn Aberystwyth. Yn ystod y flwyddyn bu'r aelod o staff y CC /WDA yn gweithio gyda hwyluswyr Cyswllt Ffermio i ennyn gwell dealltwriaeth o'r amrediad o grantiau a chymorth i ffermwyr sy'n cael eu cynnig gan CC Cymru. Mae'r WDA wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth sy'n nodi'r mecanweithiau cefnogi sy'n cael eu cynnig ar y cyd gan CC/WDA i'r sector pren.

**Arian Ewropeaidd Amcan 1, 2, a 3**

**Cyflawni ar gyfer y Sector Coedwigaeth yng Nghymru**

Yng Nghymru, mae cyflawni targedau Amcan 1 o dan y Ddogfen Rhaglennu Sengl (SPD) yn cael ei wneud trwy gyfrwng partneriaethau rhanbarthol a lleol. Y Comisiwn Coedwigaeth yw'r corff arwain ar gyfer y Cynllun Strategol Rheoli Coedwigaeth, Cefn Gwlad a'r Arfordir ac mae ganddo swyddogaeth allweddol, gydag aelodau eraill sy'n bartneriaid, i sicrhau fod y targedau a nodir yn y Ddogfen Rhaglennu Sengl yn cael eu cyflawni.

Erbyn hyn rydym yn nhrydedd flwyddyn y rownd gyfredol o gyllido strwythurol yr UE ar gyfer Cymru. Mae coedwigaeth wedi elwa ar amrediad o brosiectau gwerth dros £27m ar draws y sector, a chyda phrosiectau pellach gwerth dros £28.5m yn yr arfaeth fe ddylai'r sector gael cefnogaeth bellach sylweddol yn ystod gweddill y rhaglen.

Bydd prosiectau'n cyflawni ar draws pob un o 5 amcan Strategaeth Coetiroedd Cymru.

Mae gwybodaeth bellach am raglenni penodol ar gael o dan yr is-bennawd priodol yn Strategaeth Coetiroedd Cymru.

**Cynllun Adfer Cefn Gwlad**

Yn dilyn clwy'r traed a'r genau yng Nghymru, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Cynllun Adfer Cefn Gwlad ym mis Gorffennaf 2001. Ymhlith y mesurau allweddol yn y cynllun roedd £4.2 miliwn o gyllid ar gyfer marchnata a datblygu busnesau twristiaeth a £5 miliwn i gefnogi prosiectau integredig yn ymwneud â thwristiaeth, hamdden a'r amgylchedd.

Roedd y gweithrediadau a roddwyd ar waith o dan y Cynllun Adfer Cefn Gwlad yn cynnwys:

- parhau â'r grantiau o 75% ar gyfer rheoli coetir o dan y Grant Gwella Coetiroedd;
- cynnal cefnogaeth i Wyliau Coedwig ar dir y Cynulliad Cenedlaethol mewn lleoliadau gwledig;
- dal i ddatblygu cynlluniau ar gyfer atyniadau twristiaeth a chyfleusterau chwaraeon penodol megis llwybrau beiciau mynydd yng nghoetiroedd y Cynulliad;
- cafodd cynlluniau a lansiwyd yn ardaloedd Amcan 1 (e.e. y Cynllun Coed Cysgod) eu hestyn i Gymru gyfan ac yn enwedig yr ardaloedd hynny a ddioddefodd waethaf oherwydd clwy'r traed a'r genau.

**Adfywio**

Mae Adfywio yn gynllun arian-cyfatebol newydd gwerth £5.2 miliwn a gafodd ei ddatblygu fel rhan o'r pecyn grantiau i gyllido adferiad cefn gwlad a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y llynedd. Mae'r cynllun yn cael ei reoli ar y cyd gan Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Bwrdd Croeso Cymru gyda chymorth gan y Comisiwn Coedwigaeth.

Mae'r sefydliadau hyn wedi defnyddio eu meysydd arbenigedd eu hunain i ofalu bod y £5.2 miliwn yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl, gan ddiogelu dyfodol llawer o fusnesau, yn ogystal â gwneud cefn gwlad Cymru yn fwy dymunol. Neilltuodd CC Cymru £200,000 ar gyfer y cynllun er mwyn helpu i gefnogi prosiectau sy'n berthynol i goetiroedd.

# Hyrwyddo Rheolaeth Goedwigaeth Gynaladwy

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cynaladwy. Mae gan goetiroedd Cymru ran allweddol i'w chwarae o ran cyflawni nodau datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n gynaladwy.

Mae'r Rhaglenni gweithredu yn 'Coetiroedd i Gymru' yn rhan hanfodol o'r cynllun datblygu cynaladwy cyffredinol ar gyfer Cymru ac ymhlith y gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn roedd:

**Adolygu Cynlluniau Grant**

Cafodd yr adolygiad o gymorth ar gyfer rheoli'r coetiroedd presennol ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ac mae pecyn grantiau newydd yn cael ei lunio ar hyn o bryd er mwyn ei lansio yn 2005. Nod yr adolygiad oedd ystyried a yw'r system bresennol o fecanweithiau grant gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn ddigonol o ran cyflawni rheolaeth goedwigaeth gynaladwy. Yn ystod y cyfnod hwn, hefyd, cwblhawyd rhan gyntaf yr adolygiad i gloriannu'r gefnogaeth bresennol ar gyfer plannu a sefydlu coetiroedd newydd.

Cafodd ein cais 'Buddsoddi i Arbed' ei gymeradwyo gan y Trysorlys, ac mae hynny'n golygu y gallwn gario ymlaen â rhan nesaf ein proses o ddatblygu Grantiau a Thrwyddedau gan ddefnyddio cyfryngau electronig trwy ein cysylltiadau â phartneriaid allanol.

**Cynllun Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Gyfunol (UKWAS)**

Er mwyn datblygu cefnogaeth i Gynllun Sicrwydd Coetiroedd y DG (UKWAS) cafodd aelod o'r staff ei secondio i'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth er mwyn goruchwylio rhagbrofion ardystio yng Nghymru. Mae UKWAS yn fenter sy'n perthyn i'r sector preifat, yn cael ei hwyluso gan y Comisiwn Coedwigaeth, ac yn darparu sicrwydd i brynwyr a manwerthwyr fod cynnyrch pren ardystiedig â label ardystio UKWAS yn dod o goedwigoedd sy'n cael eu rheoli mewn ffordd sy'n amgylcheddol-sensitif.

Cafodd ardystiad UKWAS ei gadw ar gyfer holl goetiroedd y Cynulliad yn dilyn archwiliad anodd.

**Gwobr Coedydd i Gymru**

Noddir Gwobr Coedydd i Gymru y Comisiwn Coedwigaeth gan raglen Cynllun Grantiau Gofal Gwledig Scottish Power. Cyflwynir y wobr yn flynyddol ar gyfer rhagoriaeth mewn rheoli coetiroedd neu ddefnyddio pren fel deunydd crai mewn ffordd arloesol. Yr enillwyr eleni oedd staff a disgyblion Ysgol Gyfun Croesyceiliog ger Cwmbrân, a dderbyniodd y wobr i gydnabod eu gwaith yn troi coedwig gyfagos yn adnodd addysgol gwerthfawr.

**Rheoli Cwympo**

Mae cwympo coed yng Nghymru yn cael ei reoli er mwyn gofalu bod unrhyw gwympo yn cydymffurfio ag egwyddorion rheolaeth goedwigaeth gynaladwy. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n rheidrwydd ar berchnogion, ar ôl cwympo coed, i ailblannu â rhywogaethau priodol i gymryd lle'r rhai a gafodd eu cwympo.

Mae'r rhan fwyaf o ganiatadau cwympo ac amodau sy'n berthynol i ailblannu yn ymwneud â Chynllun Grantiau Coetir. Fodd bynnag, rydym yn dal i weithredu system o Drwyddedau Cwympo a ddefnyddir pan na cheir grantiau. Rhoddwyd 134 o Drwyddedau Cwympo yn ystod y flwyddyn. Cawsom 44 adroddiad am gwympo anghyfreithlon honedig. Bu tri achos gerbron llys a chafwyd collfarn bob tro.

**Iechyd Planhigion**

Er mwyn gwarchod coed a choetiroedd rhag plâu a chlefydau, bu ein Harolygwyr Iechyd Planhigion yn monitro mewnforion cynnyrch pren rheoledig, gan gynnwys defnydd pacio pren, a ddadlwythwyd mewn porthladdoedd yng Nghymru. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio. Unwaith eto, defnyddiwyd trapiau fferomon i ddal Ips typographus (y chwilen rhisgl sbriws wyth dant) mewn porthladdoedd a'r prif ganolfannau prosesu pren yng Nghymru. Yn ogystal, monitrwyd rhandiroedd arolwg parhaol, fel rhan o'n Rhaglen Arolygu Parthau Gwarchod yr Undeb Ewropeaidd i chwilio am arwyddion o blâu. Ni chafodd unrhyw blâu eu dal, yn y trapiau fferomon nac yn y rhandiroedd arolwg. Ar ddiwedd y flwyddyn lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn ceisio sylwadau ynghylch dewisiadau ar gyfer rheoli Dendroctonus micans (y Chwilen Rhisgl Sbriws Fawr). Roedd hyn ar ôl i'r pla gael ei ddarganfod yn Ardaloedd y Llynnoedd ym mis Ebrill 2003. Mae rheolau statudol i reoli D. micans mewn grym yng Nghymru oddi ar 1982, pan gafwyd hyd i'r chwilen am y tro cyntaf.

# Rhaglenni a Gweithrediadau sy'n deillio o Strategaeth Coetiroedd Cymru

Mae Strategaeth Coetiroedd Cymru, a gafodd ei lansio'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2001, yn nodi'n fanwl y prif amcanion, mesurau perfformiad dangosol a dangosyddion cerrig milltir. Rhoddir y rhaglenni gweithredu mewn pum categori amcanol bras:

- Coetiroedd i Bobl
- Pwyslais newydd ar reoli coetiroedd
- Cymru fel Lleoliad ar gyfer Diwydiannau Coedwigaeth o Safon Fyd-eang
- Amgylchedd amrywiol ac iach
- Twristiaeth, hamdden ac iechyd

**Fforwm Coetiroedd Cymru**

Mae'r Fforwm Coetiroedd yn gyfrifol am fonitro cynnydd wrth weithredu'r themâu a gweithrediadau craidd o'r strategaeth ac mae'n adrodd yn ôl o dro i dro i Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn bu'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn cadeirio dau gyfarfod o'r Fforwm Coetiroedd. Mae aelodaeth y Fforwm yn cynnwys sefydliadau sy'n bartneriaid y mae disgwyl iddynt gyflawni rhaglenni sy'n deillio o'r Strategaeth Coetiroedd ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae rhestr lawn o aelodau'r Fforwm yn Atodiad 3 ar Dudalen 97.

Yn y cyfarfod ar 27 Mawrth, dywedodd y Gweinidog ei fod yn dymuno gweld yr amcanion sy'n deillio o 'Coetiroedd i Gymru' yn cael eu gweithredu'n gyflymach, a phwysleisiodd bwysigrwydd gwneud cynnydd ym mhob un o Weithgorau'r Fforwm. Y prif bynciau a drafodwyd oedd papurau ar ailblannu a rheoli coedwigoedd â gorchudd di-dor ar ystad y Cynulliad. Roedd y Gweinidog am weld cynnydd cyflymach wrth gynyddu amrywiaeth y rhywogaethau ar ystad y Cynulliad trwy ddefnyddio mwy o goed collddail wrth ailblannu a symud yn gyflymach tuag at goedwigaeth gorchudd di-dor. Roedd y Fforwm yn cytuno'n fras â chasgliad ei Weithgor 2, a gyflwynodd bapur yn argymell y byddai unrhyw ragdybiaeth o blaid rhywogaeth yn ystod ailblannu yn rhwystr ac y dylid ystyried pob safle ar wahân fel rhan o'r broses dylunio coedwig.'

Bydd gwaith pellach ar egluro a gweithredu'r nod pwysig hwn yn y dyfodol yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

## 1. Coetiroedd i Bobl

Gall coetiroedd fod o fudd amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau lleol, a gallant gefnogi cyfleoedd i ddysgu a chyfrannu ar gynaladwyedd lleol. Yn ogystal, gall coed fod yn gysylltiad pwysig rhwng pobl leol a'u tirwedd a threftadaeth. Ein hamcanion allweddol ar gyfer darparu coetiroedd i bobl yw:

- Defnyddio coetiroedd fel caffaeliad cymdeithasol a diwylliannol ar gyfer rhai o'n cymunedau sydd dan yr anfantais fwyaf;
- Gwneud y defnydd gorau o goetiroedd ar gyfer dysgu; a
- Rhoi cyfleoedd i gymunedau gael dweud eu dweud ynghylch rheoli coedydd cyfagos.

Rhoddwyd sylw i'r amcanion hyn yn ystod y flwyddyn trwy gyfrwng y mentrau a ganlyn:

**Cydcoed**

Cydcoed - Mae 'Coedydd i Bawb' yn rhaglen grantiau sy'n cynnig cefnogaeth ac ariannu cyflawn i grwpiau cymunedol ledled Amcan 1 Cymru i'w helpu i wneud gwell defnydd o goetir ar gyfer datblygu cymunedol. Mae Cydcoed Rhan I yn rhaglen £4M a fydd yn rhedeg tan ddiwedd 2003. Mae wedi bod yn llwyddiannus dros ben a chafodd cyllid gwerth £12M ar gyfer Cydcoed Rhan II a fydd yn rhedeg tan ddiwedd 2008 ei gadarnhau ym mis Ionawr 2003 a'i lansio ym mis Mawrth 2003.

Mae Cydcoed Rhan 1 wedi clustnodi bron y cyfan o'i grantiau gwerth £4M ac mae'n cynnwys dros 40 o brosiectau. Rhoddwyd grantiau gwerth dros £2M i grwpiau cymunedol ac mae disgwyl i'r holl brosiectau gael eu cwblhau erbyn diwedd y rhaglen. Cydcoed oedd yr unig raglen Amcan 1 [EAGGF] a ragwelodd ddarpariaeth swyddi parhaol. Yn ogystal, cafodd y prosiectau unigol eu taenu ar draws holl ranbarth Amcan 1.

Bu Menter Coedwigaeth Cymru yn cefnogi a hwyluso prosiectau Cydcoed ym Mharc Coedwig Afan, Cwm Ystwyth, Talyllychau, Capel Curig a Brechfa.

**Addysg**

Nod Menter Addysg y Goedwig yw gwella dealltwriaeth pobl ifanc o bwysigrwydd coed, coetiroedd ac amgylcheddau coedwig, y diwydiant coedwigaeth, a'r diwydiannau masnach bren a chynhyrchion pren yn fyd-eang a lleol. Mae'n gweithredu fel partneriaeth rhwng y sectorau coedwigaeth a phrosesu pren, amgylcheddwyr ac addysgwyr. Mae Menter Addysg y Goedwig yn cefnogi nifer o grwpiau clwstwr ledled Cymru, sy'n gweithio mewn ardaloedd daearyddol penodol

Yn ystod 2002/03, bu cymorth ariannol yn fodd i bartneriaeth Menter Addysg y Goedwig ehangu a bellach mae'n cyflogi dau gydlynydd a dau swyddog Gwybodaeth a Chefnogaeth. Erbyn hyn mae 17 o grwpiau clwstwr yn gweithredu ledled Cymru; cafodd 8 eu sefydlu yn ystod 2002/03. Lluniwyd grantiau cychwyn, a chafodd 13 eu defnyddio gan y grwpiau clwstwr. Ar ben hyn, dyfarnwyd 9 grant Partneriaeth Menter Addysg y Goedwig gwerth £33,382.

Mynychwyd cynhadledd 'Coetiroedd ar gyfer Dysgu' ym mis Rhagfyr 2002 gan dros 160 o bobl ac roedd yn llwyddiannus dros ben.

Sefydlwyd Fforwm Dysgu Cymru ac mae'n cyfarfod 3-4 gwaith y flwyddyn. Mae'r fforwm yn cynghori a chynorthwyo ar faterion megis dylanwadu ar ddatblygu polisi, arferion gorau mewn hyfforddiant a monitro.

Parhaodd prosiectau unigol Ysgol Goedwig i dyfu ledled Cymru, yn bennaf oddi mewn i grwpiau clwstwr Menter Addysg y Goedwig. Gwnaed Blynyddoedd Cynnar Dyffryn a Phrosiect Trosiannol Sir Y Fflint yn feysydd ymchwil rhagbrofol ar gyfer asesu datblygiad personol a chymdeithasol y plant sy'n rhan ohonynt, yn ogystal â'r cymhwyster oddi mewn i'r gymuned leol. Mae'r ymchwil hwn yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y New Economics Foundation.

Ym mis Hydref, lansiodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wasanaeth addysg estynedig Menter Coedwigaeth Cymru (MCC). Yn ystod y flwyddyn cysylltwyd â dros 1200 o ysgolion, gan gynnwys yr holl ysgolion mewn ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Bu MCC yn gweithio gydag oddeutu 400 o ysgolion a 22,000 o blant. Roedd 95% o'r cwsmeriaid o'r farn fod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn.

**Datblygu Cymunedol**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi datblygu cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf yn gymdeithasol a chymunedol ar goetiroedd mewn sawl maes allweddol:

- Fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Grantiau Coetir rydym wedi bod yn ystyried ffyrdd y gall y grantiau a ddatblygir gennym alluogi perchnogion coetiroedd preifat ddefnyddio'r coetiroedd i gynnig y manteision cymdeithasol a chymunedol gorau fel rhan o'r broses newydd ar gyfer Cynllunio Rheolaeth Coetiroedd.

- Yn ystod y cyfnod hwn rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos ag adrannau allweddol yn y Cynulliad Cenedlaethol, grwpiau cymunedol awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i wella a datblygu ffyrdd newydd o sicrhau manteision ym meysydd allweddol addysg a dysgu ar gyfer datblygu cynaladwy, iechyd a lles cymunedol, a chyflogaeth a datblygu cymunedol.

Mae Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf y Cynulliad Cenedlaethol yn anelu at leihau tlodi a gwella cyfleusterau a gwasanaethau i'r 130 o gymunedau tlotaf yng Nghymru. Mae cyfran uchel o'r rhain o fewn pum milltir o gerdded i un o goetiroedd y Cynulliad.

Rhoddwyd y sawl a secondiwyd gennym yn nhîm Rhoi Cymunedau'n Gyntaf y Cynulliad ddechrau 2002 a pharhaodd yn aelod o'r tîm yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Y nod oedd cael cysylltiad rhwng cymunedau lleol, cyrff sy'n bartneriaid a rheolwyr coedwig er mwyn hyrwyddo arferion gorau. Rydym wedi cefnogi dros 30 o bartneriaethau ledled Cymru ac wedi sicrhau £186.5k ar gyfer rhaglenni gwaith penodol yn Ne Cymru.

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi penodi Ymgynghorydd Cysylltiadau Cymunedol ac mae Rheolwyr Ardal Lleol wedi mynychu digwyddiad hyfforddi penodol.

Cawsom gymunedau lleol i gyfrannu at bob ymgynghoriad ynghylch Cynlluniau Dylunio Coedwig, ambell waith gan ddefnyddio technegau cyfranogol. Bu dros 40 cymuned yn ymwneud ag adolygu 13 o Gynlluniau Dylunio Coedwig.

Yn dilyn y chwe ymgynghoriad cymunedol rhagbrofol yng nghymoedd De Cymru yn 2002, cafodd cynlluniau gweithredu eu cynhyrchu gennym er mwyn gwella mynediad ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Roedd hyn yn rhan o fenter Coed I'r Cymoedd i geisio rhoi cyfle i bobl yng nghymoedd De Cymru gael dweud eu dweud ynghylch sut mae defnyddio'r coetiroedd ger eu cymunedau.

Cwblhawyd arolygon manwl yn Ne Cymru a Gogledd Dwyrain Cymru a nododd ddarpar safleoedd ar gyfer coetiroedd cymunedol newydd ar dir diffaith a hen feysydd glo.

Yn ystod y flwyddyn cafodd 'Polisi Gwirfoddoli' ei ddatblygu gennym, ac o ganlyniad mae Rheolwyr Ardal Lleol a Rhodwyr Cymuned yn gweithio gyda nifer gynyddol o wirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn rheoli coetiroedd.

Un o'r rhwystrau allweddol a nodwyd sy'n llesteirio mwy o gyfranogiad a rheolaeth coetiroedd gan gymunedau lleol yw'r diffyg gwybodaeth berthnasol a chefnogaeth i gymunedau sefydlu eu hunain yn y maes hwn. Fel canlyniad, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi bod yn gweithio'n agos â Choed Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru,

rhaglen Roots of Change Gwarchodwyr Cefn Gwlad, yn ogystal â grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol er mwyn sefydlu Rhwydwaith Coetiroedd Cymunedol. Cafwyd rhagbrawf gan Goed Cadw yn Lloegr a bellach mae'r rhwydwaith hwn yn bwriadu ehangu i Gymru a chynnig cyngor a chefnogaeth benodol sy'n berthnasol i Gymru.

Cafodd cynlluniau dylunio newydd eu cynhyrchu yn ystod y flwyddyn fel bod mynedfeydd coedwigoedd a choetiroedd yn edrych yn fwy croesawgar. Cwblhawyd rhaglenni gwerth £400k mewn dwsinau o safleoedd yn Ne Cymru lle cafodd 30 o reolwyr eu hyfforddi mewn egwyddorion ac arferion dylunio mewnol.

Cafodd pedwar o gyfleusterau hamdden eu gwella gyda chyllid gan Gronfa Adfer Cefn Gwlad y Cynulliad, a chafodd arwyddion trothwy newydd, wedi'u priodoli i'r Cynulliad, eu rhagbrofi yn Ne Cymru.

Ym mis Tachwedd prynodd y Comisiwn Coedwigaeth 223 hectar o goetir ger Caerffili gyda chymorth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Choed Cadw Caerffili. Mae'r coetir cymunedol hwn yn gefnlen nodedig i'r dref a bydd yn gwella cyfleoedd mynediad i'r cyhoedd.

**Rhaglen Gyflogaeth Marchnad Lafur Ganolraddol (ILM)**

Gwnaed trefniad partneriaeth gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn 2002/03 er mwyn helpu i ddarparu ILMau yng Ngogledd Cymru. Ar y cyd â Menter Coedwigaeth, darparwyd 16 o leoliadau ILM, yn berthynol i goedwigaeth, yr amgylchedd, cadwraeth, gweinyddiaeth ac ymchwil.

Eleni hefyd, dechreuodd y Comisiwn Coedwigaeth ddatblygu ei raglen ILM wledig gyntaf yn y DG, sef 'Dyfodol Cymunedau'. Nod y rhaglen hon yw darparu 230 o gyfleoedd am swyddi ledled gorllewin a de Cymru, dros y 30 mis y bydd y rhaglen yn bodoli. Cafodd y cynllunio prosiect ar gyfer y rhaglen hon ei gwblhau erbyn hyn ar ôl ymgynghori â phob un o'r 11 awdurdod lleol yn yr ardal hon, ynghyd ag ELWa, WDA, Canolfannau Gwaith a'r sefydliadau perthnasol yn y sectorau gwirfoddol a phreifat. Cafodd pro forma ar gyfer arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ei chyflwyno a'i chymeradwyo.

**Rali Cymru Prydain**

Enillodd Cymru ei chais i gadw – ac ailenwi – cymal ofal Pencampwriaeth Rali'r Byd am y pedair blynedd nesaf. Yr hen enw oedd Rali Network Q, ac mae'r cytundeb newydd ar gyfer Rali Cymru Prydain yn dilyn misoedd o drafod dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r rali'n cael ei chynnal ar hyd milltiroedd o ffyrdd coedwig o ansawdd uchel yng nghoetiroedd a choedwigoedd y Cynulliad yn Ne a Gorllewin Cymru, ac mae disgwyl iddi gyfrannu dros £43 miliwn at economi Cymru a chael ei gweld neu ei chlywed gan dros 260 miliwn o bobl ledled y byd.

**Defnydd o'r Iaith Gymraeg**

Parhaodd y Comisiwn Coedwigaeth i annog ei staff i ddysgu Cymraeg trwy ddarparu hyfforddiant mewnol a rhoi cyfle i staff dderbyn hyfforddiant allanol yn ystod oriau gwaith. Paratowyd cyfeirlyfr o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg ar gyfer holl swyddfeydd y Comisiwn yng Nghymru. Cynhyrchwyd y rhestr er mwyn delio â galwadau ffôn gan aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad â ni yn Gymraeg.

Cawsom dros 60 llythyr neu neges e-bost yn Gymraeg, ac atebwyd 95% o'r rhain o fewn terfynau amser Siarter y Dinesydd. Cafwyd cyfieithu ar y pryd mewn tua 30 o gyfarfodydd cyhoeddus. Cafodd 132 o ddatganiadau newyddion dwyieithog eu cyhoeddi gennym a rhoddwyd amlygrwydd cyfartal i'r ddwy iaith.
Cafwyd cynnydd sylweddol o ran safle Cymraeg CC Cymru ar ôl sicrhau adnoddau staff ychwanegol.

Roedd gan y Comisiwn Coedwigaeth 422 o staff yn gweithio iddo yng Nghymru ar 31 Mawrth 2003, ac roedd 124 o'r rhain yn siarad Cymraeg. Mae hynny tua 29% o'n gweithlu, ond mae'r ganran yn amrywio o fan i fan. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymwybodol o'r angen i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y lleoliadau hynny lle mae prinder. Ar hyn o bryd mae tua 40 o'r staff yng Nghymru yn dysgu'r iaith trwy gyfrwng amryw o gynlluniau hyfforddi.

Cafodd y Comisiwn Coedwigaeth lwyddiant yng Ngwobrau Dylunio Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2002 a gynhaliwyd fis Gorffennaf diwethaf. O blith rhestr fer o 10 yn y categori hysbysebu, enillodd CC Cymru a'r dylunydd Ruth Jén y tlws am gyfres o bosteri yn darlunio storïau a chwedlau gwerin Cymreig.

## 2. Pwyslais newydd ar reoli coetiroedd

Ein hamcanion allweddol ar gyfer rheoli coetiroedd yw hyrwyddo arferion gorau; gwneud mwy o ddefnydd o systemau gorchudd di-dor; a chael hyd i safleoedd priodol ar gyfer coed a choetiroedd newydd. Mae'r gweithgareddau a ganlyn yn enghreifftiau o'r ffordd yr ydym wedi ymdrin â'r amcanion hyn yn ystod y flwyddyn.

**Tyfiant Coed**

Un o nodweddion allweddol Strategaeth Coetiroedd Cymru oedd ymrwymiad i symud tuag at systemau gorchudd di-dor wrth reoli coedwigoedd, pryd bynnag y bo modd, a dibynnu'n llai ar systemau cwympo llwyr. Yn ystod y flwyddyn buom yn parhau i weithio'n agos gyda Phrifysgol Cymru ym Mangor er mwyn datblygu Tyfiant Coed, sef prosiect Amcan 1 sy'n helpu i broffwydo'r costau ac anghenion rheoli ar gyfer mabwysiadu systemau gorchudd di-dor mewn coedwigoedd cyson eu hoedran. Mae aelod staff o'n Hasiantaeth Ymchwil wedi parhau ar secondiad gyda'r tîm ym Mangor a chafwyd arian cyfatebol i gefnogi'r prosiect gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Y Grant Prosesu Pren Fferm a'r Cynllun Grantiau Pren II

Penodwyd cydlynydd, sef swydd wedi'i chyllido ar y cyd gan y Comisiwn Coedwigaeth ac Awdurdod Datblygu Cymru, ac wedi'i lleoli yn swyddfa'r Awdurdod yn Aberystwyth, er mwyn rheoli'r Grant Prosesu Pren Fferm a chynllun grantiau Pren II yr Awdurdod.

**Coed Cysgod**

Yn 2001 cafodd Grant Coed Cysgod ei gyflwyno gennym. Mae'n seiliedig ar goetiroedd brodorol sy'n gwella'r amgylchedd ac yn rhoi cysgod, a'r nod yw gwneud ffermydd yr ucheldir yn fwy

hyfyw. Mae'r rhaglen, sy'n cael ei chyllido'n rhannol o dan Amcan 1, ar gael hefyd ledled Cymru trwy gyfrwng Cyswllt Ffermio..

Erbyn diwedd mis Mawrth 2003 roedd bron i 200 o ffermydd wedi cael cyngor gan y cynllun. Mae hanner y rhain eisoes wedi llunio cynlluniau i greu coetir newydd, a chafwyd ymrwymiad i blannu 180 ha o goed collddail brodorol oddeutu'r tymor nesaf. Mae'r grantiau plannu ynghyd â grantiau am 138 km o ffensys yn golygu bod ffermwyr Cymru wedi derbyn cyfanswm o tua £600,000 mwn grantiau.

**Dyfodol Coedwigaeth Cymru**

Nod y prosiect hwn yw cynorthwyo 100 o fusnesau bach a chanolig sy'n gontractwyr coedwigaeth yn y gadwyn cyflenwi pren i fod yn fwy cystadleuol, ac felly dod yn rhan fwy cynaladwy o'r economi gwledig yn ardal Amcan 1. Mae'r prosiect yn cefnogi ac yn codi safonau yn y busnesau hyn trwy hyrwyddo arferion da o ran yr amgylchedd ac ansawdd.

**Partneriaethau Cyllido**

Yn dilyn y drafodaeth ar gyfer y Cytundeb partneriaeth newydd rhwng ei holl bartneriaid cyllido allweddol, mae'r Comisiwn Coedwigaeth nawr yn cyfrannu £200,000 y flwyddyn er mwyn cynnal Coed Cymru. Rydym hefyd yn dal i ddarparu cyllid ar gyfer prosiect Tir Coed Cymuned Cwm Ystwyth lle penodwyd Swyddog Prosiect a chafwyd dadansoddiad o anghenion sgiliau.

**Tir Gofal**

Cynllun Grantiau Coetir y Comisiwn Coedwigaeth yw prif fecanwaith grantiau ar gyfer creu a rheoli coetiroedd ar ffermydd sy'n rhan o'r cynllun amaeth-amgylchedd, Tir Gofal. Mae gofyn i'r holl ffermydd â mwy na 3 ha o goetir baratoi cynllun rheoli ar gyfer y coetiroedd a'i weithredu wedyn. Bu'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru i ddatblygu proses cynllunio rheolaeth a bu'r sefydliadau'n cydweithio i hyfforddi dros 80 o bobl sut i baratoi cynlluniau. Mae'r Comisiwn yn cynnig grantiau ar gyfer paratoi'r "Cynlluniau Coetiroedd Brodorol" hyn ac mae'r grantiau wedyn ar gyfer rheoli coetiroedd yn cael eu darparu trwy'r Cynllun Grantiau Coetir.

Nodir y cynnydd hyd yma o ran paratoi a chymeradwyo Cynlluniau Coetiroedd Brodorol yn y tabl isod.

| Nifer y ffermydd â chontractau Cynlluniau Coetiroedd Brodorol | Cyfanswm arwynebedd y coetir mewn contractau Cynlluniau Coetiroedd Brodorol | Nifer y Cynlluniau Coetiroedd Brodorol cyflawn a dderbyniwyd | Nifer y Cynlluniau Coetiroedd Brodorol wedi'u cymeradwyo gan y CC | Arwynebedd coetir mewn Cynlluniau Coetiroedd Brodorol a gafodd eu cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|
| **289** | **3,395** | **99** | **83** | **796** |

Y Cynllun Grantiau Coetir fydd y mecanwaith hefyd ar gyfer grantiau i greu coetiroedd newydd ar ffermydd Tir Gofal lle cafodd cyfanswm o 0.25ha neu fwy ei nodi yn y cytundeb Tir Gofal.

2002/03 oedd y tymor plannu cyntaf ar gyfer y gwaith hwn. Er mwyn hwyluso mynediad i'r Cynllun Grantiau Coetir, anfonwyd ceisiadau wedi'u paratoi o flaen llaw ar gyfer grantiau plannu at 136 o ffermwyr â chontractau Tir Gofal yn nodi plannu newydd. Dim ond 54 a ddychwelwyd ac felly mae angen rhagor o waith dilynol i ofalu bod yna gynnydd o ran plannu ar ffermydd Tir Gofal.

**Gwelliannau mewn Cynhyrchedd ac Ansawdd Pren**

Mae Menter Coedwigaeth wedi ymrwymo i bolisi teneuo sy'n golygu bod y coetiroedd a reolir ganddi ar ran y Cynulliad yn cael eu cynnwys fesul tipyn mewn cyfundrefn deneuo. Gyda hyn mewn golwg, mae staff cynaeafu sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu sydd dan gontract ar gyfer y gwaith hwn wedi derbyn hyfforddiant teneuo. Yn ogystal, buddsoddwyd mewn cyfarpar sy'n fwy addas ar gyfer rhaglenni teneuo. Cwblhawyd teneuo ar 5,000 ha trwy'r gyfundrefn blociau gwaith.

Yn ystod y flwyddyn cafodd staff ledled y sefydliad hyfforddiant mewn technegau Coedwigaeth Gorchudd Di-dor a buont yn rhannu arferion gorau. Yn ogystal cynhyrchwyd llyfryn Canllawiau Gweithredu allweddol ynghylch Coedwigaeth Gorchudd Di-dor.

Bu uwch-staff polisi o'r Comisiwn Coedwigaeth a'r Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn mynychu seminar ar y pwnc a chynhaliwyd un hefyd ar gyfer gweithwyr cynaeafu.

Gwnaethom yn well na'r targed o 10 % ar gyfer cynyddu cyfanswm yr arwynebedd gorchudd di-dor o dan Gynlluniau Dylunio Coedwig sydd newydd eu cymeradwyo.

Gwnaed y plannu yn unol â Chynlluniau Dylunio Coedwig wedi'u cymeradwyo. Fel arfer, roedd aildyfiant yn anghyson, gyda rhai ardaloedd a glustnodwyd ar gyfer aildyfiant collddail naturiol yn gorfod cael eu plannu er mwyn sicrhau aildyfiant.

Yn ystod y flwyddyn cafodd dwy ardal arbrofol ar raddfa fawr eu sefydlu yng nghoetiroedd y Cynulliad yng nghoedwig Clocaenog, Sir Ddinbych (4200ha) a choedwig Cwm Berwyn, Ceredigion (1800 ha). Cafodd technegau coedwigaeth gorchudd di-dor eu harloesi yn y ddau goetir, gyda'r newid yn arwain at strwythur deulawr syml cychwynnol. Trwy fonitro'r ymyriad cychwynnol yng Nghwm Berwyn, cafwyd canlyniadau diddorol o ran aildyfiant sbriws a llai na'r disgwyl o ddifrod gan wynt.

**Cynllun Gweithredu Gwiwerod Coch**

Cafodd Coedwig Clocaenog ei rheoli o hyd fel cynefin buddiol i wiwerod coch a chafodd eu niferoedd eu cynnal. Gwnaed teneuo patrymol LISS er budd i wiwerod coch, lle rhoddir goleuni i eginblanhigion heb greu bwlch yn y canopi.

**Grugieir Du**

Mae Penaran a rhannau o Goedwig Clocaenog yn cael eu rheoli o hyd fel cynefinoedd sy'n fuddiol i Rugieir Du ac mae'r niferoedd wedi cynyddu ar ôl rheoli'r cynefin yn well.

**Cynlluniau Rheoli Henebion Rhestredig**

Cafodd dau o'r cynlluniau newydd i reoli Henebion Rhestredig eu cymeradwyo gan CADW; mae'r ddau arall dan ystyriaeth o hyd.

**Sefydlogi Llithriadau a Thomenni**

Dechreuwyd ar y gwaith o sefydlogi tomen hen lofa Dâr ym mis Mawrth 2003 ac mae disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn mis Awst 2004. Cwblhawyd y gwaith ar y tirlithriad yng Nghwm-parc yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf.

## 3. Cymru fel Lleoliad ar gyfer Diwydiannau Coedwigaeth o Safon Fyd-eang

Ers sawl blwyddyn mae coedwigaeth wedi wynebu amodau masnachu anodd. Fodd bynnag, mae tua 4,200 o swyddi yn dibynnu ar y diwydiant pren cartref, ac mae llawer o'r rhain yn gysylltiedig ag ardaloedd gwledig ac yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi lleol.

Ein hamcanion allweddol fu rhoi cefnogaeth fusnes effeithiol i ddiwydiannau coedwigaeth Cymru; datblygu'r gadwyn cyflenwi pren, datblygu cynnyrch a marchnata; rhoi cefnogaeth i goetiroedd fferm a'r economi gwledig ehangach; a meithrin datblygu ynni adnewyddadwy yn seiliedig ar bren. Yn ogystal â'r Strategaeth Coetir Fferm a Biomas mae ein prif weithgareddau wedi cynnwys:

Wrth weithio gydag Awdurdod Datblygu Cymru a Diwydiannau Coedwigaeth a Chyrff Amgylcheddol rydym wedi cysylltu'n agos â Chyngor Cefn Gwlad Cymru wrth gynhyrchu cynllun gofodol ar gyfer gosodiadau ynni gwynt a gyrrwyd ymlaen â nifer o gynlluniau ar gyfer melinau gwynt unigol gan gynnwys cynllun Cefn Croes yng Nghanolbarth Cymru.

Cafodd yr adolygiad o safleoedd sensitifrwydd–isel ei oedi wrth ddisgwyl cynhyrchu'r adroddiad terfynol gan Bwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad. Cyhoeddwyd ar adroddiad hwn ym mis Ionawr 2003. Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn ymgymryd â'r adolygiad nawr yn ystod 2003/2004.

Bu'n amhosibl i ni gwblhau ein hadolygiad arfaethedig o weithgaredd yn seiliedig ar goedwigaeth. Bwriedir gwneud hyn nawr yn ystod 2003/04.

Buom yn dal i gydweithio'n agos ag Awdurdod Datblygu Cymru a phartneriaid ledled y sector diwydiannau coedwigaeth. Parhaodd un o weithwyr y Comisiwn Coedwigaeth â'i secondiad i'r Awdurdod i weithio o dan raglen Pren II yr Awdurdod, prosiect sy'n anelu at sefydlogi a hybu twf yn y sector prosesu pren yn ardal Amcan 1. Mae'r prosiect wedi rhoi sylw uniongyrchol i fylchau yn y gefnogaeth i'r sector prosesu pren a nodwyd mewn astudiaethau diweddar. Mae'r gefnogaeth uniongyrchol hon yn cynnwys adolygiadau diagnostig busnes/technegol; grantiau ar gyfer cyfarpar a rhwydweithio.

**Prosiect Leader + Gerddi Bodnant**

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn fudiad blaen mewn partneriaeth o'r enw 'Y Dyn Gwyrdd' sy'n anelu at ddatblygu modd i werthu cynhyrchion coetir Gogledd Cymru. Cafodd aelod o staff CC Cymru ei secondio i weithio ar y prosiect sy'n bartneriaeth wedi'i lleoli yn ardal Bwrdeistref Conwy gan gynnwys grŵp Leader + Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ogystal â'r Comisiwn Coedwigaeth.

Nod y prosiect yw datblygu strwythur cydweithredol ar gyfer gweithwyr coed, seiri coed a phobl leol sy'n ymwneud â chrefftau a datblygu strwythur marchnata priodol a lle i werthu cynhyrchion cydweithredol yn ogystal ag ychwanegu gwerth at bren o ffynonellau lleol. Gofynnodd y partneriaid eraill i'r Comisiwn Coedwigaeth redeg y prosiect.

**Cymdeithas y Contractwyr Coedwigaeth**

Parhaodd ein cefnogaeth i brosiect Amcan 1 y Gymdeithas, "Dyfodol Coedwigaeth Cymru", a buom hefyd yn cynorthwyo Rhwydwaith Hyfforddiant Coedwigaeth Powys yn ardal Amcan 3 yng Nghymru.

**Marchnadoedd Pren**

Er gwaethaf amodau masnachu anodd, cafodd 1,114,000 m3 o bren ei farchnata, sef 11.4% yn fwy na'r targed. Cafodd cyfleoedd allforio eu datblygu er mwyn gofalu bod marchnadoedd byrdymor a thymor canolig ar gael o hyd i'r pren gwyryfol sy'n cael ei ddisodli gan fentrau ailgylchu pren. Gwnaed ymdrechion, gydag arwyddion o wir lwyddiant, i ddatblygu'r sector ffensio a disodli defnydd ffensio wedi'i fewnforio.

Roedd nifer y coed Nadolig a ddaeth ar y farchnad yn llai na'r targed o 10,000 o Ffynidwydd Urddasol a 5,000 o rywogaethau eraill ond datblygwyd cyfleoedd marchnata yn ystod y flwyddyn gyda golwg ar werthu mwy yn 2003.

**Contractau Hirdymor**

Cafodd contractau gwasanaeth hirdymor a thymor canolig eu datblygu a'u gosod ar gyfer Cynaeafu, Marchnata a Choedwriaeth. Rhoddodd y contractau hyn hyder i fusnesau bach a chanolig fuddsoddi mewn cyfarpar, staff a sgiliau.

**Cludo pren**

Mae staff CC Cymru wedi bod yn cefnogi gwaith Fforwm Trafnidiaeth Pren Cymru sy'n anelu at wneud defnydd mwy effeithlon o'r rhwydwaith cludiant rheilffyrdd a ffyrdd er budd i gynhyrchwyr, cludwyr a phroseswyr pren.

**Uned Arwyddion y Comisiwn Coedwigaeth**

Enillodd ein Huned Arwyddion ym Maesgwm Dystysgrif Cadwyn Warchodaeth y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth, sy'n caniatáu i ni gynhyrchu, gosod a marchnata cynhyrchion ag ardystiad nawr eu bod yn deillio o Goedwigoedd Wedi'u Rheoli'n Gynaladwy.

**Ymweliad â Chymru gan Goedwigwyr o Latfia**

Bu uwch-ddirprwyaeth o Wasanaeth Coedwigaeth Gwladol Latfia yn ymweld â Chymru ym mis Gorffennaf, ar ôl clywed am Strategaeth Coetiroedd Cynulliad Cymru gan Talis Kalnars. Mae Mr Kalnars ei hun, sy'n ymgynghorydd coedwigaeth uchel ei barch, yn frodor o Latfia ac mae wedi gweithio yng Nghymru oddi ar 1959. Roedd gan y ddirprwyaeth ddiddordeb penodol yn natblygiad y strategaeth a sut mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn bwriadu gweithredu'r symudiad i ffwrdd oddi wrth blanhigfeydd, dros amser, tuag at brosesau mwy naturiol sy'n defnyddio gorchudd di-dor, pan fo hynny'n briodol.

**Menter Datblygu ar y Cyd**

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio dulliau integredig i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector cadwyn bren yng Nghymru wrth iddo newid i weithredu fel diwydiant rhanbarthol modern. Yn bennaf, mae'n brosiect 'gweithgaredd ddysgu', a fydd yn golygu gallu cynhyrchu cyflenwad â gwerth uchel ledled y sector cyfan – o dyfu i brosesu eilaidd. Y nod yw gweithio gyda 500 o fusnesau bach a chanolig a helpu 1500 o weithwyr.

**Pren II**

Nod y prosiect yw sefydlogi a hybu twf yn y sector prosesu pren yn ardal Amcan 1 sy'n cynnwys yn bennaf y busnesau lleiaf o blith busnesau bach a chanolig. Mae'r gefnogaeth uniongyrchol yn cynnwys adolygiadau diagnostig busnes a thechnegol: grantiau ar gyfer cyfarpar a rhwydweithio. Mae'n anelu at helpu 115 o fusnesau pren bach a chanolig, gan ddiogelu 108 o swyddi.

## 4. Amgylchedd Amrywiol ac Iach

Gall coetiroedd sy'n cael eu rheoli'n dda ddarparu dewis o gynhyrchion amrywiol ac maent yn batrymau o gynaladwyedd. Er mwyn cyflawni gwir gynaladwyedd, rhaid cynnal neu wella'r adnoddau ffisegol a biolegol mewn coedwigoedd, megis dŵr, pridd, fflora a ffawna. Ein hamcanion allweddol yw cadw a gwella bioamrywiaeth ein coetiroedd; cadw a gwella tirweddau Cymru; ac integreiddio coetiroedd yn well i reolaeth cefn gwlad o fathau eraill. Ein prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn oedd:

**Cefnogi Cadwraeth Rhywogaethau Coetir**

Cafodd cynllun drafft ei ddatblygu ac mae hwn yn cyfrannu at yr Adolygiad Grantiau a Thrwyddedau gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Mae'r adroddiad wedi nodi 15 o rywogaethau blaenoriaeth uchel, 20 o rywogaethau blaenoriaeth ganolig a 37 o rywogaethau blaenoriaeth isel ar gyfer gweithredu gan y Comisiwn a chafwyd peth ymgynghori â phartneriaid allweddol gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Pysgota yng Nghymru**

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyfrannu at y prosiect hwn sy'n cael ei arwain gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r prosiect yn gyffredinol yn ystyried gwella genweirio yng Nghymru, trwy wella cynefinoedd afonol, cyfleusterau genweirio a marchnata potensial yr ardal ar gyfer genweirio. Bydd gwelliannau a dargedwyd ar gyfer gwella rheolaeth coetiroedd mewn cylchfâu afonol yn cyfrannu at wella'r cynefin ar gyfer bridio pysgod ac o'r herwydd at lwyddiant cyffredinol y prosiect.

**Tydi Adar Cymru'n Wych**

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn bartner yn y prosiect hwn sy'n cael ei arwain gan yr RSPB. Y nod yw gwella poblogaethau bridio saith rhywogaeth o adar prin yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhywogaethau hyn ac adar eraill. Mae cyfraniad Menter Coedwigaeth yn berthynol i'r Rugiar Ddu ac yn cydnabod y rhan bwysig y mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ei chwarae o ran rheoli rhannau allweddol o'i goedwigoedd ar gyfer yr aderyn ysblennydd hwn.

**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig**

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn arwain y bartneriaeth hon sy'n anelu at adfer rhai o'r coetiroedd derw Iwerydd o bwys rhyngwladol yng ngogledd orllewin Cymru, trwy gyfrwng Prosiect Rheoli Cynefin Coedydd Derw Meirion. Mae'n bartneriaeth o 15 sefydliad sy'n cynnwys cyrff y llywodraeth, elusennau amgylcheddol a chwmnïau preifat.
Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gael gwared yn ofalus ar gonwydd wedi'u plannu; rheoli rhywogaethau ymledol ac ailddefnyddio technegau rheoli traddodiadol megis prysgwyddo, yn ogystal â gwneud y defnydd gorau posibl o botensial y coetiroedd ar gyfer bywyd gwyllt, hamdden ac addysg. Cyflwynwyd cais Amcan 1 gwerth £2 miliwn, ac os bydd yn llwyddiannus mae'r partneriaid yn bwriadu dechrau ar y gwaith ddechrau 2004.

**Adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol**

Mae'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn ymwneud â chais i gael mynediad i gyllid Amcan 1 er mwyn helpu i gicdanio'r broses o adfer safleoedd coetiroedd hynafol wedi'u plannu. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth ynghyd â Choed Cadw yn datblygu cais. Y gobaith yw y gellir cychwyn y gwaith ddechrau 2004.

**Adfer Coetiroedd Hynafol**

Parhawyd â'r gwaith o adfer trwy deneuo ar safleoedd coetiroedd hynafol ledled Cymru. Fel canlyniad i Arolwg Coetiroedd Hynafol y Comisiwn Coedwigaeth a gwblhawyd yn 2002, cynhyrchwyd strategaeth ddrafft ar gyfer Adfer Coetiroedd Hynafol. Cyflwynwyd dau gais Amcan 1 ar gyfer adfer coetiroedd hynafol o eiddo'r Cynulliad.

Cafodd methodoleg arolygu ei ddatblygu o hyd yn ogystal â system monitro ac adrodd yn seiliedig ar GIS. Dechreuwyd ar ragbrawf Cadwraeth GIS estynedig a lluniwyd system cofnodi cynefinoedd er na chafodd ei bwydo â data eto.

**Coetir Brodorol Ucheldirol Newydd**

Yng Ngwynedd, dechreuwyd ar brosiect mawr i glirio coedwig fel y gellir creu'r coetir brodorol ucheldirol newydd mwyaf erioed yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn aeth y gwaith yn ei flaen o gynaeafu'r goedwig 30-mlwydd-oed yng Nghoed y Mynydd, ger Dolgellau a gafodd ei phlannu'n wreiddiol gan y Comisiwn Coedwigaeth fel rhan o raglen i adfer tir y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae'r conwydd llawn dwf yn cael eu cwympo a bydd dros 100,000 tunnell fetrig o bren yn cael ei gludo o'r safle dros y tair blynedd nesaf. Am fod y safle wedi cael ei ddefnyddio'n flaenorol fel maes tanio, mae'r gwaith yn cael ei reoli'n ofalus dros ben er mwyn diogelu'r holl staff a chontractwyr preifat yn ogystal ag unrhyw aelod o'r cyhoedd a allai fod yn y cyffiniau.

Dechreuwyd hau hadau rhywogaethau brodorol megis bedw, derw ac ynn lle cafodd y conwydd eu cwympo ac mae'r canlyniadau cychwynnol wedi bod yn galonogol dros ben.

**Asesiad Amgylcheddol o Safle**

Cynhyrchwyd system sgorio ar gyfer Asesiad Amgylcheddol o Safle ac fe'i profwyd yn y goedwig gyda'n Huned Gynaeafu. Y nod yw rhoi modd i reolwyr asesu effaith ein gweithrediadau ar amgylchedd y goedwig.

**Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed yng Nghymru**

Cafodd y Rhestr Genedlaethol o Goetiroedd a Choed yng Nghymru, sef yr arolwg mwyaf cynhwysfawr erioed o goetir Cymru, ei chyhoeddi yn 2002.

Dangosodd yr arolwg fod arwynebedd y coedydd a choedwigoedd yng Nghymru wedi cynyddu dros 45,000 hectar i 286,769 hectar oddi ar yr arolwg blaenorol yn 1980. Dros y 50 mlynedd diwethaf (oddi ar 1947) mae arwynebedd y coetir wedi dyblu.

Mae cyfanswm yr arwynebedd â gorchudd coed wedi cynyddu o 11.6 y cant i 13.8 y cant rhwng 1980 a 1997 – sy'n golygu y cafwyd cynnydd ers i'r Weinyddiaeth Amaeth ddechrau arolygon yn 1871, pan oedd llai na thri y cant o Gymru dan orchudd coed.

Roedd y Rhestr yn dangos hefyd:

- Roedd yna 9,631 o goedydd dros 2ha (5 erw) o faint yng Nghymru, a 23,405 o goedydd o dan 2ha;
- Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn berchen ar neu'n prydlesu 119,979ha, neu 44 y cant o goetir dros 2 hectar, ac roedd 150,056ha yn eiddo i eraill;
- Roedd 47.9 y cant o'r holl goetir yn goetir conwydd, 37.3 y cant yn goetir collddail, 7.7 y cant yn goetir cymysg, a 3.8 y cant yn agored;
- Y brif rywogaeth gonwydd oedd y sbriwsen Sitca a oedd yn gorchuddio 83,891ha. Y brif rywogaeth gollddail oedd y dderwen, yn gorchuddio 42,918ha;
- Mae arwynebedd y coetir collddail wedi cynyddu oddi ar 1980 gyda chyfran y collddail mewn cymhariaeth â'r conwydd wedi cynyddu o 29 y cant i 44 y cant;
- Roedd gan Gymru 15.33 miliwn o goed byw y tu allan i goetir.

**Seminar Comisiwn Coedwigaeth Cymru.**

Roedd seminar dwyieithog 'Economi Coedwig ar gyfer y dyfodol yng Nghymru' yn llwyddiannus dros ben, ac roedd ymhell dros 100 o bobl yn bresennol. Cynhaliwyd y Seminar i helpu'r cymunedau amaethyddol a phren sy'n chwilio am gyfleoedd busnes newydd ac i ddangos sut y gall arallgyfeirio busnesau unigol gael effaith bositif yn aml ar yr economi gwledig ehangach. Pwysleisiodd y Seminar sut y gallai busnesau coetir gael effaith bositif ar y Gymru wledig trwy wneud y cysylltiadau hyn â sectorau busnes eraill megis twristiaeth ac ynni ac ystyried anghenion cymunedau lleol mewn meysydd megis addysg, iechyd a chyflogaeth.

**Cynhadledd Amgylcheddol**

Bu'r Comisiwn Coedwigaeth mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal cynhadledd genedlaethol lwyddiannus ar Gynaladwyedd Amgylcheddol. Roedd y gynhadledd yn dilyn y gynhadledd ôl-Johannesburg yn Abertawe ac roedd yn anelu at gyrchu'r datrysiadau i integreiddio polisi ar draws llywodraeth a sefydliad. Cyflwynwyd gwaith y Comisiwn gyda chymunedau De Cymru fel patrwm o gysylltu â chymunedau a chyflwynwyd Partneriaeth Goedwigaeth y DG er Gweithredu fel patrwm o weithio gyda diwydiant mewn adborth ar ôl y gynhadledd.

## 5. Twristiaeth, Hamdden ac Iechyd

Mae coed a choetiroedd yn amlwg yn y dirwedd, yn enwedig yn rhai o ardaloedd harddaf Cymru, ac yn chwarae rhan hanfodol mewn twristiaeth.

Mae coetiroedd hefyd yn darparu strwythur i dirwedd ac yn lleoliad ar gyfer llawer o fentrau twristiaeth. Maent hefyd yn lleoedd i ymweld â hwy yn eu rhinwedd eu hunain. Ceir dros 11 miliwn o ymweliadau â choetiroedd Cymru bob blwyddyn, a chyda mwy o alw am hamddena yn yr awyr agored, mae'r nifer ar gynnydd.

Ein hamcanion allweddol ar gyfer hyrwyddo twristiaeth ac iechyd yw:

- Defnyddio coetiroedd er mwyn helpu i greu profiad ymwelwyr o ansawdd uchel; a
- Hyrwyddo iechyd trwy fynediad i goetiroedd ar gyfer pob cymuned.

Ymhlith y llwyddiannau allweddol eleni oedd:

**Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cymryd y rhan arweiniol wrth ddatblygu 'Pecyn y Cyflwynwyr' mewn ymateb i ddeddfwriaeth eilaidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2003 o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000). Datblygwyd gallu Awdurdod perthnasol mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, gyda chyfraniad sylweddol gan y Comisiwn at ddatblygu'r canllawiau ar gyfer y drefn gyfyngiadau a'r datblygiad TG i reoli'r swyddogaeth statudol newydd. Mae Menter Coedwigaeth, i fod yn barod ar gyfer cyflwyno o dan y Ddeddf, wedi cwblhau astudiaeth o dir prydlesol. Yn osgystal, lluniwyd rhaglenni rhagarweiniol a fydd yn sicrhau mynediad wedi'i gyflwyno dros y rhan fwyaf o ystad coetir rhydd-ddaliol y Cynulliad erbyn y dyddiad targed, sef gwanwyn 2005.

**Strategaeth Hamdden**

Lansiwyd y Strategaeth Hamdden gan yr Arglwydd Clark yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio ein strategaeth ar gyfer mynediad a hamdden o dan y 6 phennawd a ganlyn:

Datblygu cynaladwy:
trwy fabwysiadu ymagwedd integredig yn ymwneud â phartneriaeth i'n gweithgareddau hamdden

Mwy o Fynediad:
trwy ddarparu cyfleoedd a chyfleusterau newydd ar gyfer mynediad mewn coedwigoedd a choedydd

Mwy o Hwyl a Dysgu:
trwy well cyfleoedd i fwynhau'r profiad a dysgu ganddo

Gwyliau yn y goedwig:
trwy ddarparu cyfleusterau llety dros nos a chymell pobl i aros yn hwy

Cyfleoedd i Bawb:
hyrwyddo yr hyn sydd gennym i'w gynnig a denu mwy o ymwelwyr, llawer am y tro cyntaf

Sicrhau Llwyddiant:
trwy ddarparu gwasanaeth o ansawdd, gan brofi fod pobl yn cyfrif.

**Hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a chefnogi twristiaeth a busnesau lleol**

Datblygwyd mentrau twristiaeth cynaladwy ar y cyd â phartneriaid yn:

- Canolfan Ymwelwyr Nant yr Arian, Ceredigion
- Parc Coedwig Coed y Brenin, Gwynedd
- Llwybrau Beicio Mynydd Brechfa, Caerfyrddin
- Gwylio Bywyd Gwyllt Cymru ym Mhowys
- Parc Coedwig Gwydyr, Conwy
- Parc Coedwig Afan, Castell-nedd Port Talbot

**Rhaglenni partneriaeth gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a Hybu Iechyd Cymru**

Eleni, ar y cyd â nifer o sefydliadau, buom yn datblygu rhaglenni partneriaeth i annog byw yn iach trwy hamddena mewn coedwigoedd –

- Teithiau cerdded tywysedig ac ymarferiadau gyda'r feddygfa yn Llanymddyfri;
- Prosiect mapio calorïau gyda Phrifysgol Aberystwyth;
- Diwrnodau ffordd o fyw iach gyda Chynghrair Iechyd Powys yn Ystradgynlais;
- Teithiau cerdded Penpych – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- Cychwyn Cadarn Ceredigion ar gyfer mamau ifainc a phlant;
- Cynllun Dilyn Llwybr Iechyd Dyffryn Tywi;
- Cynllun Dilyn Llwybr Iechyd Cyngor Sir Fynwy ac eraill.

**Safleoedd cabanau a gwersylla newydd**

Gwnaed gwaith paratoadol pellach ar asesu'r safleoedd a nodwyd yn adroddiad y llynedd ar ddarpar safleoedd newydd ar gyfer cabanau mewn coetiroedd o eiddo'r Cynulliad yng Nghymru. Cafwyd trafodaethau â pherchnogion tir cyfagos ac mae'r safle arfaethedig yng nghoedwig Gwydyr yn cael ei asesu'n fanylach cyn cysylltu â'r gymuned leol mewn perthynas â'r cynllun.

Bwriedir cynnal arolygon pellach i adnabod safleoedd posibl eraill ar gyfer atyniadau twristiaeth ar raddfa lai.

**Canolfannau Ymwelwyr**

Cwblhawyd llawer o'r gwaith ar gynlluniau i wella'r Canolfannau Ymwelwyr yn Nant yr Arian ger Aberystwyth, a Choed y Brenin ger Dolgellau. Mae ceisiadau am gyllid yn cael eu cwblhau er mwyn caniatáu ailddatblygu'r cyfleusterau hyn ar raddfa fawr, gan adeiladu ar ein llwyddiant diweddar i gynyddu niferoedd y twristiaid i'r cyfleusterau hyn a darparu gwell cyfleoedd i'r economi twristiaeth yn y lleoliadau hyn.

**Pobl yn y Comisiwn Coedwigaeth**

Mae'r Frenhines wedi cymeradwyo estyn penodiad y Comisiynydd anweithredol, Gareth Wardell, am dymor pellach o chwe mis tan 30 Mawrth 2003. Penodwyd Mr Wardell, darlithydd ac Aelod o Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd, yn Gomisiynydd Coedwigaeth yn1999.

Fel rhan o'r newidiadau i drefn y Comisiwn yn deillio o'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth, penodwyd y Prif Warchodwr Simon Hewitt yn Gyfarwyddwr Cymru o 1 Ebrill 2003. Bydd hefyd yn cynrychioli Cymru ar Fwrdd y Comisiynwyr Coedwigaeth.

**Adolygiad Datganoli Coedwigaeth**

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn mynd i fod yn atebol yn fwy uniongyrchol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn adolygiad cynhwysfawr mewn ymateb i ddatganoli bedair blynedd yn ôl.

Cafodd ad-drefnu'r trefniadau gweinyddol ar gyfer coedwigaeth ledled Prydain ei gytuno gan Weinidog Datblygu Gwledig y Cynulliad a'i gyd-Weinidogion Coedwigaeth yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Datganoli Coedwigaeth.

Mae'r adolygiad rhyngadrannol cynhwysfawr o sut y dylid datblygu polisïau coedwigaeth cynaladwy ar ôl datganoli wedi paratoi'r ffordd ar gyfer llawer rhagor o integreiddio rhwng Swyddfa Genedlaethol y Comisiwn yng Nghymru ac Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y Cynulliad.

Bydd asiantaeth Menter Coedwigaeth y Comisiwn Coedwigaeth, sy'n rheoli coedwigoedd cyhoeddus Cymru ar ran y Cynulliad ond fel rhan o asiantaeth ar gyfer holl Brydain, yn dod yn endid ar wahân ar gyfer Cymru, ond bydd yn gweithredu fel rhan o'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Cymru yn unswydd er mwyn gofalu am yr arwynebedd tir enfawr hwn o dros 320,000 erw (130,000 hectar)..

**Recriwtio**

Cafodd nifer o rodwyr addysg a chymuned newydd eu recriwtio yn ystod y flwyddyn er mwyn cefnogi amcanion cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cynllun Arbrofol i Brentisiaid**

Buom yn cymryd rhan mewn cynllun arbrofol i brentisiaid ar gyfer gweithredwyr peiriannau coedwigaeth, ar y cyd â cholegau amaethyddol, er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r prinder gweithredwyr peiriannau cymwys yn y diwydiant. Lleolwyd deg gweithredwr gyda Fflyd Cynaeafu a Marchnata Cymru ac fel canlyniad cafodd dau waith llawn-amser a pharhaol.

**Prosiect Hanes y Goedwig**

Mae prosiect Hanes y Goedwig, a gefnogwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yn gasgliad pwysig o gyfweliadau ar dâp a hen ffotograffau sy'n cynnwys atgofion pobl y cafodd eu bywydau eu newid am byth wrth i raglen goedwigo'r Comisiwn Coedwigaeth newid tirwedd wledig Cymru yn ddramatig.

O dan gyfarwyddyd y Rheolwr Prosiect, Dr Caroline Earwood, bu chwe chydlynydd cymuned ledled Cymru yn casglu gwybodaeth a hanesion, a bellach cafodd y rhain eu trosglwyddo i gryno-ddisgiau.

Ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau, agorwyd arddangosfa Hanes y Goedwig gan y Gweinidog Datblygu Gwledig Mike German ym mis Tachwedd ac oddi ar hynny bu ar daith mewn gwahanol gymunedau ledled Cymru.

Bellach cafodd y prosiect ei archifo yn y Llyfrgell Genedlaethol yn barhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae copïau ar gadw hefyd yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan ac yn y cymunedau a fu'n cyfrannu at y prosiect.

Mae'r Comisiwn wedi gwneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am gefnogaeth bellach fel y gellir estyn y prosiect am bedair blynedd arall a rhoi sylw i'r coedwigoedd gwledig eraill a reolir gan Fenter Coedwigaeth Cymru.

**Moderneiddio Llywodraeth**

Yn ystod y flwyddyn, buom yn symud ymlaen o hyd â'r rhaglen i wella darpariaeth ein gwasanaethau, a oedd yn deillio o Bapur Gwyn Moderneiddio Llywodraeth (Cm 4310).

Y prif newid fydd gweithredu'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth.

**Adolygiad Datganoli Coedwigaeth**

Fel yr adroddwyd y llynedd, cyhoeddodd y Gweinidogion Coedwigaeth adolygiad rhyngadrannol cynhwysfawr o'r trefniadau gweinyddol ar gyfer datblygu polisïau coedwigaeth cynaladwy ar ôl datganoli ym mis Rhagfyr 2001.

Cytunodd y Gweinidogion ar argymhellion yr Adolygiad Datganoli Coedwigaeth ym mis Awst 2002 gan fynegi eu cefnogaeth i bolisi coedwigaeth gael ei gyflawni gan y Comisiwn Coedwigaeth. Argymhellodd yr Adolygiad newidiadau er mwyn integreiddio coedwigaeth yn well i waith polisi gwledig arall yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ond gan gadw cyfleoedd buddiol ar gyfer ymagwedd gydweithrediadol i faterion cyffredin. Cafodd y bleidlais hon o hyder yn ein swyddogaeth a'r hyn yr ydym yn ei gyflawni ei chroesawu gennym, a dechreuasom weithredu'r newidiadau gofynnol ar unwaith. Isod, amlinellir y newidiadau a gytunwyd gan y Gweinidogion, a'r hyn a wnaethom wedyn:

- llawer mwy o integreiddio datblygu polisi a chyflawni rhwng Swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth a'r adrannau materion gwledig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Bydd hyn yn seiliedig ar goncordatiau wedi'u llunio'n unigol rhwng pob adran materion gwledig a Swyddfa Genedlaethol berthnasol y Comisiwn Coedwigaeth;
- datganoli asiantaeth Menter Coedwigaeth y Comisiwn Coedwigaeth yn dri chorff, â chyfrifoldeb am reoli ar wahân y coedwigoedd cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban;
- mwy o gyfrifoldeb i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban o ran pennu blaenoriaethau ymchwil, gyda chymeradwyaeth ar y cyd gan y Gweinidogion Coedwigaeth ar gyfer y strategaeth ymchwil a'r rhaglen ymchwil flynyddol;
- mwy o gynrychiolaeth o Gymru, Lloegr a'r Alban ar Fwrdd y Comisiynwyr Coedwigaeth. Rydym wedi penodi Gweithredwr a dau Gomisiynydd Anweithredol ar gyfer pob gwlad. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb am faterion sy'n ymwneud â gwledydd penodol i'r Pwyllgorau Cenedlaethol ym mhob gwlad;
- pwyllgor gweinidogol newydd, yn cynnwys Gweinidogion o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, i drafod materion rhyngwladol ac unrhyw faterion trawsbynciol lle byddai cydweithredu'n fanteisiol ac i fonitro effeithlonrwydd y trefniadau newydd hyn. Cyfarfu'r Grŵp Gweinidogion Coedwigaeth newydd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2003.

Wrth weithredu'r newidiadau, ein nod oedd cael cymaint o fanteision â phosibl er mwyn galluogi'r Comisiwn Coedwigaeth i:

- cyflawni amcanion y weinyddiaeth ym mhob gwlad, nid fel "partneriaid" hyd-braich ond fel aelodau llawn o dîm y Gweinidog;
- arwain â hyder ar faterion yn ymwneud â'r DG a Phrydain gyda chefnogaeth Llywodraeth y DG a'r gweinyddiaethau datganoledig;
- manteisio ar y profiad sydd ar gael i ni ledled Prydain ac ar wasanaethau canolog effeithlon.

Mae hyn wedi golygu ailstrwythuro strwythur y sefydliad yn helaeth fel y gallwn barhau i wella wrth gyflawni strategaethau coedwigaeth y gwledydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Cafodd llawer o'r cyfrifoldeb am gyflawni a oedd wedi aros yn ein pencadlys yn Silvan House ei ddatganoli i'n Swyddfeydd Cenedlaethol, lle cafodd y timau eu cryfhau o'r herwydd. Mae'r manylion am ein strwythur newydd ar gael yn Atodiad 1.

Yn dilyn ad-drefnu mewnol, cafodd Simon Hewitt, cyn-Brif Warchodwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ei benodi'n Gyfarwyddwr CC Cymru, sy'n cynnwys y corff Rheoli Coedwigaeth dan arweiniad Dr Bob Farmer. Mae Simon Hewitt yn gweithio o Swyddfa Genedlaethol CC Cymru yn Aberystwyth. Bydd y trefniadau ar gyfer rheoli'r coedwigoedd cenedlaethol yng Nghymru gan y Comisiwn Coedwigaeth yn destun adolygiad ar wahân yn ystod 2003. Bydd Simon yn dal i fod yn aelod o Grŵp Cynnydd y Gweinidog ac o Bwyllgor Cenedlaethol newydd y CC yng Nghymru, Mae'r Comisiynwyr Coedwigaeth wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau yng Nghymru i raddau helaeth i'r grŵp hwn.

**Cyswllt Staff**

Gwnaethom gynnydd pellach gyda'n rhaglen rheoli newidiadau mewnol "Cyswllt" sy'n anelu at wella'r ffordd y mae ein staff yn cydweithio er mwyn hybu buddiannau coedwigaeth ledled Prydain. Roedd yn cynnwys -

- Llunio, am y tro cyntaf, cyfres o Werthoedd ar gyfer ein staff. Roedd y Gwerthoedd (Gwaith Tîm, Proffesiynoldeb, Parch, Cyfathrebu, Dysgu a Chreadigedd) yn seiliedig ar drafodaeth â dros 500 staff ym mhob rhan o'r Comisiwn.

- Datblygu sgiliau arwain 197 o reolwyr eraill a fynychodd ddigwyddiadau "Rhoi Gwerth ar Bobl a Chefnogi Newid", a gafodd eu trefnu'n arbennig, yn ychwanegol i'r 250 o reolwyr a fynychodd ddigwyddiadau arweinyddiaeth yn ystod 2001-02.

- Cyfathrebu'n well â'r staff, yn enwedig trwy gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ag uwch-reolwyr, defnyddio e-bost yn well i ddosbarthu "Bwletinau Cyswllt" yn cynnwys eitemau o ddiddordeb cyffredinol i'r holl staff bob pythefnos, a thrwy gynnwys mwy o wybodaeth sy'n haws ei gyrchu ar ein mewnrwyd.

- Rhoi mwy o wobrau nad ydynt yn ymwneud â chyflog i'r staff, gan amrywio o "ddiolch" syml i ddyfarnu pum niwrnod o wyliau ychwanegol i staff sydd wedi cwblhau 20 mlynedd o wasanaeth gyda'r Comisiwn a gwell cyfleusterau i'r staff sy'n seiclo i'w gwaith.

- Cwrs diwygiedig ar gyfer recriwtiaid i'r Comisiwn, er mwyn gwella effeithlonrwydd staff newydd. Yn ystod y flwyddyn, bu 156 o bobl yn mynychu 11 o gyrsiau.

Roedd cyflawniadau pwysig eraill y flwyddyn yn cynnwys -

- Cynnydd tuag at gyflawni targed y llywodraeth o sicrhau bod gan ddinasyddion a busnesau fynediad electronig i bob gwasanaeth erbyn 2005. Ddiwedd mis Mawrth 2003, roedd mynediad llawn i dros 40% o'n gwasanaethau ac roedd mynediad rhannol i 20%.

- Llawer mwy o ddefnydd o'r wefan, diolch i ehangu ei chynnwys a sicrhau ffresni (er enghraifft, rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau tymhorol yn ein coetiroedd). Cafwyd cynnydd o 84% yn y defnydd a wnaed o'r wefan yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi meincnodi ein cynnydd yn ôl sefydliadau eraill, ac yn ôl ein perfformiad ein hunain cyn y rhaglen Cyswllt.

Yn allanol, golygodd hynny ailgloriannu yn ôl achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a ddyfarnwyd i ni yn 2000. Yn ystod 2002, llwyddodd rhan graidd y Comisiwn Coedwigaeth, yn ogystal â'n hasiantaeth weithredol Menter Coedwigaeth i ennill ail-achrediad. Nododd yr aseswyr welliannau amlwg mewn perfformiad oddi ar yr achrediad gwreiddiol.

Roedd Arolwg Staff Prydain ym mis Tachwedd, hefyd, yn dangos cynnydd. Yn wir, o blith y 160 o gwestiynau a ofynnwyd, dim ond 12 a ddangosodd berfformiad gwaeth a chafwyd gwelliannau mawr o ran gwaith tîm, arweinyddiaeth, amrywiaeth a hyfforddiant. Cafwyd cynnydd o 24% yng nghyfran y staff a gredai fod aelodau eu huned mewn ysbryd da, a chafwyd cynnydd o 25% yng nghanran y rhai a fyddai'n argymell y Comisiwn fel lle i weithio. Teimlai hanner y staff fod y Comisiwn yn well lle i weithio nag ydoedd adeg yr arolwg blaenorol ond dwy flynedd yn ôl. Roedd rhai meysydd yn destun pryder o hyd ond roedd yr arolwg yn dangos yn glir fod y rhaglen i newid diwylliant yn symud yn ei blaen yn gyflym i'r cyfeiriad cywir.

**Adolygiad o Weinyddiaeth Grantiau a Thrwyddedau**

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid, rydym wedi comisiynu adolygiad o'r ffordd rydym yn gweinyddu grantiau a thrwyddedau. Bellach mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu system TG newydd (GLADE) a fydd yn caniatáu i ddata o fapiau a data testun gael eu cyfnewid ag ymgeiswyr.

Cafodd cymhlethdod y gwaith a'r materion busnes ehangach eu cydnabod ac mae rhaglen o brosiectau wedi'i sefydlu er mwyn darparu'r system TG a'r cynlluniau grant newydd.

Mae disgwyl i'r rhaglen ddod â manteision ariannol ac anariannol i ymgeiswyr a staff y Comisiwn Coedwigaeth. Caiff y manteision hyn eu monitro trwy gydol y rhaglen er mwyn gofalu bod y ddarpariaeth yn dryloyw.

Hwn yw'r tro cyntaf i system darparu grantiau gael ei datblygu ar gyfer 3 chynllun gwlad benodol, ac felly mae pob gwlad yn cael ei chynrychioli yn nhîm prosiect GLADE er mwyn gofalu ei fod yn darparu anghenion busnes y wlad. Yn ychwanegol, mae Cyngor Datblygu'r Diwydiant Coedwigaeth yn cynrychioli'r diwydiant. Sefydlwyd prosiectau ar wahân ar gyfer pob gwlad er mwyn cyflawni'r cynlluniau grant ac ad-drefnu busnesau.

Bydd prosiectau'r gwledydd yn cynnwys hyfforddi a datblygu i ddygymod â'r newidiadau mewn technoleg ac arferion gwaith. Penodwyd Rheolwyr Newidiadau Busnes i weithio trwy gydol y rhaglen gyda rheolwyr, asiantau ac ymgeiswyr lleol er mwyn cyfathrebu a gweithredu newidiadau yn eu gweithle.

Pan fo angen, bydd arbenigedd, gwybodaeth ac arweiniad allanol yn cael eu prynu fel y gallwn gefnogi'r timau mewnol a fydd yn gyfrifol am gefnogaeth hirdymor i'r TG newydd a'r system fusnes ddiwygiedig.

**Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd**

Penodwyd Roger Nock, Rheolwr Cynaeafu'r Comisiwn Coedwigaeth yn Ne Cymru yn MBE. Mae Mr Nock yn aelod gweithgar o'r gymuned leol. Mae'n Drysorydd Cyngor Cymuned Llanfihangel Rhos Y Corn ers tair blynedd ac yn gadeirydd ers 10 mlynedd, gan gyfrannu llawer o'i waith a'i egni yn wirfoddol er budd y gymuned. Ymhlith ei ymdrechion mwyaf nodedig mae ei waith gyda thirfeddianwyr er mwyn ailsefydlu'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a rhedeg cyrsiau cymorth cyntaf. Ers tair blynedd mae Roger wedi gwasanaethu fel un o lywodraethwyr ei ysgol gynradd leol ym Mrechfa ac mae wedi cefnogi llawer o ddigwyddiadau i godi arian at achosion da. Mae ei yrfa gyda'r Comisiwn Coedwigaeth wedi bod yn nodedig ac un o'i gyflawniadau mwyaf pleserus oedd arwain y gwaith o godi caban pren y Comisiwn Coedwigaeth ar faes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn 1978.

# Uchafbwyntiau Ariannol

## Crynodeb o'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Comisiwn Coedwigaeth | | |
| Cyd-ariannu grantiau coetir gan yr UE | 649 | 765 |
| Incwm amryfal | 1,059 | 63 |
| Menter Coedwigaeth | | |
| Gwerthiannau Pren | 15,882 | 15,831 |
| Incwm coedwig arall | 2,975 | 2,680 |
| Incwm hamdden | 1,735 | 1,134 |
| | 22,300 | 20,473 |
| **Gwariant** | | |
| Y Comisiwn Coedwigaeth | | |
| Grantiau ac ariannu trwy bartneriaeth | 4,944 | 2,573 |
| Polisi, rheoleiddio a gweinyddu | 4,110 | 2,917 |
| Menter Coedwigaeth | | |
| Cynllunio, gwarchod a chynnal ased y goedwig | 7,653 | 7,611 |
| Cymdeithasol ac amgylcheddol | 7,541 | 4,604 |
| Cynaeafu pren a ffyrdd | 12,616 | 12,011 |
| Rheoli'r asedau di-goedwig | 4,924 | 5,326 |
| | 41,788 | 35,042 |
| **Gwariant net ar gyfer y flwyddyn** | **(19,488)** | **(14,569)** |


## Crynodeb o'r Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Gwariant net ar gyfer y flwyddyn** | **(19,488)** | **(14,569)** |
| Dibrisiad ac eitemau anariannol eraill | 725 | 608 |
| Symudiad mewn cyfalaf gweithred | 59 | 536 |
| Symudiad mewn darpariaeth ac ymrwymiadau | 356 | (84) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | **(18,348)** | **(13,509)** |
| Plannu newydd | 0 | (5) |
| Prynu asedau sefydlog | (662) | (1,243) |
| Derbyniadau net wrth waredu asedau sefydlog | 357 | 503 |
| **Cyllid gan Gynulliad Cymru** | **(18,653)** | **(14,254)** |

## Crynodeb o'r Fantolen ar 31 Mawrth 2003


| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Asedau sefydlog | 142,093 | 157,123 |
| Dyledwyr: symiau sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn | 67 | 49 |
| Asedau cyfredol | 7,040 | 6,783 |
| Credydwyr: symiau'n daladwy o fewn blwyddyn | (3,503) | (3,297) |
| Asedau cyfredol net | 3,537 | 3,486 |
| Credydwyr: symiau'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn | (361) | - |
| Darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau | (556) | (143) |
| **Cyfanswm asedau llai ymrwymiadau** | **144,780** | **160,515** |
| **Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | **144,780** | **160,515** |

## Incwm 2002 - 03




| | |
|---|---|
| Cyd-ariannu grantiau coetir gan yr UE | 3% |
| Incwm amryfal | 5% |
| Gwerthiannau Pren | 71% |
| Incwm coedwig arall | 13% |
| Incwm hamdden | 8% |

## Gwariant 2002 - 03




| | |
|---|---|
| Grantiau ac ariannu trwy bartneriaeth | 12% |
| Polisi, rheoleiddio a gweinyddu | 10% |
| Cynllunio, gwarchod a chynnal ased y goedwig | 18% |
| Cymdeithasol ac amgylcheddol | 18% |
| Cynaeafu pren a ffyrdd | 30% |
| Rheoli'r asedau di-goedwig | 12% |

# Cyfrifon Adnoddau

## I'r flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2003



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | 26 |
| Datganiad am Gyfrifoldebau'r Comisiynwyr Coedwigaeth a'r Swyddog Cyfrifo | 35 |
| Datganiad am Reolaeth Fewnol | 36 |
| Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol i Gymru | 38 |
| Yr Atodlenni Cyfrifon: | |
| Atodlen 1 – Crynodeb o Alldro Adnoddau | 40 |
| Atodlen 2 – Datganiad Cost Gweithredu | 41 |
| Atodlen 3 – Mantolen | 42 |
| Atodlen 4 – Datganiad Llif Arian | 43 |
| Atodlen 5 – Adnoddau yn ôl Nodau ac Amcanion Adrannol | 44 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 45 |
| Y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddir gan y Trysorlys | 60 |

# Rhagair

## Terfynau

### 1. Sail y Cyfrifon

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM o dan Baragraff 5 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

### 2. Terfyn Cyfrifon Adrannol

Mae Cyfrifon Adnoddau'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn cynnwys yr endid a ganlyn oddi mewn i'r terfyn adrannol:

- yr adran graidd (y Comisiwn Coedwigaeth) yng Nghymru

Mae Menter Coedwigaeth (MC), asiantaeth weithredol i'r Comisiwn Coedwigaeth oddi ar 1 Ebrill 1996, yn gorfforaeth gyhoeddus ar gyfer cyfrifon cenedlaethol. Felly, mae y tu allan i'r terfyn adrannol ar gyfer cyfrifon adnoddau ac mae'n cynhyrchu ei chyfrifon ei hun ar gyfer pob gwlad gan adlewyrchu cyllido net a gwerth net MC yng Nghymru yn y cyfrifon hyn.

Cynhyrchir cyfrifon adnoddau cyfatebol ar gyfer gweithgareddau'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr a Phrydain (meysydd megis iechyd planhigion, polisi rhyngwladol ac ymchwil sydd naill ai'n neilltuedig neu, drwy gytundeb, yn digwydd ledled Prydain), a'r Alban.

Mae Ymchwil Goedwigaeth, asiantaeth weithredol i'r Comisiwn Coedwigaeth oddi ar 1 Ebrill 1997, oddi mewn i'r terfyn adrannol a gyllidir gan Senedd y DG ac mae'n rhan o gyfrifon y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr/Prydain.

### 3. Statws

Y Comisiwn Coedwigaeth yw adran y llywodraeth sy'n gyfrifol am gynghori Gweinidogion am, a gweithredu, polisi coedwigaeth ym mhob un o dair gwlad Prydain. Yn bennaf, y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer coedwigaeth yw'r Deddfau Coedwigaeth 1967, 1979 a 1981, Deddf Iechyd Planhigion 1967, Deddf Cefn Gwlad (Yr Alban) 1967 a Deddf Cefn Gwlad 1968.

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf Yr Alban 1998, a'r offerynnau statudol dilynol gwnaed y Comisiwn Coedwigaeth yn awdurdod cyhoeddus trawsffiniol, trosglwyddwyd cyfrifoldebau'r Gweinidogion am goedwigaeth yn yr Alban a Chymru i Weinidogion yr Alban a'r Cynulliad Cenedlaethol, trosglwyddwyd perchnogaeth tir ac eiddo, a gwnaed amryw o newidiadau eraill er mwyn datganoli coedwigaeth i'r Alban a Chymru.

Ar 1 Ebrill 2003, newidiodd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru ei strwythur er mwyn helpu i greu cysylltiadau agosach â Chynulliad Cymru. Mae'r cysylltiadau cryfach yn ganlyniad uniongyrchol i'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth diweddar ar gyfer Prydain gyfan a gytunwyd gan y Gweinidog Coedwigaeth yng Nghymru a'r Gweinidogion Coedwigaeth yn Lloegr a'r Alban. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n crynhoi swyddogaethau gwahanol Menter Coedwigaeth wrth reoli coedwigoedd cyhoeddus Cymru a'r Swyddfa Genedlaethol a'r Gwarchodaethau wrth gefnogi coedwigaeth trwy grantiau, rheolaeth a chyngor ac yn gwasanaethu fel adran goedwigaeth y Cynulliad.

Rhoddodd asiantaeth rheoli coedwigoedd y Comisiwn ar gyfer Prydain, Menter Coedwigaeth, y gorau i weithredu ar 31 Mawrth 2003 a throsglwyddwyd ei chyfrifoldebau i gyrff ar wahân ym mhob gwlad ar 1 Ebrill 2003. Felly, bydd gan Gymru ei hasiantaeth ei hun.

Nid oes gan y Comisiwn Coedwigaeth unrhyw gyfrifoldeb dros bolisi ar gyfer unrhyw gorff cyhoeddus anadrannol.

## 4. Cyfrifoldebau

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gyfrifol am:

- rhoi cefnogaeth a chyngor i Weinidogion;
- datblygu polisi;
- cysylltiadau Ewropeaidd a rhyngwladol;
- gweithredu polisi coedwigaeth y Llywodraeth, gan gynnwys rheoli cwympo coed a rhoi cyngor i berchnogion coetiroedd preifat;
- gweinyddu talu grantiau am gynlluniau wedi'u cymeradwyo ar gyfer plannu, ailstocio a rheoli;
- cysylltu â chyrff cyhoeddus a sefydliadau anllywodraethol sy'n ymwneud â choedwigaeth a chefn gwlad;
  comisiynu ymchwil goedwigaeth; ac
- iechyd planhigion.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn pennu safonau ar gyfer y diwydiant coedwigaeth yn gyffredinol, ac mae'n monitro perfformiad Menter Coedwigaeth yn yr un meysydd gweithredu â'r rhai sy'n berthynol i'r sector preifat.

## 5. Nodau ac Amcanion

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn adran goedwigaeth i dair gweinyddiaeth – Llywodraeth y DG, Gweithrediaeth yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Ei nod yw rheolaeth gynaladwy ar gyfer coedydd a choedwigoedd a chynyddu'r gorchudd coed yn raddol er mwyn cynyddu'r llu o fanteision amrywiol sy'n deillio o goedwigoedd er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Trwy'r pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn y gwahanol Ddeddfau, amcan y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer ei weithgareddau ym Mhrydain yw:

- Ar ran pob un o'r tair gweinyddiaeth, arwain y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo rheolaeth goedwigaeth gynaladwy a darparu cefnogaeth yn genedlaethol

Yng Nghymru, mae'n gweithredu'r amcanion strategol a blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer coed a choetiroedd yng Nghymru, 'Coetiroedd i Gymru', sef:

- cefnogi datblygu cymunedol ('Coetiroedd i Bobl');

- creu mwy o goetiroedd a gwell coetiroedd yng Nghymru, hyrwyddo rheoli coetiroedd o ansawdd uchel ('Pwyslais Newydd ar Reoli Coetiroedd');

- datblygu Cymru fel lleoliad o safon fyd-eang ar gyfer diwydiannau coedwigaeth (Cymru fel Lleoliad ar gyfer Diwydiannau Coedwigaeth o Safon Fyd-eang);

- cynhyrchu amgylchedd cynaladwy o'r ansawdd gorau (Amgylchedd Amrywiol ac Iach); a

- hyrwyddo twristiaeth, hamdden ac iechyd (Twristiaeth, Hamdden ac Iechyd).

## 6. Adroddiad Adrannol

Cyhoeddwyd cynlluniau gwario'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru fel rhan o gyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd Cynllun Corfforaethol y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru ym mis Mehefin 2002.

## 7. Digwyddiadau Ôl-fantolen

Ni cheir unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen ac eithrio canlyniad yr Adolygiad Datganoli Coedwigaeth a nodir ym mharagraff 3.

## 8. Pensiynau

Mae gweithwyr a chyn-weithwyr y Comisiwn Coedwigaeth yn perthyn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Rhoddir statws ariannol y cynllun mewn datganiad cynllun PCSPS ar wahân. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan fydd yn elwa ar wasanaethau gweithwyr trwy dalu i'r PCSPS symiau wedi'u cyfrifo ar sail gronnol. Mae'r cyfrifoldeb am dalu buddion yn y dyfodol yn cwympo ar y PCSPS.

# Adolygiad Gweithredu ac Ariannol

## 9. Y busnes, ei amcanion a strategaeth

Fel adran y Llywodraeth ar gyfer coedwigaeth ledled Prydain, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn darparu cyngor a chefnogaeth i Lywodraeth y DG ac i'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban a Chymru. Mae'n datblygu polisi, yn pennu'r safonau ar gyfer rheolaeth goedwigaeth gynaladwy ac yn hybu arferion coedwigaeth da. Mae'n cynnal ymchwil goedwigaeth, yn darparu gwybodaeth ac yn cynnig grantiau ar gyfer rheoli a helaethu coetiroedd a choedwigoedd. Mae ganddo ddyletswyddau statudol i reoleiddio coedwigaeth trwy reoli cwympo coed ac i warchod coedwigoedd rhag plâu a chlefydau. Mae hefyd yn rheoli'r ystad goedwig gyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan ddarparu hamdden i filiynau lawer o ymwelwyr, a chynhyrchu dros 5 miliwn metr ciwbig o bren bob blwyddyn a gwneud cyfraniad pwysig i gadwraeth ein treftadaeth naturiol.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweithredu ledled Prydain fel corff cyhoeddus trawsffiniol. Mae hyn yn caniatáu i Loegr, yr Alban a Chymru elwa ar yr arbedion maint y gall corff Prydain-eang eu cynnig. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau megis cyllid, personél a sgiliau TG; arbenigedd mewn materion megis newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, gwarchod coedwigoedd a datblygu busnes; a mynediad i adnoddau wedi'u rhannu megis gwasanaethau economaidd, ystadegol a hyfforddiant coedwigaeth.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn atebol ar wahân i Weinidogion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban am ddatblygu a gweithredu polisi coedwigaeth. Cafodd rhaglenni'r Comisiynwyr i gyflawni strategaeth goedwigaeth pob gwlad eu nodi mewn Cynlluniau Corfforaethol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu cyfarwyddo a'u cyllido gan y tair gweinyddiaeth y mae'r Comisiwn yn uniongyrchol atebol iddynt. Yn ogystal, mae nifer o gyfrifoldebau'r Comisiwn yn cael eu cyllido'n uniongyrchol gan San Steffan ac yn gweithredu ar sail Brydeinig. Mae'r rhain yn cynnwys:
:

- Polisi Coedwigaeth Ewropeaidd a Rhyngwladol – mae staff polisi rhyngwladol y Comisiwn Coedwigaeth (wrth weithio gydag adrannau eraill) yn pennu polisi'r DG yn ystod trafodaethau rhyngwladol, yn datblygu rhaglen goedwigaeth genedlaethol y DG ac yn cynghori ar weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol ac Ewropeaidd.

- Iechyd Planhigion a Defnyddiau Atgynhyrchiol y Goedwig – Mae Uned Iechyd Planhigion y Comisiwn Coedwigaeth yn gweithredu ledled Prydain gyda'r dasg hollbwysig o atal plâu a chlefydau niweidiol o wledydd tramor. Mae hefyd yn rheoli marchnata hadau, conau, toriadau a phlanhigion coedwig trwy gymeradwyo defnydd sylfaenol (e.e. cellïoedd, perllannau hadau), ardystio defnydd atgynhyrchiol ac archwilio'r fasnach feithrinfeydd.

- Ymchwil Goedwigaeth – Mae asiantaeth weithredol y Comisiwn Coedwigaeth yn ganolfan o ragoriaeth ar gyfer arbenigedd gwyddonol mewn coedwigaeth. Caiff tua £10 miliwn y flwyddyn ei wario trwy'r Asiantaeth a darparwyr allanol i edrych ar faterion megis rheolaeth goedwigaeth gynaladwy, newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, cofrestru, cyflwr coedwigoedd a bygythiadau i iechyd coed, ffyrdd o fesur manteision cymdeithasol ac amgylcheddol coetiroedd a gwella potensial economaidd pren cartref.

- Pennu a Monitro Safonau Rheolaeth Goedwigaeth Gynaladwy – mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gyfrifol am ddatblygu Safon Goedwigaeth y DG gan nodi sut y bydd egwyddorion rheolaeth goedwigaeth gynaladwy yn cael eu cyflawni'n ymarferol yn ôl meini prawf a gytunwyd yn rhyngwladol. Mae'r gwaith yn cynnwys monitro cyflwr sector coedwigaeth y DG yn ôl Dangosyddion Coedwigaeth Gynaladwy a gyhoeddwyd yn 2002 a chefnogi Safon Sicrwydd Coedwigaeth y DG sy'n darparu ar gyfer ardystiad annibynnol i reolaeth goedwigaeth yn y DG.

Bydd Gweinidogion Coedwigaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu materion o ddiddordeb cyffredinol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gyfrifoldeb cyffredinol dros fuddiannau coedwigaeth yn yr Undeb Ewropeaidd a thros drafodaethau rhyngwladol ynghylch coedwigaeth, gan gynnwys llunio polisi ar gyfer y DG. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â Gweinidogion yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon ynghylch materion DG-eang.

Mae asiantaethau gweithredol y Comisiwn Coedwigaeth, Menter Coedwigaeth (sy'n rheoli ystad goedwig gyhoeddus Prydain o dros 1 miliwn hectar) ac Ymchwil Goedwigaeth yn gweithredu ar sail Brydeinig. Mae rhaglen yr asiantaethau'n adlewyrchu blaenoriaethau a fynegir yn strategaethau'r gwledydd.

Mae Swyddfa Genedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn Aberystwyth ac mae'n gyfrifol am arwain y gwaith o weithredu "Coetiroedd i Gymru", sef strategaeth y Cynulliad ar gyfer coed a choetiroedd yng Nghymru. Mae'r swyddfeydd ardal yn Rhuthun a'r Fenni yn cefnogi staff maes ledled Cymru sydd â chyfrifoldebau yn ymwneud â rheoleiddio a chymorth grant.

Mae Menter Coedwigaeth yn gyfrifol am reoli ystad y Comisiwn ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gan Fenter Coedwigaeth swyddfa yn Aberystwyth ac mewn 4 Rhanbarth Goedwig ledled Cymru.

## 10. Adolygiad gweithredu

Amcan gweithgareddau'r adran ledled Prydain yw arwain y gwaith o ddatblygu a hyrwyddo rheolaeth goedwigaeth gynaladwy a chefnogi cyflawni hyn yn genedlaethol. Bu'r adran yn arwain cyfraniad Llywodraeth y DG ynghylch coedwigaeth i Uwch Gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaladwy a gynhaliwyd yn Johannesburg, De Affrica o 26 Awst tan 4 Medi 2002, gan weithio gyda grwpiau busnes ac amgylcheddol i ddatblygu strategaeth ar gyfer cynaladwyaeth i'r sector coedwigaeth. Cytunodd y sectorau coedwigaeth a chynhyrchion coedwigaeth, grwpiau amgylcheddol, y gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DG i weithio mewn partneriaeth i hyrwyddo datblygu cynaladwy yn y sector coedwigaeth yn y DG a thramor. Ymhlith y meysydd y cytunodd partneriaeth y DG ganolbwyntio arnynt mae ardystio coedwigoedd, cwympo a symud coed yn anghyfreithlon, caffael pren ac adfer a gwarchod coedwigoedd. Mae cyflawniadau rhyngwladol a chenedlaethol eraill wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn Coedwigaeth Lloegr a Phrydain.

Nod yr adran yng Nghymru yw gweithredu'r amcanion strategol a blaenoriaethau allweddol a nodir yn "Coetiroedd i Gymru" a chyfrannu at feysydd blaenoriaethol y Cynulliad, sef cynhwysiant cymdeithasol, dysgu, hybu iechyd, cefnogi busnesau (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig) a gwella'r amgylchedd.

## 11. Perfformiad yn y cyfnod

Mae Cynllun Corfforaethol y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer Cymru 2002-03 yn nodi'r rhaglenni a'r gweithrediadau ar gyfer 2002-03. Maent yn cynnwys y meysydd a ganlyn:

Gweithgareddau Prydain

- Cyhoeddi'r Rhaglen Goedwigaeth Genedlaethol ar gyfer y DG yn seiliedig ar y strategaethau coedwigaeth ar gyfer pob gwlad
- Cyhoeddi dangosyddion y DG ar gyfer monitro rheolaeth goedwigaeth gynaladwy.

Strategaeth Coetiroedd Cymru

- Coetiroedd i Bobl
- Pwyslais Newydd ar Reoli Coetiroedd
- Cymru fel Lleoliad ar gyfer Diwydiannau Coedwigaeth o Safon Fyd-eang
- Amgylchedd Amrywiol ac Iach
- Twristiaeth, Hamdden ac Iechyd
- Gwerth yr Arian

Cyflawnwyd targedau Prydain o fewn cyfnod Adolygiad Gwario 2000. Cyflawnwyd y mwyafrif o'r targedau sy'n berthynol i Goetiroedd i Gymru.

## 12. Deinameg y busnes

Yn ystod 2002 bu grŵp rhyngadrannol yn ymgymryd â'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth, a fu'n ystyried trefniadau gweinyddol ar gyfer coedwigaeth ym Mhrydain. Penderfynodd Gweinidogion Coedwigaeth y dylid diweddaru'r trefniadau presennol, heb ddeddfwriaeth, er mwyn integreiddio coedwigaeth yn well i waith polisi gwledig arall ym mhob gwlad tra'n cadw ymagwedd gydweithrediadol i faterion cyffredin. Mae'r newidiadau allweddol a gytunwyd gan Weinidogion ac a gafodd eu gweithredu erbyn 1 Ebrill 2003 yn cynnwys:

- sefydlu Pwyllgor Gweinidogol newydd, yn cynnwys Gweinidogion o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, i drafod materion rhyngwladol, unrhyw faterion trawsbynciol lle byddai cydweithredu'n fanteisiol ac i fonitro effeithlonrwydd y trefniadau newydd;
- ehangu'r grŵp coedwigaeth rhyngwladol i gynnwys swyddogion o Weithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- helaethu swyddogaeth y gweinyddiaethau datganoledig o ran pennu blaenoriaethau ymchwil trwy gyd-gymeradwyaeth y Gweinidogion Coedwigaeth;
- mwy o integreiddio datblygu a chyflawni polisi rhwng swyddfeydd Cenedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth ac adrannau materion gwledig;
- penodi Comisiynwyr Coedwigaeth gweithredol i arwain holl waith y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr, Cymru a'r Alban;
- datganoli'r asiantaeth Menter Coedwigaeth yn dri chorff gwlad ar wahân.

## 13. Buddsoddi ar gyfer y dyfodol

Parhaodd y gwaith eleni o ddatblygu system grantiau gan ddefnyddio'r we, gyda'r bwriad o gael system hollol integredig yn 2005. Mae'r system yn rhan o agenda "Moderneiddio Llywodraeth" yr adran a bydd gwell effeithlonrwydd yn golygu y bydd yn costio llai i ddarparu grantiau yn y dyfodol.

## 14. Adolygiad ariannol

Daw cyllid ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, yr UE ac incwm o'r ystad goedwig gyhoeddus a reolir gan Fenter Coedwigaeth. Yn debyg i weddill y sector cyhoeddus, gwneir darpariaeth ar gyfer costau adnoddau nad ydynt yn ymwneud â symud arian parod – yn bennaf cost cyfalaf wedi'i fuddsoddi yn yr ystad goedwig gyhoeddus a thaliadau dibrisiad ar gyfer defnyddio asedau.

Gwerthiannau pren yw prif ffynhonnell incwm Menter Coedwigaeth ac mae cysylltiad agos rhwng ei pherfformiad ariannol â chryfder y farchnad ar gyfer pren crwn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cafwyd dirywiad enfawr ym mhris pren crwn. Mae'r gwir werth y prisiau mewn punnoedd yn para'n is nag erioed . Mae ffactorau megis cryfder sterling a lefelau uchel cynhyrchu pren wedi'i lifio yn Sweden a Gwledydd y Baltig wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn prisiau. Nid oes unrhyw arwydd o adferiad buan ac mae ein cynlluniau'n rhagweld y bydd prisiau'n dal i fod yn isel.

# Rheolaeth

## 15. Gweinidogion

The Ministers who had responsibility for the Forestry Commission in Wales during the year were:

| | |
|---|---|
| Michael German AC | Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor o 17 Mehefin 2002 |
| Carwyn Jones AC | Gweinidog Materion Gwledig tan 16 Mehefin 2002 |

## 16. Pennaeth Parhaol yr Adran a'r Comisiynwyr Coedwigaeth

Mae Bwrdd y Comisiynwyr yn cyfarwyddo gwaith y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'n cynnwys Pennaeth Parhaol yr Adran, y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Bwrdd y Comisiynwyr a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anh. Arglwydd Clark o Windermere | Cadeirydd Anweithredol |
| David Bills CBE | Cyfarwyddwr Cyffredinol a Dirprwy Gadeirydd |
| Dr Bob McIntosh | Prif Weithredwr Menter Coedwigaeth |
| Duncan Macniven TD | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol |

Comisiynwyr Anweithredol yn ystod y flwyddyn:

Anthony Bosanquet
Tom Bruce Jones CBE
Tony Cooper
Dr Victoria Edwards
John James OBE
Andrew Raven
Gareth Wardell

## 17. Penodi Pennaeth Parhaol yr Adran a Chomisiynwyr Coedwigaeth

Penodir Comisiynwyr Anweithredol am 3-5 mlynedd gan Ei Mawrhydi y Frenhines wedi iddi dderbyn cyngor gan Weinidogion, gan ddilyn trefn y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, a chan gynnwys hysbysebu agored. Penodir y Comisiynwyr Gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan Ei Mawrhydi y Frenhines wedi iddi dderbyn cyngor gan Weinidogion, am gyfnod daliadaeth y swyddi. Cânt eu recriwtio trwy drefn arferol y Gwasanaeth Sifil.

## 18. Tâl

Mae tâl Aelodau'r Cynulliad yn cael ei bennu gan y Cynulliad yn unol â darpariaethau adran 16 Deddf Llywodraeth Cymru.

Mae tâl y Comisiynwyr Anweithredol yn cael ei bennu yn unol â chanllawiau a ragnodir gan y Bwrdd Adolygu uwch-Gyflogau.

Mae Pwyllgor uwch-Gyflogau y Comisiwn Coedwigaeth yn cynnwys y Cadeirydd, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Weithredwr Menter Coedwigaeth, Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol ac un Comisiynydd Anweithredol arall. Bydd y Cadeirydd a'r aelod anweithredol yn pennu cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Bydd y Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Comisiynydd anweithredol yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â Phrif Weithredwr Menter Coedwigaeth a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd y pwyllgor cyfan yn gwneud penderfyniadau ynghylch yr uwch-swyddi staff eraill yn unol â chanllawiau a ragnodir gan y Bwrdd Adolygu uwch-Gyflogau.

Nodir manylion pellach am dâl yn Nodyn 2 i'r cyfrifon hyn.

# Budd cyhoeddus ac arall

## 19. Polisïau Cyflogaeth

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth a'i asiantaethau wedi ymrwymo i egwyddor cyfle cyfartal o ran cyflogi a dyrchafu pawb sy'n gymwys ar sail eu gallu a chymwysterau a bod yn gymwys i weithio. Mae gan y Comisiwn systemau i ofalu bod yr holl benodiadau parhaol yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored ac yn unol â chanllawiau Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Mae gwybodaeth bellach am gyflogi pobl ag anableddau, darparu gwybodaeth i weithwyr ac ymgynghori â hwy, a hybu cyfle cyfartal ar gael, ar gais, gan uned Gwasanaethau Personél y Comisiwn Coedwigaeth.

## 20. Polisi Talu Cyflenwyr

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cydymffurfio â Cod Arfer Talu'n Well y Llywodraeth. Oni nodir yn wahanol yn y contract, rydym yn anelu at dalu o fewn 30 niwrnod i dderbyn nwyddau a gwasanaethau neu gyflwyniad anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Mae dadansoddiad sampl ar gyfer 2002-03 yn dangos fod 96.8% o'r anfonebau wedi'u talu mewn pryd.

Ni chafodd unrhyw log ei dalu o dan Ddeddf Talu Dyledion (Llog) Masnachol yn Hwyr 1998.

## 21. Archwilwyr

Mae cyfrifon y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn cael eu harchwilio gan yr Archwiliwr Cyffredinol i Gymru.

D J Bills CBE
Swyddog Cyfrifo
17 Tachwedd 2003

# Datganiad am Gyfrifoldebau'r Comisiynwyr Coedwigaeth a'r Swyddog Cyfrifo

1. Yn unol â pharagraff 5 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'n ofynnol i'r Comisiwn Coedwigaeth baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mewn cydymffurfiaeth â chyfarwyddyd gan y Trysorlys, gan nodi'r adnoddau a gaffaelwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn.

2. Mae'r cyfrifon adnoddau yn cael eu paratoi ar sail gronnol a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r adran, yr alldro adnoddau net, yr adnoddau ar gyfer amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifiannau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi Pennaeth Parhaol yr Adran yn Brif Swyddog Cyfrifo'r adran gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr adran a'u hanfon at yr Archwiliwr Cyffredinol i Gymru .

4. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, ac yn benodol i:

- ufuddhau'r anghenion cyfrifo a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- barnu ac amcangyfrif yn rhesymol;
- datgan a ufuddhawyd safonau cyfrifo perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

5. Yn ogystal, mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Coedwigaeth, fel Prif Swyddog Cyfrifo, wedi penodi Prif Weithredwr Menter Coedwigaeth yn Swyddog Cyfrifo i'r Asiantaeth. Nid yw'r penodiad yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol Pennaeth yr Adran fel Swyddog Cyfrifo ar gyfer cyfrifon yr adran.

6. Mae cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel Prif Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros addasrwydd a chysondeb y cyllid cyhoeddus sy'n gyfrifoldeb i Swyddog Cyfrifo, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r adran, yn cael eu nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a gyheddir gan y Trysorlys ac sy'n ymddangos yn Government Accounting. Yn unol â thelerau Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, cafodd y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifo'r adran a Phrif Weithredwr Menter Coedwigaeth, ynghyd â'u cyfrifoldebau, ei nodi ar bapur.

# Datganiad am Reolaeth Fewnol

1. Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion adrannol, a bennwyd gan Weinidogion, ac ar yr un pryd yn diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau adrannol sy'n gyfrifoldeb personol i mi, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi.

2. Nod y system reolaeth fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu'r risg o fethiant er mwyn cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, ni all ddarparu ond sicrwydd rhesymol yn hytrach na llwyr o fod yn effeithlon.

3. Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n anelu at adnabod y prif risgiau i gyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y Comisiwn Coedwigaeth, cloriannu natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r broses hon wedi bod yn gweithredu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 a than ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

4. Rydym wedi cytuno ar bolisi rheoli risg ac wedi'i gyhoeddi. Gan weithio gyda rheolwyr cyfrifol, rydym wedi datblygu cofrestr risgiau ar gyfer y prif risgiau i gyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y Comisiwn. Mae hon yn nodi'r risgiau, digonolrwydd y rheoli ac unrhyw weithredu cywirol sydd eu hangen. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli'r Comisiwn Coedwigaeth ac rydym wedi cynnal asesiad llawn o risg a rheolaeth cyn adrodd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003.

5. Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb hefyd dros adolygu effeithlonrwydd y system reolaeth fewnol. Sefydlodd y Comisiwn Coedwigaeth y prosesau a ganlyn a fu'n gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol:

- Cyfarfu Bwrdd y Comisiynwyr, y Bwrdd Rheolaeth a'r Bwrdd Polisi yn fisol i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y Comisiwn. Derbyniodd y Byrddau adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ynghylch prosiectau allweddol. Sicrhaodd y polisi rheoli risg fod y Bwrdd Rheoli yn cynnwys rheoli risg ymhlith ei gyfrifoldebau a chafodd y dasg ffurfiol o'i adolygu.

- Roedd gan y Comisiwn Coedwigaeth Bwyllgor Archwilio rhychwantol dan gadeiryddiaeth Comisiynwr Coedwigaeth. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys fy nghynghori am effeithlonrwydd rheoli risg ledled y Comisiwn a'i Asiantaethau. Ar hyn o bryd mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol yn cael ei adrodd yn flynyddol i Fwrdd llawn y Comisiynwyr; yn y dyfodol caiff hyn ei helaethu i gynnwys holl fusnes Pwyllgor Archwilio rhychwantol y Comisiwn Coedwigaeth.

- Mae gan y Comisiwn Coedwigaeth Uned Archwilio Fewnol, sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd system y Comisiwn o reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion am welliant.

- Dirprwyir rheolaeth gweithgareddau penodol i asiantaethau'r Comisiwn Coedwigaeth, sef Menter Coedwigaeth ac Ymchwil Goedwigaeth. Parthed y rheiny, rwy'n dibynnu ar y Datganiadau am Reolaeth Fewnol gan y Prif Weithredwyr ac ar eu hadroddiadau blynyddol ar reolaeth fewnol sy'n cael eu rhoi i mi.

- Cafodd y pwnc o reoli risg ei gyflwyno i gyfres o seminarau ymwybyddiaeth ariannol a fynychwyd gan staff o bob gradd â chyfrifoldebau ariannol. Cwblhawyd y gyfres erbyn Rhagfyr 2002 ac erbyn hyn fe ddaeth y seminar yn rhan o'n prosbectws hyfforddiant mewnol sydd ar gael i'r holl staff.

6. Mae f'adolygiad o effeithlonrwydd y system reolaeth fewnol yn cael ei fwydo gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn y Comisiwn sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith reolaeth fewnol a'r sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyrau rheolaeth ac adroddiadau eraill.

7. O 1 Ebrill 2003 mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi penodi Cyfarwyddwyr newydd ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Bydd gan y Cyfarwyddwyr gyfrifoldeb am holl weithgareddau'r Comisiwn Coedwigaeth yn y wlad berthnasol, yn benodol llunio polisi, cymorth grantiau, rheoleiddio a rheoli'r ystad goedwig. Mae'r datblygiad hwn yn dilyn canlyniad adolygiad rhyngadrannol cynhwysfawr o'r trefniadau gweinyddol ar gyfer datblygu polisïau coedwigaeth gynaladwy ar ôl datganoli. Cafodd y system reolaeth fewnol ei hailgynllunio er mwyn adlewyrchu'r newid yn y strwythur a bydd yn golygu:

- Bydd Bwrdd y Comisiynwyr a Bwrdd Gweithredol y Comisiwn Coedwigaeth yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y Comisiwn. Bydd y Pwyllgorau Cenedlaethol a Byrddau Gweithredol y Gwledydd yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried y cynlluniau a'r cyfeiriad strategol ar gyfer pob gwlad. Bydd y Byrddau'n derbyn adroddiadau rheolaidd gan eu rheolwyr ynghylch prosiectau allweddol.

- Bydd y Pwyllgor Archwilio rhychwantol yn cynnwys un Comisiynwr anweithredol o bob gwlad. Bydd ei gyfrifoldebau'n cynnwys fy nghynghori i ynghylch effeithlonrwydd rheoli risg ledled y Comisiwn a'i asiantaethau. Bydd pob gwlad (ac Ymchwil Goedwigaeth) yn gweithredu eu pwyllgorau rheolaeth fewnol eu hunain i gynghori'r Swyddog Cyfrifo/Cyfrifol ynghylch effeithlonrwydd rheoli risg.

- Bydd aelodau Byrddau Gweithredol y Gwledydd yn cael ei briffio ynghylch llywodraethiant corfforaethol a rheoli risg.

- Bydd cofrestri risg ar wahân yn gweithredu ar gyfer pob gwlad, yr asiantaeth rheoli coedwigoedd oddi mewn i bob gwlad, Ymchwil Goedwigaeth ac adran graidd Prydain.

D J Bills CBE
Swyddog Cyfrifo
17 Tachwedd 2003

# Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol i Gymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cadarnhaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 40 i 59 yn unol â pharagraff 6 atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan ailbrisiad asedau sefydlog penodol a stociau a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 45 i 48.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwiliwr

Yn unol â'r disgrifiad ar dudalen 35, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir yn ôl y gofynion hynny ac yn gyfrifol hefyd am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol hefyd am baratoi cynnwys arall y Cyfrifon. Sefydlir fy nghyfrifoldebau, fel archwiliwr annibynnol, yn statudol dan arweiniad y Bwrdd Arferion Cyfrifo a chanllawiau moesegol y proffesiwn archwilio.

Yr wyf yn adrodd fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac yn cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir yn unol â'r gofynion ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd ar eu cyfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Yr wyf hefyd yn adrodd os, yn fy marn i, nad yw'r Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Adran wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer f'archwiliad.

Yr wyf yn darllen yr wybodaeth arall yn y Cyfrifon ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Yr wyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os wyf yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau o bwys mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Yr wyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 36 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Adran â chanllawiau'r Trysorlys 'Corporate Governance: Statement on Internal Control'. Yr wyf yn adrodd os nad yw'n diwallu'r gofynion a nodir gan y Trysorlys neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth sy'n hysbys i mi neu â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail barn yr archwiliad

Cynhaliais f'archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Gyfunol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Cyfrifo. Mae archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail profion, o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a barnau arwyddocaol a wneir gan yr Adran wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a ydyw'r polisïau cyfrifon yn briodol i amgylchiadau'r Adran, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais f'archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau a oedd, yn fy nhyb i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd camgymeriad neu dwyll neu anghysonder arall, a bod y gwariant ac incwm, ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli. Wrth lunio fy marn yr wyf hefyd wedi cloriannu digonolrwydd cyffredinol cyflwyniad yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru ar 31 Mawrth 2003 ac o'r alldro adnoddau net, cymhwysiad adnoddau i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifiannau arian ar gyfer y flwyddyn a oedd wedi dod i ben erbyn hynny, a chawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan honno; a

- cafodd y gwariant a'r incwm eu defnyddio, ym mhob ffordd berthnasol , i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn

Archwiliwr Cyffredinol i Gymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

4 Rhagfyr 2003

# Atodlen 1

## Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | | 2002-03 Amcangyfrif Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm Net | 2002-03 Alldro Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm Net | 2002-03 Cyfanswm net mewn cymhariaeth â'r Amcangyfrif arbedion/ (gormodedd) | 2001-02 Alldro Net y flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfanswm adnoddau | | 32,453 | - | 32,453 | 28,678 | - | 28,678 | 3,775 | 24,538 |
| Gofyniad arian net | | 18,653 | - | 18,653 | | | 18,505 | 148 | 14,254 |
| Cysoniad adnoddau | | | | | | | | | |
| i ofyniad arian | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm adnoddau net** | | | | **32,453** | | | **28,678** | **3,775** | **24,538** |
| Cyfalaf: | | | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog | 6 | | | - | | | 14 | (14) | 9 |
| Buddsoddiadau | | | | - | | | - | - | - |
| **Cost anweithredol A-yn-A:** | | | | - | | | - | - | - |
| **Addasu croniadau:** | | | | - | | | - | - | |
| Eitemau anariannol | 3 | | | - | | | (21) | 21 | (31) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithred heblaw am arian | 8 | | | | | | (305) | 305 | 308 |
| Newidiadau i gredydwyr yn daladwy ar ôl mwy na blwyddyn | | | | - - | | | - | - | - |
| Defnydd darpariaeth | 13 | | | - | | | (18) | 18 | 26 |
| Trosglwyddiadau anariannol rhwng gwledydd | 14 | | | - | | | (17) | 17 | (12) |
| **Addasiadau eraill:** | | | | - | | | | | |
| Addasiadau diffyg net MC i gyllido | 4 | | | (13,800) | | | (9,826) | (3,974) | (10,584) |
| **Gofyniad arian net** | | | | 18,653 | | | 18,505 | 148 | 14,254 |

**Esboniad o'r amrywiad rhwng Amcangyfrif ac Alldro (cyfanswm adnoddau net):**

(i) Roedd gan Grŵp Is-wariant y Comisiwn Coedwigaeth danwariant o £2.0 miliwn am nad oedd y gwariant grantiau sy'n dibynnu ar alw wedi adfer yn llwyr o effeithiau clwy'r traed a'r genau a hefyd fe deimlodd effaith adolygiad o'r cynlluniau grant sydd ar gael.

(ii) Roedd gan Grŵp Is-wariant Menter Coedwigaeth danwariant o £1.58 miliwn. Roedd cost cyfalaf £5.2 miliwn yn is na'r amcangyfrif am fod prisiad yr ystad goedwig yn is na'r hyn a broffwydwyd gan briswyr allanol fel rhan o Adolygiad Gwario 2002. Gwrthbwyswyd hyn gan gynnydd mewn gwariant ar brosiectau cymdeithasol ac amgylcheddol a llai o arian am bren.

**Explanation of the variance between Estimated net cash requirement and Outturn (net cash requirement)**:

(i) There was an underspend on net capital of £0.45 million to offset some of the effect of lower timber receipts.

(ii) Trade creditors were higher than anticipated at the time of the estimate because of money owed on an increased number of partnership projects.

**Addasiadau cyfnod blaenorol:**

Nid oes angen esboniad.

**Dadansoddiad o'r incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol**

| | 2002-03 Incwm | Derbyniadau | 2001-02 Incwm | Derbyniadau |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm o ffioedd nas dosbarthwyd yn A yn A- | - | - | - | - |
| Incwm o werthu asedau nas dosbarthwyd yn A yn A | - | - | - | - |

**Gwir Alldro - adnoddau**

Gwir swm yr alldro adnoddau net £28,678,132.94. Gwir swm yr arbedion ar yr Amcangyfrif £3,774,867.06.

**Gwir Alldro - arian**

Gofyniad arian net: Gofyniad alldro net £18,504,605.92 sy'n £148,394.08 yn llai na'r Amcangyfrif.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 45 to 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Atodlen 2

## Datganiad Cost Gweithredu
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | | 2002-03 | | 2001-02 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Costau Gweinyddol** | | | | | |
| Costau staff | 2 | | 1,697 | | 1,311 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | | 1,419 | | 1,098 |
| **Costau Gweinyddol Gros** | | | **3,116** | | **2,409** |
| | | | | | |
| Incwm gweithredol | 3 | | (1,059) | | (63) |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **2,057** | | **2,346** |
| | | | | | |
| **Costau Rhaglen:** | | | | | |
| Cais am Adnoddau 1 | | | | | |
| Gwariant | 4 | 27,270 | | 22,957 | |
| Llai incwm | 4 | (649) | | (765) | |
| **Costau Rhaglen Net** | | | **26,621** | | **22,192** |
| | | | | | |
| **Costau Rhedeg Net** | **5** | | **28,678** | | **24,538** |
| | | | | | |
| **Alldro Adnoddau Net** | **5** | | **28,678** | | **24,538** |

## Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | | 2002-03 | | 2001-02 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ailbrisiad gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn | 15 | | (1) | | 1 |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn yn ailbrisiad MC | 15 | | (11,907) | | (5,111) |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn** | | | **(11,908)** | | **(5,110)** |

Ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau na gweithgareddau terfynedig yn ystod y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40 i 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Atodlen 3

## Mantolen Gyfunol
## ar 31 Mawrth 2003

| | | 2002-03 | | Ail ddatganedig 2001-02 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 6 | 35 | | 37 | |
| Asedau anniriaethol | | - | | - | |
| Buddsoddiadau | 7 | 144,819 | | 160,300 | |
| | | | **144,854** | | **160,337** |
| **Dyledwyr (symiau sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn)** | 10 | | **48** | | **29** |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Stociau | 9 | 1 | | - | |
| Dyledwyr | 10 | 445 | | 468 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 11 | 219 | | 71 | |
| | | 665 | | 539 | |
| **Credydwyr (symiau'n daladwy o fewn blwyddyn)** | 12 | (707) | | (257) | |
| **Asedau Cyfredol Net** | | | **(42)** | | **282** |
| **Cyfanswm asedau llai ymrwymiadau cyfredol** | | | **144,860** | | **160,648** |
| **Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau** | 13 | (80) | | (62) | |
| | | | **(80)** | | **(62)** |
| | | | **144,780** | | **160,586** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 14 | | 117,105 | | 116,103 |
| Cronfa ailbrisiad wrth gefn | 15 | | 27,675 | | 44,483 |
| | | | **144,780** | | **160,586** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40 i 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

D J Bills CBE
Swyddog Cyfrifo
17 Tachwedd 2003

# Atodlen 4

## Datganiad Llif Arian
## ar 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002-03 £000 | 2001-02 £000 |
|---|---|---|---|
| All-lif arian o weithgareddau gweithredol | | (18,491) | (14,245) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | 6 | (14) | (9) |
| Ariannu | | 18,653 | 14,254 |
| **Cynnydd mewn arian yn ystod y cyfnod** | 11 | 148 | - |
| **Cysoniad cost gweithredu i lifiannau arian gweithredu** | | | |
| Cost gweithredu net | | (28,678) | (24,538) |
| Cymwysiadau ar gyfer trafodion anariannol | 3/4 | 9,847 | 10,615 |
| Trosglwyddiadau anariannol rhwng gwledydd | 14 | 17 | 12 |
| Cymwysiadau ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gweithred heblaw am arian | 8 | 305 | (308) |
| Defnyddio darpariaethau | | 18 | (26) |
| All-lif arian o weithgareddau gweithredol | | (18,491) | (14,245) |
| **Dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol | 6 | (14) | (9) |
| Derbyniadau o waredu asedau sefydlog | | - | - |
| Benthyciadau i gyrff eraill | | - | - |
| Aildalu benthyciadau i gyrff eraill | | - | - |
| **All-lif arian newydd o weithgareddau buddsoddi** | | **(14)** | **(9)** |
| **Dadansoddiad o ariannu a chysoni â'r gofyniad arian net** | | | |
| Ariannu net gan Gynulliad Cymru | | 18,653 | 14,254 |
| Cynnydd mewn arian | 11 | (148) | - |
| **Gofyniad arian net** | | 18,505 | 14,254 |

Cyfanswm y grant a roddwyd mewn gwirionedd er mwyn cefnogi'r gofyniad ariannu net = £18,653,000.00.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40 i 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Atodlen 5

## Adnoddau yn ôl Nod ac Amcan Adrannol
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | 2002-03 | | | 2001-02 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm | Gwariant Net | Gwariant Gros | Incwm | Gwariant Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Amcanion** | | | | | | |
| Cefnogi datblygu cymunedol | 5,554 | (427) | 5,127 | 1,400 | (8) | 1,392 |
| Creu mwy o goetiroedd gwell yng Nghymru, gan hyrwyddo rheolaeth coetir o ansawdd uchel | 8,334 | (256) | 8,078 | 8,520 | (335) | 8,185 |
| Datblygu Cymru fel lleoliad o ansawdd fyd-eang ar gyfer diwydiannau coedwig | 9,603 | (598) | 9,005 | 9,232 | (17) | 9,215 |
| Creu amgylchedd cynaladwy o'r ansawdd uchaf | 1,912 | (205) | 1,707 | 2,732 | (384) | 2,348 |
| Hyrwyddo twristiaeth, hamdden ac iechyd | 4,983 | (222) | 4,761 | 3,482 | (84) | 3,398 |
| **Costau Rhedeg Net** | **30,386** | **(1,708)** | **28,678** | **25,366** | **(828)** | **24,538** |

Gweler nodyn 16.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 40 i 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon Adnoddau

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau 2002-03 a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn y Llawlyfr yn dilyn dulliau cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn y DG ar gyfer cwmnïau (UK GAAP) i'r graddau eu bod yn ystyrlon a phriodol i'r sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis polisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol yr adran i'r diben o roi darlun gwir a theg. Cafodd polisïau cyfrifo'r adran eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyriwyd yn berthnasol ar gyfer y cyfrifon.

### a. Confensiwn Cyfrifo

Cafodd y cyfrifon hyn eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol a addaswyd er mwyn cymryd i ystyriaeth ailbrisiad asedau a stociau sefydlog pan fo hynny'n berthnasol, yn ôl eu gwerth i'r busnes trwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

### b. Sail Cyfuniad

Mae'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu asedau, ymrwymiadau a chanlyniadau'r adran graidd (y Comisiwn Coedwigaeth) yng Nghymru. Mae Menter Coedwigaeth (MC), sy'n asiantaeth weithredol, yn gorfforaeth gyhoeddus ar gyfer cyfrifon cenedlaethol ac o'r herwydd mae y tu allan i'r terfyn at ddibenion cyfrifon adnoddau. Cyhoeddir cyfrifon MC yng Nghymru ar wahân yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer Cymru gyda chyllido net a gwerth net MC yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hyn.

### c. Asedau Sefydlog Diriaethol

Ymddiriedir perchnogaeth gyfreithiol yr holl dir ac adeiladau i'r Cynulliad Cenedlaethol ac ymddiriedir perchnogaeth gyfreithiol y pren, gan gynnwys coed heb eu torri, i'r Comisiynwyr Coedwigaeth. Pan fo Menter Coedwigaeth yn brif ddefnyddiwr buddiol asedau ystad y Comisiwn Coedwigaeth, cânt eu trin fel ased sefydlog yr asiantaeth.

Ymddiriedir perchnogaeth gyfreithiol asedau sefydlog diriaethol eraill, cyfarpar swyddfa yn bennaf, i'r Comisiynwyr Coedwigaeth. Caiff gwerthoedd cyfarpar swyddfa eu hailddatgan i'w gwerth cyfredol yn flynyddol trwy ddefnyddio mynegai prisiau cyffredinol a gyflenwir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Trothwy arferol cyfalafu asedau yw £2,000 ar gyfer adeiladau a £1,500 ar gyfer cyfarpar swyddfa. Byddai eitemau o beiriannau a chelfi swyddfa, o'u trin yn unigol, o dan y trothwy cyfalafu, ond yn gyfunol maent yn ased sylweddol ac felly cânt eu cyfalafu fel ased cydgyfrannol.

### d. Datbrisiad

Ni ddatbrisir tir rhyddfaint.

Darperir dibrisiad ar raddfeydd i ddileu'r asedau sefydlog diriaethol trwy ranwerthoedd cyfartal tros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae pob oes o fewn yr amrediadau a ganlyn:

Cyfarpar ymchwil a swyddfa - 5 i 20 mlynedd

Dosrennir amhariadau asedau sefydlog i'r datganiad gweithredu yng nghyfnod eu digwydd.

## e. Asedau anniriaethol

Nid oes unrhyw asedau anniriaethol yn y cyfrifon. Dosrennir meddalwedd, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd, a chostau datblygu systemau cyfrifiadurol, i'r datganiad gweithredu yng nghyfnod eu digwydd.

## f. Buddsoddiadau

Mae Menter Coedwigaeth yng Nghymru'n cael ei thrin fel buddsoddiad ac yn cael ei dangos yn y fantolen yn ôl gwerth asedau net yr asiantaeth ar 31 Mawrth 2003.

## g. Stociau

Mae stociau cyhoeddiadau'n cael eu prisio yn ol cost neu, os ydynt yn sylweddol wahanol, yn ôl cost amnewid gyfredol, ac yn ôl gwerth gwerthadwy net ond pan na fydd modd eu defnyddio neu na fyddant yn cael eu defnyddio.

## h. Darparu ar gyfer Drwgddyledion a Dyledion Amheus

Neilltuir darpariaethau penodol ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus ar sail adolygiad o ddyledion unigol ar ddiwedd y flwyddyn.

## i. Ymchwil a Datblygu

Mae Ymchwil Goedwigaeth, asiantaeth weithredol y Comisiwn Coedwigaeth, yn gyfrifol am wneud gwaith ymchwil goedwig a gwaith cysylltiedig. Bydd yr adran yn comisiynu ymchwil gan yr asiantaeth a thrwy gytundebau allanol a ddyfernir trwy ddulliau amrywiol gan gynnwys tendro agored. Er bod coedwigaeth yn fater datganoledig, mae Ymchwil Goedwigaeth yn cael ei hariannu o hyd o San Steffan.

## j. Gwariant Gweinyddol a Rhaglen

Dadansoddir y datganiad cost gweithredu rhwng costau gweinyddol a rhaglen. Mae'r costau gweinyddol yn adlewyrchu costau rhedeg y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, ynghyd ag incwm gweithredol cysylltiedig. Mae'r costau rhaglen yn cynnwys taliadau grant a chyllido net Menter Coedwigaeth yng Nghymru.

## k. Cyllid yr Undeb Ewropeaidd (UE)

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweithredu fel asiant yr UE ar gyfer grantiau trydyddion a delir o daliadau Amcan 1 a'r Cynllun Grantiau Coetir o dan Gronfa genedlaethol Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymrwymo i dalu grantiau plannu mewn tri rhandaliad tra bo grantiau am reoli coetiroedd sy'n bodoli yn daladwy yn flynyddol mewn ôl-ddyled yn ystod oes pum-mlynedd cynllun cymeradwy. Bydd grantiau'n daladwy (ac yn cael eu cydnabod fel ymrwymiad yn y fantolen), a hawlir cyfraniadau gan yr UE, unwaith y cynhaliwyd unrhyw archwiliad ffisegol angenrheidiol er mwyn cadarnhau bod y cynllun wedi bodloni amodau. Os yw grantiau'n cael eu hadennill wedyn oherwydd methiant i gyflawni amodau'r Cynllun Grantiau Coetir, gall y bydd cyfanswm y cyd-ariannu'n ad-daladwy i'r UE. Mae costau a grantiau'r UE yn cael eu cynnwys yn y gwariant rhaglen ac mae ariannu/ cyd-ariannu gwrthbwysol yr UE yn gynwysedig yn yr incwm rhaglen.

## l. Codiannau Cyfalaf

Cafodd codiannau, yn adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan yr adran graidd yng Nghymru a Menter Coedwigaeth yng Nghymru, eu cynnwys o dan y costau gweinyddu neu gostau rhaglen, fel y bo'n briodol, yn natganiad y gost gweithredu. Cyfrifir y codiant yn ôl cyfradd safonol y Llywodraeth o 6% mewn gwir werth ar gyfanswm cyfartalog yr holl asedau llai ymrwymiadau, ac eithrio ar gyfer balansau arian sy'n cael eu dal gan Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol a symiau sydd i'w trosglwyddo i Gynulliad Cymru. Newidiodd cyfradd y Llywodraeth i 3.5% ar 1 Ebrill 2003.

## m. Treth ar Werth (TAW)

Cofrestrwyd y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer TAW. Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfrifo'r llywodraeth ac arferion masnachol arferol, dangosir incwm a gwariant yn y datganiad cost weithredu heb TAW. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cyfrifo TAW ar sail Brydeinig a chynhwysir unrhyw TAW sy'n daladwy i neu gan Dollau Cartref a Thramor EM ar ddiwedd y flwyddyn yng nghyfrifon y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr/Prydain fel dyledwr neu gredydwr. Dosrennir TAW anadferadwy i'r datganiad cost weithredu yn y flwyddyn y digwyddodd ynddi.

## n. Yswiriant

Yn unol ag arferion cyfrifo arferol y llywodraeth, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cario ei risgiau yswiriant ei hun.

## o. Pensiynau

Mae gweithwyr a chyn-weithwyr y Comisiwn Coedwigaeth yn perthyn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun budd ddiffiniedig ac anarianedig Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan fydd yn elwa ar wasanaethau gweithwyr trwy dalu i'r PCSPS symiau wedi'u cyfrifo ar sail gronnol. Mae'r cyfrifoldeb am dalu buddion yn y dyfodol yn cwympo ar y PCSPS.

Mae gwybodaeth bellach am bensiynau yn Nodyn 2 i'r cyfrifon .

## p. Cynllun Iawndal

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Coedwigaeth gwrdd â chost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol y cynllun pensiwn parthed gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'n darparu'n llawn ar gyfer y gost hon pan gytunwyd ar ymrwymiad i dalu costau o'r fath. Ar gyfer staff yn ymadael ar 31 Mawrth 1999 neu cyn hynny, dangosir yr ymrwymiadau i'r dyfodol ar gyfer taliadau 'iawndal' misol yng nghyfrifon y Comisiwn Coedwigaeth neu'r asiantaeth ar gyfer y wlad lle'r oedd staff yn gwasanaethu adeg eu hymddeoliad cynnar. Ariannwyd costau ymddeoliad cynnar 5 aelod o'r staff a ymadawodd yn ystod 2000-01 a 5 aelod o'r staff a ymadawodd yn ystod 2001-02 gan y Gronfa Moderneiddio Llywodraeth gyda'r amcan o wneud y gweithlu'n fwy amrywiol. Cafodd y costau hyn eu cynnwys yn y datganiad cost weithredu a'r fantolen yn unol ag ymddeoliadau cynnar eraill.

## q. Prydlesi Gweithredu

Codir costau parthed prydlesi gweithredu ar sail llinell-syth dros gyfnod y brydles.

## r. Cymwysiadau blwyddyn flaenorol

Cafodd y cymariaethau blwyddyn faenorol eu cymhwyso er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn polisïau cyfrifo yn unol â FRS 3.

1. Arian yn y banc ac mewn llaw

Datgelodd cyfrifon y flwyddyn flaenorol yr holl falansau arian ar wahân i arian mân yng nghyfrifon Comisiwn Coedwigaeth Lloegr/Prydain. Er mwyn adlewyrchu'n gywir y cyllido gan bob un o'r tair gweinyddiaeth, cafodd y balans wrth gau ei gynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn briodol.

2. Darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau/credydwyr

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau yn berthynol ond i iawndaliadau ymddeol cynnar. Yn y gorffennol, cafodd y symiau a oedd yn daladwy o fewn blwyddyn eu datgelu yn y cyfrifon oddi mewn i gredydwyr a'r symiau a oedd yn daladwy ar ôl mwy na blwyddyn oddi mewn i ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau. Yn unol â FRS 12 a'r Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau, cafodd cyfanswm yr iawndaliadau ymddeol cynnar ei gynnwys oddi mewn i'r darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau a chafodd ffigurau'r flwyddyn flaenorol eu cymhwyso, hefyd.

## 2. Niferoedd a Chostau Staff

### a. Gweithwyr a Chostau

Nifer gyfartalog y gweithwyr cyfwerth llawn-amser a gyflogwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth a'i asiantaethau yn ystod y flwyddyn oedd 3,091 (3,007 yn 2001-02). Roedd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru'n cyflogi cyfartaledd o 55 (42 yn 2001-02) gyda 563 yn ychwanegol o staff (547 yn 2001-02) yn cael eu cyflogi ar sail Brydeinig, gan gynnwys Ymchwil Goedwigaeth, er mwyn darparu cefnogaeth i weithgareddau'r Comisiwn Coedwigaeth ym mhob un o'r tair gwlad a chefnogaeth i'w asiantaethau. Roedd costau cyfunol y cyflogau fel a ganlyn:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru** | | |
| Cyflogau | 1,412 | 1,082 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 97 | 75 |
| Costau pensiwn eraill | 188 | 154 |
| **Cyfanswm** | **1,697** | **1,311** |

Roedd y staff wedi'u cynnwys ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig anarianedig ac aml-gyflogydd ond ni all y Comisiwn Coedwigaeth nodi ei gyfran o'r asedau ac ymrwymiadau sylfaenol. Gwnaed prisiad actwaraidd llawn ar 31 Mawrth 1999. Gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet; Civil Superannuation (www.civilservice-pensions.gov.uk)

Ar gyfer 2002-03, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £188,000 yn daladwy i'r PCSPS (£49,000 yn 2001-02) yn ôl un o'r pedair cyfradd yn yr ystod o 12 i 18.5% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Ni fydd newid yn y cyfraddau yn ystod y flwyddyn nesaf, yn amodol ar adwerthusiad o'r bandiau cyflog. Bydd cyfraniadau'r cyflogwyr yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad o'r cynllun cyfan gan Actwari'r Llywodraeth. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni yn hytrach nag wrth i'r costau ddigwydd mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Gallai gweithwyr yn ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cronfa bensiwn bartneriaeth, sef pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr gwerth £nil i un neu fwy o baneli o bedwar darparwr pensiwn budd-ddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn dibynnu ar oedran ac yn amrywio o 3 i 12.5% o'r cyflog pensiynadwy. Bydd y cyflogwyr hwythau'n gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan gyflogwyr o £nil, sef 0.8% o'r cyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS er mwyn talu'r gost o ddarparu cyfandaliadau budd os yw gweithwyr yn marw cyn ymddeol neu'n gorfod ymddeol oherwydd afiechyd.

Roedd y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £nil. Roedd y cyfraniad ar y dyddiad hwnnw yn £nil.

i. blaendaliadau cyflog er mwyn prynu tŷ;
ii. blaendaliadau cyflog er mwyn prynu tocynnau tymor ar gyfer teithio
iii. cynllun darparu car.

Cafwyd chwe benthyciad o dan y cynllun blaendaliadau cyflog er mwyn prynu tŷ ac roedd balans o £2,500 neu fwy yn weddill i aelodau staff unigol ar 31 Mawrth 2003. Cyfanswm gwerth y benthyciadau hyn oedd £50,000.

## b. Bwrdd y Comisiynwyr

Isod, nodir cyflog a hawliau pensiwn Bwrdd y Comisiynwyr, ac eithrio Prif Weithredwr Menter Coedwigaeth y mae ei dâl yng nghyfrifon Menter Coedwigaeth:

| | | Oed | Cyflog | Y gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronnol yn 60 oed ar 31 Mawrth 2003 | Buddiannau | Cyfraniad y cyflogwr i gronfa i bensiwn bartneriaeth gan gynnwys yswiriant budd risg (nodyn (d)) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Blynyddoedd | £000 | £000 | £000 | £ | £ |
| **2002-03** | | | | | | | |
| **Cadeirydd** | | | | | | | |
| Gw Anh Arglwydd Clark o Windermere | | 63 | 45-50 | AMH | AMH | - | - |
| **Comisiynwyr Gweithredol** | | | | | | | |
| David Bills CBE | a | 55 | 110-115 | 0.0-2.5 | 5-10 | - | - |
| Duncan Macniven TD | a | 52 | 80-85 | 2.5-5.0 | 30-35 | - | - |
| **Comisiynwyr Anweithredol** | | | | | | | |
| Anthony Bosanquet | | 59 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Tom Bruce Jones CBE (tan 31 Mawrth 2003) | | 61 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Tony Cooper | | 59 | 0-5 | AMH | AMH | - | - |
| Dr Victoria Edwards | | 39 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| John James OBE | | 53 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Andrew Raven | | 44 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Gareth Wardell | | 58 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| | | | | | | | |
| **2001-02** | | | | | | | |
| **Cadeirydd** | | | | | | | |
| Sir Peter Hutchison | | 66 | 30-35 | AMH | AMH | - | - |
| Gw Anh Arglwydd Clark o Windermere | | 62 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| **Comisiynwyr Gweithredol** | | | | | | | |
| David Bills CBE | | 54 | 115-120 | 0.0-2.5 | 5-10 | - | - |
| Duncan Macniven TD | | 51 | 75-80 | 0.0-2.5 | 25-30 | - | - |
| **Comisiynwyr Anweithredol** | | | | | | | |
| Anthony Bosanquet | | 58 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Tom Bruce Jones CBE | | 60 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Tony Cooper | | 58 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Dr Victoria Edwards | | 38 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| John James OBE | | 52 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Andrew Raven | | 43 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |
| Gareth Wardell | | 57 | 5-10 | AMH | AMH | - | - |

## c. Uwch Reolwyr

Isod, nodir cyflog a hawliau pensiwn uwch reolwyr y Comisiwn Coedwigaeth, ac eithrio'r rhai sy'n gwasanaethu ar Fwrdd y Comisiynwyr:

| | | Oed | Cyflog | Y gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronnol yn 60 oed ar 31 Mawrth 2003 | Buddiannau | Cyfraniad y cyflogwr i gronfa i bensiwn bartneriaeth gan gynnwys yswiriant budd risg (nodyn (d)) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Blynyddoedd | £000 | £000 | £000 | £ | £ |
| **2002-03** | | | | | | | |
| **Uwch staff Prydain** | | | | | | | |
| Frank Stranga | | 41 | 55-60 | 0.0-2.5 | 10-15 | - | - |
| Jim Anderson | b | 58 | 55-60 | 0.0-2.5 | 25-30 | - | - |
| Tim Rollinson | a | 49 | 75-80 | 2.5-3.0 | 20-25 | - | - |
| Roger Herbert | a | 54 | 60-65 | 0.0-2.5 | 25-30 | - | - |
| Jim Dewar (tan 30 Mai 2002) | | 55 | 10-15 | AMH | AMH | - | - |
| Peter Freer-Smith (o 30 Mai 2002) | a | 47 | 60-65 | 0.0-2.5 | 10-15 | £800 | - |
| **Prif Warchodwr Cymru** | | | | | | | |
| Simon Hewitt | a | 55 | 55-60 | 0.0-2.5 | 15-20 | - | - |
| **2001-02** | | | | | | | |
| **Uwch staff Prydain** | | | | | | | |
| Frank Strang | | 40 | 50-55 | 0.0-2.5 | 10-15 | - | - |
| Jim Anderson | | 57 | 50-55 | 0.0-2.5 | 20-25 | - | - |
| Tim Rollinson | | 48 | 65-70 | 0.0-2.5 | 20-25 | - | - |
| Roger Herbert | | 53 | 55-60 | 0.0-2.5 | 25-30 | - | - |
| Jim Dewar | | 54 | 60-65 | 0.0-2.5 | 25-30 | | |
| **Prif Warchodwr Cymru** | | | | | | | |
| Simon Hewitt | | 54 | 50-55 | 0.0-2.5 | 15-20 | - | - |

a dewisodd ymuno â'r cynllun clasurol
b dewisodd ymuno â'r cynllun premiwm
c dewisodd ymuno â'r cynllun clasurol plws
d dewisodd ymuno â'r gronfa bensiwn bartneriaeth

## Cyflog

Mae ‘cyflog’ yn cynnwys cyflog gros a bonysau perfformiad.

## Pensiwn

Mae buddion pensiwn ar gyfer bwrdd y rheolwyr yn gyson â’r rhai ar gyfer gweithwyr cyflog eraill y Comisiwn Coedwigaeth ac fe’u darperir trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil berthyn i un o dri chynllun statudol “cyflog terfynol” â buddion diffiniedig (clasurol, premiwm, a chlasurol plws). Gall y rhai sy’n ymuno am y tro cyntaf ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth premiwm neu ymuno â threfniad “prynu arian” o ansawdd uchel yn seiliedig ar fudd-ddeiliaid gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cronfa bensiwn bartneriaeth).

**(a) Cynllun Clasurol**

Mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/80 o’r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy’n gyfatebol i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeol. Bydd aelodau’n cyfrannu 1.5% o enillion pensiynadwy. Yn dilyn marwolaeth, mae pensiynau’n daladwy i’r p/briod (g)oroesol ar y raddfa o hanner pensiwn yr aelod. Yn dilyn marwolaeth wrth wasanaethu, mae’r cynllun yn talu budd mewn cyfandaliad o ddwywaith y tâl pensiynadwy ac mae hefyd yn darparu gwelliant gwasanaeth wrth gyfrifiannu pensiwn y p/briod. Mae’r gwelliant yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na deng mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achosion o salwch difrifol. Bryd hynny, telir pensiynau ar unwaith heb ostyngiad actwaraidd a chyda gwelliant gwasanaeth yr un fath ag ar gyfer pensiynau gweddwon.

**(b) Cynllun Premiwm**

Mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/60 o’r enillion pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i’r cynllun clasurol, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig, ond gall aelodau gymudo peth o’u pensiwn i ddarparu cyfandaliad o hyd at uchafswm o 3/80 o’r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth neu 2.25 gwaith y pensiwn os yw’n fwy (y raddfa gymudo yw £12 o gyfandaliad ar gyfer pob £1 o bensiwn a roddir heibio). At ddibenion datgelu pensiynau mae’r tablau’n rhagdybio uchafswm cymudo. Mae aelodau’n cyfrannu 3.5% o enillion pensiynadwy. Yn dilyn marwolaeth, mae pensiynau’n daladwy i’r p/briod (g)oroesol neu bartner cymwys ar raddfa o 3/8 o bensiwn yr aelod (cyn unrhyw gymudo). Yn dilyn marwolaeth wrth wasanaethu, mae’r cynllun yn talu cyfandaliad sydd deirgwaith yn fwy na’r enillion pensiynadwy ac mae hefyd yn darparu gwelliant gwasanaeth wrth gyfrifiannu pensiwn y p/briod. Mae’r gwelliant yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achosion o salwch difrifol. Bryd hynny, telir pensiynau ar unwaith heb ostyngiad actwaraidd. Os yw salwch aelod yn atal yr aelod yn barhaol rhag ennill cyflog, caiff tymor y gwasanaeth ei estyn i’r hyn a fyddai wedi cronni erbyn cyrraedd 60 oed.

**(c) Cynllun Clasurol Plws**

Yn y bôn mae hwn yn amrywiad ar y cynllun premiwm, ond gyda budd-daliadau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo’n fras yr un fath ag ar gyfer y cynllun clasurol.

Bydd pensiynau sy’n daladwy o dan y cynlluniau clasurol, premiwm, a chlasurol plws yn cael eu cynyddu yn unol â’r Mynegai Pris Adwerthu.

**(d) Cronfa Bensiwn Bartneriaeth**

Mae’r cynllun hwn yn drefniad o fath budd-ddeiliad gyda’r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliad. Nid oes raid i’r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% (yn ychwanegol ar gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Yn ogystal, gall cyflogwyr gyfrannu 0.8% yn ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu am yswiriant budd risg (marwolaeth wrth wasanaethu ac ymddeol oherwydd salwch). Gall yr aelod ymddeol unrhyw adeg rhwng 50 a 75 mlwydd oed a defnyddio’r gronfa gronedig i brynu pensiwn. Gall yr aelod ddewis cymryd 25% o’r gronfa fel cyfandaliad.

## Buddiannau

Mae gwerth ariannol buddiannau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy’n cael eu hystyried yn incwm trethadwy gan Gyllid y Wlad.

## Benthyciadau i uwch staff Prydain

Gwneir benthyciadau i uwch staff Prydain ar ffurf cyflog o flaen llaw ar gyfer prynu tŷ. Gwneir y benthyciadau hyn ar yr un telerau â’r rhai sydd ar gael i aelodau eraill o’r staff. Roedd y swm a oedd heb ei dalu ar 31 Mawrth 2003 yn £4,000 (£21,000 ar 31 Mawrth 2002). Ni wnaed cais am ganiatâd i ddatgelu manylion.

## 3. Costau Gweinyddol Eraill

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Teithio a chynhaliaeth | 147 | 172 |
| Gwariant arall | 1,251 | 895 |
| Incwm arall | (1,059) | (63) |
| **Is-gyfanswm** | 339 | 1,004 |
| Costau anariannol | | |
| Cost cyfalaf | 6 | 9 |
| Dibrisiad | 15 | 23 |
| Colled wrth werthu asedau | - | (1) |
| **Is-gyfanswm** | 21 | 31 |
| **Cyfanswm** | **360** | **1,035** |

Roedd treuliau eraill yn cynnwys tâl yr archwiliwr o £14,000 am waith archwilio.

Mae gwasanaethau canolog y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth, personél, hyfforddiant, cysylltiadau cyhoeddus ac archwiliad mewnol ar gael trwy gytundebau lefel gwasanaeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig am dâl yn ystod y flwyddyn i gwsmeriaid mewnol ym Menter Coedwigaeth. Codir tâl ar y Comisiwn Coedwigaeth am ei gyfran o wasanaethau ariannol a ddarperir gan Fenter Coedwigaeth ac am wasanaethau peirianneg fecanyddol.

Mae'r Asiantaeth Ymchwil Goedwigaeth yn ymgymryd â chyfran sylweddol o raglen ymchwil flynyddol gyffredinol y Comisiwn Coedwigaeth ar ffurf prosiectau wedi'u comisiynu'n benodol i ddarparu cynhyrchion cytunedig. Cytunir ar godiant blynyddol ar wahân am bob prosiect yn seiliedig ar adennill yr holl gost. Defnyddir y costau ar gyfer un flwyddyn i bennu codiannau prosiect ar gyfer y dyfodol. Mae'r Asiantaeth hefyd yn darparu gwasanaethau ymchwil ac arolwg i Fenter Coedwigaeth a rhannau eraill o'r Comisiwn Coedwigaeth ar sail adennill yr holl gostau.

Bydd nifer o newidiadau, yn deillio o'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth, yn dod i rym o 1 Ebrill 2003. Bydd canolfan y Comisiwn Coedwigaeth, ar raddfa lai, yng Nghaeredin yn dal i ddarparu gwasanaethau canolog megis personél, hyfforddiant, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau cyfrifo ac archwiliad mewnol os yw hynny'n gost-effeithiol neu os oes rhesymau polisi neu ymarferol digonol. Bydd mecanweithiau dros dro ar gyfer codi arian mewn grym ar gyfer 2003-04 a bydd cytundebau newydd ar lefel gwasanaeth mewn grym erbyn 1 Ebrill 2004.

## 4. Gwariant ac Incwm Rhaglen

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Grantiau a dalwyd i berchnogion coetiroedd preifat | 4,944 | 2,573 |
| Cyhoeddiadau a gwariant arall | 1,000 | 517 |
| Cyd-ariannu grantiau plannu gan yr UE | (649) | (765) |
| Incwm amrywiol | - | - |
| **Is-gyfanswm** | 5,295 | 2,325 |
| Ariannu Menter Coedwigaeth | 21,326 | 19,867 |
| | 26,621 | 22,192 |

Roedd gan Fenter Coedwigaeth £21,326,000 (£19,867,000 yn 2001-02) yng Nghymru ar ei chyfrif incwm a gwariant. Derbyniodd £11,500,000 (£9,283,000 yn 2001-02) gan y Comisiwn Coedwigaeth a dangosir y gwahaniaeth o dan addasiadau eraill yn Atodlen 1. Mae'r gwahaniaeth yn cynnwys:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cyfalaf** | | |
| Cyfalaf net | (223) | (635) |
| **Addasu croniadau** | | |
| Cost cyfalaf | 9,154 | 9,804 |
| Eitemau anariannol | 655 | 629 |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithred, gan gynnwys arian | (98) | 728 |
| Defnyddio'r ddarpariaeth | 338 | 58 |
| **Addasu diffyg Menter Coedwigaeth i ariannu** | **9,826** | **10,584** |

## 5. Cysoniad cost gweithredu net reoli cyfanswm ac alldro adnoddau net

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn** | 28,678 | 24,538 |
| Dileu gwariant nad yw'n ymwneud â chyflenwad | - | - |
| Ychwanegu incwm nad yw'n ymwneud â chyflenwad gan gynnwys CFERau | - | - |
| Ychwanegu diffyg net ar ailbrisiadau | - | - |
| **Alldro adnoddau net** | **28,678** | **24,538** |

## 6. Asedau Sefydlog Diriaethol

| | Peiriannau, Offer a Chyfarpar | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Cost neu brisiad:** | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 259 | 259 |
| Ychwanegiadau | 14 | 14 |
| Trosglwyddiadau | 19 | 19 |
| Gwarediadau | (2) | (2) |
| Ailbrisiad prisiau cyfredol | (1) | (1) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **289** | **289** |
| **Dibrisiad:** | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 222 | 222 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 15 | 15 |
| Trosglwyddiadau | 19 | 19 |
| Gwarediadau | (2) | (2) |
| Ailbrisiad prisiau cyfredol | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **254** | **254** |
| **Gwerth Net ar Bapur ar:** | | |
| **31 Mawrth 2003** | **35** | **35** |
| **1 Ebrill 2002** | **37** | **37** |

Nodyn 1 Mae Polisïau Cyfrifo yn nodi'r sail ar gyfer ailbrisio asedau sefydlog.

Cafodd asedau peiriannau, offer a chyfarpar eu hailddatgan i werthoedd cyfredol ar 31 Mawrth 2003 trwy ddefnyddio mynegeion wedi'u cyflenwi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## 7. Buddsoddiadau

Mae Menter Coedwigaeth yng Nghymru yn gorfforaeth gyhoeddus ar gyfer cyfrifo cenedlaethol ac felly mae y tu allan i'r terfyn adrannol ar gyfer cyfrifon adnoddau. Dangosir ei gwerth net ar bapur £144,819,000 (£160,300,000 ar gyfer 2001-02) fel buddsoddiad ym mantolen y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru.

## 8. Symudiadau mewn cyfalaf gweithred ar wahân i arian

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gostyngiad / (Cynnydd) mewn Stociau | (1) | 7 |
| Gostyngiad / (Cynnydd) mewn Dyledwyr | 4 | (411) |
| Gostyngiad) / Cynnydd mewn Credydwyr: Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn | 302 | 96 |
| **Symudiadau mewn cyfalaf gweithred ar wahân i arian** | **305** | **(308)** |

## 9. Stociau a Gwaith ar y gweill

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Stociau (cyhoeddiadau) | 1 | - |
| **Cyfanswm** | **1** | **-** |

## 10. Dyledwyr

| | 2002-03 | Ailddatganiad 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnachol | 423 | 467 |
| Dyledwyr eraill | 7 | 1 |
| Rhagdaliadau | 15 | - |
| | **445** | **468** |
| **Symiau'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill | **48** | **29** |
| **Cyfanswm** | **493** | **497** |

## 11. Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2002-03 | Ailddatganiad 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol | 219 | 71 |
| Arian mewn banciau masnachol ac arian mewn llaw | - | - |
| **Cyfanswm** | **219** | **71** |
| Symiau a roddwyd gan Gynulliad Cymru am ddarpariaeth ond na chafodd eu gwario erbyn diwedd y flwyddyn | 219 | 71 |

## 12. Credydwyr

| | 2002-03 | Ailddatganiad 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn:** | | |
| Credydwyr masnachol | 458 | 186 |
| Credydwyr eraill | 30 | - |
| Symiau a roddwyd gan Gynulliad Cymru am ddarpariaeth ond a oedd heb eu gwario ar 31 Mawrth 2002 | 71 | 71 |
| Symiau a roddwyd gan Gynulliad Cymru am ddarpariaeth ond a oedd heb eu gwario ar 31 Mawrth 2003 | 148 | - |
| **Total** | **707** | **257** |

## 13. Darpariaeth ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau (Iawndaliadau ymddeol yn gynnar)

| | 2002-03 | Ailddatganiad 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Iawndaliadau:** | | |
| Balans ar 1 Ebrill 2002 | 62 | 122 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 4 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (12) | (64) |
| Dad-ddirwyn disgownt | 30 | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2003** | **80** | **62** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau yn ymwneud yn unig ag iawndaliadau ymddeoliad cynnar. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Coedwigaeth gwrdd â chost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol cynllun pensiwn parthed gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'n darparu'n llawn ar gyfer y gost hon pan fo ymrwymiad i dalu'r cyfryw gostau trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau amcangyfrifedig gyda disgownt yn ôl cyfradd ddisgownt y Trysorlys o 6% mewn gwir werth. Pennir taliadau blynyddol wedyn i unigolion yn ôl y ddarpariaeth.

## 14. Cysoniad cost gweithredu net â newidiadau i'r gronfa gyffredinol

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn (Atodlen 2) | (28,678) | (24,538) |
| Cyllido net gan y Senedd | 18,653 | 14,325 |
| Symiau a roddwyd gan Gynulliad Cymru am ddarpariaeth ond a oedd heb eu gwario ar 31 Mawrth 200218,653 | 71 | - |
| | (9,954) | (10,213) |
| Cymhwysiad ar gyfer cyfansymiau cyfunol Menter Coedwigaeth (Nodyn 4) | 9,826 | 10,584 |
| | (128) | 371 |
| Cost cyfalaf dybiannol | 6 | 9 |
| Trosglwyddo asedau sefydlog oddi wrth/ i gyrff coedwigaeth eraill | - | (66) |
| Trosglwyddiadau anariannol rhwng gwledydd | 17 | 12 |
| Symiau a roddwyd gan Gynulliad Cymru am ddarpariaeth ond na chfodd eu gwario | (219) | (71) |
| | (324) | 255 |
| Y symudiad yn ystod y flwyddyn yng nghronfa gyffredinol Menter Coedwigaeth | 1,326 | (1,105) |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net yn y Gronfa Gyffredinol** | **1002** | **(850)** |
| Y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2002 | 116,103 | 116,953 |
| **Y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2003 (Atodlen 3)** | **117,105** | **116,103** |

Mae trosglwyddiadau anariannol rhwng y gwledydd yn cynnwys trosglwyddo darpariaethau, TAW i'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr/Prydain a dillad gweithwyr. Cyfanswm net y trafodion ar gyfer 2002-03 yw £17,000.

## 15. Cronfa Ailbrisiad Wrth Gefn

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2002 | 44,483 | 49,593 |
| Ailbrisiad gwarged/(diffyg) y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer y flwyddyn | (1) | 1 |
| Y symudiad yn ystod y flwyddyn yng nghronfa ailbrisiad wrth gefn Menter Coedwigaeth | (16,807) | (5,111) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2003** | **27,675** | **44,483** |

## 16. Atodlen 5

Mae'r gwariant yn Atodlen 5 yn cynnwys y costau uniongyrchol yn swyddfa genedlaethol y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru a chostau anuniongyrchol a ddyroddwyd gan ganolfannau costau unigol neu a ddosrannwyd pro rata i'r costau sy'n uniongyrchol briodoladwy. Gwnaed dadansoddiad i ddarganfod y costau a oedd yn briodoladwy i bob un o amcanion yr adran graidd. Mewn strategaeth goedwigaeth aml-fudd lle bydd llawer o weithgareddau'n cyfrannu at fwy nag un amcan, cyflawnwyd y dosraniad cost gan uwch staff ym mhob ardal yn seiliedig ar farnu pob gweithgaredd yn wybodus. Cafodd Menter Coedwigaeth ei chynnwys yn Atodlen 5 i raddau'r gost net i'r Comisiwn Coedwigaeth (diffyg gweithredu ynghyd â chost cyfalaf). Dynodir costau ym Menter Coedwigaeth yn ôl gweithgaredd a dyroddwyd y gweithgareddau hyn i amcanion.

Dosrannwyd niferoedd y staff pro rata i'r gwariant net ar bob amcan, gan roi:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Cefnogi datblygu cymunedol | 11 | 2 |
| Creu mwy o goetiroedd gwell yng Nghymru, gan hyrwyddo rheolaeth coetir o ansawdd uchel | 16 | 13 |
| Datblygu Cymru fel lleoliad o ansawdd fyd-eang ar gyfer diwydiannau coedwig | 14 | 17 |
| Creu amgylchedd cynaladwy o'r radd flaenaf | 4 | 4 |
| Hyrwyddo twristiaeth, hamdden ac iechyd | 10 | 6 |
| **Cyfanswm** | **55** | **42** |

## 17. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2003.

## 18. Ymrwymiadau dan brydlesi

**Prydlesi gweithredu**

Codir rhenti prydlesi gweithredu ar sail llinell-syth dros gyfnod y brydles. Mae'r prydlesi gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf fel a ganlyn::

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Prydlesi adeiladau yn dod i ben o fewn:** | | |
| Un mlynedd | - | - |
| Dwy flynedd i bum mlynedd | - | - |
| Mwy na phum mlynedd | 58 | 30 |
| **Cyfanswm** | **58** | **30** |

## 19. Ymrwymiadau ariannol eraill

Yn dilyn cymeradwyo cynllun rheoli ar gyfer argymhellion plannu, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn talu grantiau plannu mewn tri rhandal. Roedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi'i ymrwymo o dan gynlluniau llofnodedig i dalu rhandaliadau grantiau plannu ac ailblannu gwerth £0.45 miliwn yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2003 (£3.3 miliwn yn 2001-02). Mae'r grantiau ar gyfer rheoli coetiroedd sy'n bodoli yn daladwy'n flynyddol fel ôl-ddyledion yn ystod oes pum mlynedd cynllun cymeradwy, cyhyd ag y bo amcanion a meini prawf oedran yn cael eu diwallu. Roedd yr ymrwymiadau i daliadau yn y dyfodol parthed cynlluniau cymeradwy yn £2.1 miliwn ar 31 Mawrth 2003 (£3.2 miliwn yn 2001-02). Roedd ceisiadau gwerth £3.2 miliwn (£nil yn 2001-02) ar gyfer grantiau plannu ac ailblannu yn disgwyl cymeradwyaeth ar 31 Mawrth 2003.

## 20. Rhwymedigaethau Amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2003 ar gyfer difrod a achoswyd i eiddo pobl eraill neu ar gyfer iawndal am anaf personol i weithwyr (£nil ar 31 Mawrth 2002).

## 21. Datganiad Colledion

Roedd cyfanswm y colledion yn £147,000 o 47 achos (£53,000 o 124 achos yn 2001-02).

Roedd cyfanswm y taliadau arbennig yn £120,000 o 16 achos (£61,000 o 15 achos yn 2001-02).

## 22. Trafodion â Chyrff ac Unigolion Cysylltiedig

Ystyrir asiantaeth weithredol y Comisiwn Coedwigaeth, Menter Coedwigaeth, yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Comisiwn Coedwigaeth nifer sylweddol o drafodion pwysig gyda Menter Coedwigaeth.

Yn ogystal, cafodd y Comisiwn Coedwigaeth amryw o drafodion pwysig gydag adrannau llywodraethol eraill a chyrff eraill llywodraeth ganolog. Y prif gyrff o fewn y llywodraeth y bu'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymwneud â hwy yw Trysorlys EM, Cynulliad Cymru, Gweithrediaeth yr Alban, Corff Cydlynol y DG, Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol, Tollau Tramor a Chartref, Cyllid y Wlad, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Yn ystod y flwyddyn tan 31 Mawrth 2003, bu Menter Coedwigaeth yn rhan o'r trafodion a ganlyn a oedd yn ymwneud â Chomisiynwyr Anweithredol y Comisiwn Coedwigaeth:-

Mae Mr Tom Bruce Jones yn gyfarwyddwr James Jones a'i Feibion Cyf a brynodd tua 335,770 metr ciwbig o bren a phlanhigion a hadau gwerth £5,978,000 gan Fenter Coedwigaeth. Y balans a oedd yn ddyledus oddi wrth Mr Jones ar 31 Mawrth 2003 oedd £nil.

# 23. Offerynnau Ariannol

Mae FRS 13, Derivatives and Other Financial Instruments, yn mynnu datgeliad o'r rhan y bu offerynnau ariannol yn ei chwarae yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau sy'n wynebu corff wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd bod ei weithgareddau yn anfasnachol eu natur i raddau helaeth ac oherwydd y ffordd y caiff adrannau'r llywodraeth eu hariannu, nid yw'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn agored i'r un graddau o risg ariannol a wynebir gan gyrff busnes. Ar ben hyn, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan llawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae FRS 13 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan yr adran unrhyw bwerau i fenthyca na buddsoddi cronfeydd gwarged ac mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac ni thybir iddynt newid y risgiau sy'n wynebu'r adran wrth ymgymryd â'i gweithgareddau.

**Risg hylifedd**

Mae Llywodraeth y DG yn darparu ar gyfer y defnydd o adnoddau gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, at ddibenion refeniw a chyfalaf, yn ei chyllideb ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Ni ellir defnyddio adnoddau ac adnoddau cronnol ond at y dibenion a nodir a hyd at y cyfansymiau a nodir yn y gyllideb. Hefyd, mae'r gyllideb yn nodi awdurdodiad ariannol cyffredinol i weithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol. Felly, nid yw'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn agored i risgiau hylifedd o bwys.

**Risg cyfradd-llog**

Nid yw'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn agored i risg cyfradd-llog.

**Risg arian tramor**

Nid yw'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn agored i risg arian tramor.

**Gwerthoedd Teg**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng gwerth ar bapur a gwerth teg ar gyfer yr arian yn y banc a ddangosir yn Nodyn 11. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y gwerth teg ar gyfer y darpariaethau a ddangosir yn Nodyn 13 a'r gwerth ar bapur oherwydd, wrth gyfrifo'r gwerth ar bapur, gostyngwyd y llifiannau arian disgwyliedig yn ôl cyfradd y Trysorlys o 6% mewn gwir werth.

# Y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru

## Y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddir gan y Trysorlys yn unol â Pharagraff 5 Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn paratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000 a blynyddoedd ariannol dilynol parthed ei weithgareddau yng Nghymru yn unol ag egwyddorion cyfrifo a gofynion datgelu Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau Trysorlys EM ("y Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau") sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

Bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi mewn modd a fydd yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r corff ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol dan sylw, a'r alldro adnoddau net, cymhwysiad adnoddau i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifiannau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny.

Bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau, ar wahân i amgylchiadau eithriadol, yn angenrheidiol er mwyn i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg. Os, oherwydd yr amgylchiadau eithriadol hyn, y bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau yn anghyson â'r gofyniad i roi darlun gwir a theg ni ddylid gwyro o ofynion y Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun gwir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid bod yn ddiduedd er mwyn sicrhau triniaeth amgen a phriodol, a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau. Dylid trafod unrhyw wyriad o bwys o'r Llawlyfr Cyfrifon Adnoddau yn y lle cyntaf â'r Trysorlys.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cymryd lle yr un a roddwyd i'r Comisiwn Coedwigaeth dyddiedig 26 Tachwedd 1993.

B Glicksman

**Swyddog Cyfrifon y Trysorlys**
25 Hydref 2000

# Menter Coedwigaeth yng Nghymru

## Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 63 |
| Datganiad Cyfrifoldebau'r Comisiwn Coedwigaeth a'r Prif Weithredwr | 67 |
| Datganiad ar Reolaeth Mewnol | 68 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru | 70 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 72 |
| Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig | 73 |
| Mantolen | 74 |
| Datganiad Llifiant Arian | 75 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 76 |
| Cyfarwyddyd Cyfrifon | 91 |

# Rhagair

**1. Cyfarwyddyd Cyfrifon**

Cafodd y cyfrifon ar gyfer Menter Coedwigaeth yng Nghymru eu paratoi yn ôl cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag Adran 97(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Rhoddir y cyfarwyddyd fel atodiad i'r cyfrifon.

**2. Gwybodaeth Gefndirol**

Daeth Menter Coedwigaeth yn asiantaeth weithredol ar 1 Ebrill 1996. Mae'n rheoli ystad goedwig yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Gweinidogion yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Menter Coedwigaeth yn rhan o'r Comisiwn Coedwigaeth sy'n adran lywodraethol drawsffiniol o dan arweinyddiaeth Bwrdd Comisiynwyr Coedwigaeth a sefydlwyd gan statud (Deddf Goedwigaeth 1967, fel y'i diwygiwyd). Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn atebol i'r Gweinidog Coedwigaeth priodol am ei weithgareddau.

Nid yw ei statws wedi newid yn dilyn datganoli ac eithrio ei bod wedi cynhyrchu tri chyfrif ar wahân ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o 1999-2000 ymlaen. Rhoddodd yr asiantaeth y gorau i weithredu ar 31 Mawrth 2003 a throsglwyddwyd ei chyfrifoldebau i gyrff ar wahân ym mhob gwlad ar 1 Ebrill 2003. Roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth ar gyfer Prydain gyfan a gytunwyd gan y tri Gweinidog Coedwigaeth ac a oedd yn galw am well integreiddiad o ddatblygu a gweithredu polisi'r Comisiwn Coedwigaeth i waith polisi gwledig arall y tair gwlad a datganoli Menter Coedwigaeth. Bydd gan bob asiantaeth newydd Brif Weithredwr sy'n atebol i Gyfarwyddwr y Comisiwn Coedwigaeth yn y wlad honno. Mae'r cyfrifon yn dal i gael eu paratoi ar sail busnes hyfyw oherwydd, er bod yr asiantaeth wedi rhoi'r gorau i weithredu, cafodd y cyfrifoldebau eu trosglwyddo i asiantaethau ar wahân.

At ddibenion cyfrifo cenedlaethol, gwnaed Menter Coedwigaeth yn gorfforaeth gyhoeddus ym mis Ionawr 1999 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn unol â System Cyfrifon Ewrop (ESA) 95. Ar ôl datganoli fe'i gwnaed yn dair corfforaeth gyhoeddus i fod yn gyfrifol am weithgareddau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. O'r herwydd, mae y tu allan i'r terfyn adrannol at ddibenion cyfrifo adnoddau ac mae'r cyllido net a gwerth net yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer Lloegr/Prydain, yr Alban a Chymru.

**3. Nodau ac Amcanion**

Disgrifir nodau ac amcanion Menter Coedwigaeth yn y Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 1996. Maent i gyflawni'r canlyniadau amgylcheddol, ariannol, cymdeithasol ac eraill a geisir gan Weinidogion a'r Comisiynwyr Coedwigaeth mewn ffordd sy'n bodloni amcanion ac ymrwymiadau rhyngwladol y Llywodraeth ac sy'n cynnal ansawdd yr amgylchedd a hefyd botensial yr ystad goedwig o ran cynhyrchu.

Bydd cwblhau'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth yn caniatáu ailgychwyn y broses a gychwynnwyd gan arolwg pum mlynedd o'r asiantaeth, o bennu cyfres newydd o amcanion a mesuriadau perfformiad ar gyfer pob asiantaeth gwlad. Mae'r gwaith yn hollbwysig i'r asiantaethau a bydd yn rhoi cyfle i fynegi'n glir swyddogaeth yr ystad goedwig gyhoeddus a datblygu ar sail gwlad gyfres o amcanion, canlyniadau a mesuriadau perfformiad priodol sy'n adlewyrchu'r cyfraniad y gall yr asiantaethau ei wneud i gyflawni strategaethau coedwigaeth, ac agendâu perthynol eraill gweinyddiaethau Cymru, Lloegr a'r Alban.

Dangosir y targedau perfformiad ariannol a bennwyd i Fenter Coedwigaeth yng Nghymru gan y Comisiynwyr Coedwigaeth a'r cyrhaeddiad yn ôl y targedau hyn yn nodyn 90 i'r cyfrifon.

**4 Adolygiad o'r Prif Weithgareddau**

Ar y cyfan, bu'n well blwyddyn i'r sector paneli pren ym Mhrydain a chafwyd prisiau uwch am rai graddau pren wedi'i lifio. Roedd galw isel yn dilyn colli nifer o farchnadoedd allweddol, mwy o bren ar gael ar y farchnad a phrisiau paledi, pren ffensio, sglodion a chyd-gynhyrchion yn cael eu gwthio i lawr wedi golygu bod prisiau pren crwn wedi dal i ddioddef. Yn ystod y flwyddyn cafwyd gostyngiad o tua 7% ym mhrisiau cyfartalog boncyffion a gostyngiad o 18% ym mhrisiau coed heb eu cwympo, sy'n golygu taw dyna'r prisiau isaf erioed. Bellach, mae'r prisiau ar gyfer boncyffion i'w llifio yn werth 54% o'r prisiau yn 1995, ac mae coed heb eu cwympo yn werth ond 27% o'r pris yn 1995.

Cafwyd adferiad llwyr ar ôl clwy'r traed a'r genau yn 2001 gyda chyfleusterau hamdden ar gael drwy gydol y flwyddyn ac incwm gwell o lawer.

Parhaodd y gwaith o ddatblygu mentrau twristiaeth, hamdden ac iechyd, gan gynnwys amrediad o brosiectau partneriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am weithgareddau Menter Coedwigaeth yng Nghymru yn yr Adroddiad Blynyddol.

**5. Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn**

Roedd gan Fenter Coedwigaeth yng Nghymru ddiffyg net o £21,326,000 ar ei Chyfrif Incwm a Gwariant mewn cymhariaeth â £19,867,000 yn 2001-02. Mae cymharu incwm a gwariant â'r flwyddyn flaenorol yn dangos:

- Cafwyd gostyngiad o £201,000 yn y diffyg gweithredu. Cafwyd cynnydd o £357,000 yn yr incwm gweithredol, yn bennaf oherwydd cynnydd yn incwm Gwyliau'r Goedwig ac yn incwm gwaith ar gyfer Adran Briffyrdd Cymru. Cafwyd cynnydd o £156,000 mewn gwariant a oedd yn cynnwys trosglwyddo cymwysiadau cronfa ailbrisiad wrth gefn gwerth £33,000 i'r cyfrif incwm a gwariant. Rhoddir manylion pellach yn Nodyn 8 i'r Rhagair a Nodiadau 1B a 13 i'r Cyfrifon.

- Cafwyd cynnydd o £2,436,000 yn y gwariant net ar hamdden, cadwraeth a threftadaeth er mwyn cyflawni mentrau ychwanegol wedi'u cefnogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi'i ariannu trwy amryw ffynonellau o nawdd a chymorth grant. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau ar gyfer datblygu twristiaeth, hamdden, iechyd, ymgynghori cymunedol ac addysg goetir.

- Diffyg o £30,000 ar werthu eiddo mewn cymhariaeth â diffyg y llynedd o £156,000.

- Gostyngiad o £650,000 mewn cost cyfalaf, yn bennaf fel canlyniad i werth asedol gostyngol yr ystad goedwig (gweler Nodyn 8 i'r Rhagair).

Ar ôl cymhwyso'r cyfanswm diffyg net ar gyfer eitemau nad oedd yn ymwneud â symud arian ac ar gyfer gwariant cyfalaf ac incwm, roedd y cyllid arian net a gafwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth yn £11,500,000 mewn cymhariaeth â £9,283,000 yn 2001-02. Cafwyd gostyngiad o £403,000 yn y gwariant cyfalaf net oherwydd prynwyd llai o gerbydau a pheiriannau a gwerthwyd llai o eiddo.

**6. Digwyddiadau Ôl-fantolen**

Ni cheir unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen ac eithrio canlyniad yr Adolygiad Datganoli Coedwigaeth a nodir ym mharagraff 2.

**7. Datblygiadau ar gyfer y Dyfodol**

Gyda Menter Coedwigaeth yn rhoi'r gorau i weithredu ar 31 Mawrth 2003, bydd 2003-04 yn flwyddyn drawsnewidiol pan fydd coetiroedd y Cynulliad yn cael eu rheoli gan Asiantaeth Rheoli Coedwigoedd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn drawsnewidiol hon gofynnwyd i'r Comisiwn Coedwigaeth adolygu statws yr Asiantaeth a chynghori'r Gweinidog ynghylch strwythur y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

Disgwylir i'r amodau anodd yn y farchnad bren barhau i mewn i 2003-04.

**8. Asedau Sefydlog**

Roedd yr ystad goedwig yn destun ailbrisiad proffesiynol llawn ar 31 Mawrth 2003 gan banel prisiad gwlad yn cynnwys John Clegg a'i Gwmni, Raymond-Barker a'i Gwmni ac asiantau tir cymwysedig wedi'u cyflogi gan y Comisiwn Coedwigaeth. Mae ei gwerth cyfredol o ran defnydd o £131,607,000 wedi gostwng 40% oddi ar yr ailbrisiad blaenorol yn 1998, sy'n adlewyrchu'r cwymp sylweddol ym mhrisiau pren yn ystod yr un cyfnod o bum mlynedd. Rhoddwyd cyfrif am £81,903,000 o'r cymhwysiad yn flynyddol, gan gynnwys ychwanegiadau, gwarediadau a throsglwyddiadau yn y flwyddyn, o 1998 trwy ddefnyddio barnau proffesiynol interim. Cynhwysir cymhwysiad blwyddyn terfynol o £15,256,000, gan gynnwys ychwanegiadau a gwarediadau, yn y cyfrifon hyn. Mae cyfanswm o £26,610,000 yn y gronfa ailbrisiad wrth gefn o hyd cyn y byddai'n rhaid priodoli unrhyw ostyngiad pellach yng ngwerth yr ystad goedwig yn uniongyrchol i'r cyfrif incwm a gwariant.

Cafodd 246 hectar o dir nad yw'n goedwig ei gaffael yn ystod y flwyddyn. Cafwyd ychydig o gynnydd, sef £310,000, yn ailbrisiad tir nad yw'n goedwig, yn seiliedig ar fynegai'r tir amaethyddol digymwyster a ddarperir gan y Prisiwr Dosbarth.

Roedd yr ychwanegiadau i anheddau ac adeiladau eraill yn gyfrifol am £81,000. Cafwyd cynnydd o £370,000 yng ngwerth yr asedau ar ôl eu hailbrisio gan ddefnyddio mynegai a ddarparwyd gan y Prisiwr Dosbarth.

Cafwyd cynnydd o £13,000 yng ngwerth tir ac adeiladau Gwyliau'r Goedwig ar ôl ailbrisiad gan Barrs a'r Cwmni o Leeds.

Gwariwyd £319,000 ar brynu cerbydau, peiriannau a chyfarpar coedwig (VME) mewn cymhariaeth â gwarediadau a throsglwyddiadau net o £152,000. Cafwyd cynnydd o £97,000 yng ngwerth asedau yn dilyn ailbrisiad yn seiliedig ar brisiad peiriannau coedwig arbenigol gan staff proffesiynol mewnol a defnyddio mynegai a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr holl asedau eraill.

Roedd yr ychwanegiadau at beiriannau a chyfarpar swyddfa (OME) yn werth £145,000. Ailbrisiwyd OME trwy ddefnyddio mynegai a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**9. Ymchwil a Datblygu**

Mae Ymchwil Goedwigaeth, asiantaeth weithredol i'r Comisiwn Coedwigaeth, yn gyfrifol am gynnal ymchwil goedwig a gwaith cysylltiedig. Bydd Menter Coedwigaeth yn comisiynu ymchwil trwy'r asiantaeth a thrwy gontractau allanol a ddyfernir trwy wahanol ffyrdd gan gynnwys tendro agored. Er y cafodd coedwigaeth ei datganoli, mae Ymchwil Goedwigaeth yn cael ei hariannu o hyd o San Steffan.

**10. Pensiynau**

Mae gweithwyr a chyn-weithwyr y Comisiwn Coedwigaeth yn perthyn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Rhoddir statws ariannol y cynllun mewn datganiad cynllun PCSPS ar wahân. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan fydd yn elwa ar wasanaethau gweithwyr trwy dalu i'r PCSPS symiau wedi'u cyfrifo ar sail gronnol. Mae'r cyfrifoldeb am dalu buddion yn y dyfodol yn cwympo ar y PCSPS.

**11. Polisi Talu Cyflenwyr**

Mae Menter Coedwigaeth yn cydymffurfio â Cod Arfer Talu'n Well y Llywodraeth. Oni nodir yn wahanol yn y contract, rydym yn anelu at dalu o fewn 30 niwrnod i dderbyn nwyddau a gwasanaethau neu gyflwyniad anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Mae dadansoddiad sampl ar gyfer 2002-03 yn dangos fod 96.7% o'r anfonebau wedi'u talu mewn pryd. Hysbysir cyflenwyr ar eu contractau am drefniadau ar gyfer trafod cwynion ynghylch cyflawni taliadau.

Ni chafodd unrhyw log ei dalu o dan Ddeddf Talu Dyledion (Llog) Masnachol yn Hwyr 1998.

**12. Polisïau Cyflogaeth**

Mae Menter Coedwigaeth wedi ymrwymo i egwyddor cyfle cyfartal o ran cyflogi a dyrchafu pawb sy’n gymwys ar sail eu gallu a chymwysterau a bod yn gymwys i weithio. Mae gan y Comisiwn systemau i ofalu bod yr holl benodiadau parhaol yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored ac yn unol â chanllawiau Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Mae gwybodaeth bellach am gyflogi pobl ag anableddau, darparu gwybodaeth i weithwyr ac ymgynghori â hwy, a hybu cyfle cyfartal ar gael, ar gais, gan uned Gwasanaethau Personél y Comisiwn Coedwigaeth.

**13. Bwrdd y Rheolwyr**

Aelodau Bwrdd Rheolwyr Menter Coedwigaeth yn ystod y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| Bob McIntosh | Prif Weithredwr |
| Bob Farmer | Cyfarwyddwr Tiriogaethol Cymru |
| Geoff Hatfield | Cyfarwyddwr Tiriogaethol Lloegr |
| Hugh Insley | Cyfarwyddwr Tiriogaethol Yr Alban (Gogledd) |
| Mike Lofthouse | Cyfarwyddwr Tiriogaethol Yr Alban (De) |
| Ian Forshaw | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Coedwig |
| Keith Gliddon | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Craig Heaney | Cyfarwyddwr Peirianneg |
| Peter Ranken | Cyfarwyddwr Rheolaeth Ystad |
| Alan Stevenson | Pennaeth yr Amgylchedd a Chyfathrebu |
| Peter Weston | Pennaeth Dros Dro, Cynllunio Coedwigoedd |

**14. Archwilwyr**

Archwilir y cyfrifon hyn gan yr Archwiliwr Cyffredinol i Gymru.

R McIntosh
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo’r Asiantaeth
17 Tachwedd 2003

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Comisiwn Coedwigaeth a'r Prif Weithredwr

1. O dan Adran 97(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Comisiwn Coedwigaeth i baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer Menter Coedwigaeth yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y cyfarwyddyd cyfrifon yn Atodiad 1 i'r cyfrifon hyn. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnol a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o Fenter Coedwigaeth yng Nghymru ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a gwariant a llifiannau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

2. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Comisiwn Coedwigaeth:

- ufuddhau y cyfarwyddyd cyfrifon yn Atodiad 1 i'r datganiadau ariannol hyn, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- llunio barn a phennu amcangyfrifon yn rhesymol;
- datgan a ddiwallwyd safonau cyfrifo perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd Menter Coedwigaeth yn dal i weithredu.

3. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Coedwigaeth, fel Prif Swyddog Cyfrifo yr adran, wedi penodi Prif Weithredwr Menter Coedwigaeth yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer yr Asiantaeth. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am wedduster a chysondeb cyllid cyhoeddus ac am gadw cofnodion dilys, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddir gan y Trysorlys ac sy'n ymddangos yn "Government Accounting" (Llyfrfa Ei Mawrhydi).

# Datganiad am Reolaeth Fewnol

1. Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion adrannol, a bennwyd gan Weinidogion, ac ar yr un pryd yn diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau adrannol sy'n gyfrifoldeb personol i mi, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi.

2. Nod y system reolaeth fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu'r risg o fethiant er mwyn cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, ni all ddarparu ond sicrwydd rhesymol yn hytrach na llwyr o fod yn effeithlon.

3. Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n anelu at adnabod y prif risgiau i gyflawniad polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth, cloriannu natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r broses hon wedi bod yn gweithredu ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003 a than ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys.

4. Rydym wedi cytuno ar bolisi rheoli risg ac wedi'i gyhoeddi. Gan weithio gyda rheolwyr cyfrifol, rydym wedi datblygu cofrestr risgiau ar gyfer y prif risgiau i gyflawniad polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth. Mae hon yn nodi'r risgiau, digonolrwydd y rheoli ac unrhyw weithredu cywirol sydd eu hangen. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan Fwrdd Rheoli Menter Coedwigaeth ac rydym wedi cynnal asesiad llawn o risg a rheolaeth cyn adrodd am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2003.

5. Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb hefyd dros adolygu effeithlonrwydd y system reolaeth fewnol. Sefydlodd yr Asiantaeth y prosesau a ganlyn a fu'n gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol:

- Cyfarfu Bwrdd Rheoli Menter Coedwigaeth yn fisol i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol yr Asiantaeth. Derbyniodd y Bwrdd Rheoli adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ynghylch prosiectau allweddol. Sicrhaodd y polisi rheoli risg fod y Bwrdd Rheoli yn cynnwys rheoli risg ymhlith ei gyfrifoldebau a chafodd y dasg ffurfiol o'i adolygu.
- Roedd gan yr Asiantaeth Bwyllgor Archwilio a fu'n adolygu materion yn ymwneud â risg a rheolaeth fewnol oddi mewn i'r Asiantaeth. Roedd gan y Comisiwn Coedwigaeth Bwyllgor Archwilio rhychwantol dan gadeiryddiaeth Comisiynwr Coedwigaeth anweithredol. Ymhlith ei gyfrifoldebau oedd cynghori am effeithlonrwydd rheoli risg ledled y Comisiwn a'i Asiantaethau. Ar hyn o bryd mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol yn cael ei adrodd yn flynyddol i Fwrdd llawn y Comisiynwyr; yn y dyfodol caiff hyn ei helaethu i gynnwys holl fusnes Pwyllgor Archwilio rhychwantol y Comisiwn Coedwigaeth.
- Mae gan y Comisiwn Coedwigaeth Uned Archwilio Fewnol, sy'n gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Mae'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys barn annibynnol Pennaeth yr Archwiliad Mewnol am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd system yr Asiantaeth o reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion am welliant.
- Cafodd y pwnc o reoli risg ei gyflwyno i gyfres o seminarau ymwybyddiaeth ariannol a fynychwyd gan staff o bob gradd â chyfrifoldebau ariannol. Cwblhawyd y gyfres erbyn Rhagfyr 2002 ac erbyn hyn fe ddaeth y seminar yn rhan o'n prosbectws hyfforddiant mewnol sydd ar gael i'r holl staff.

6. Mae f'adolygiad o effeithlonrwydd y system reolaeth fewnol yn cael ei fwydo gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn yr Asiantaeth sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith reolaeth fewnol a'r sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyrau rheolaeth ac adroddiadau eraill.

7. O 1 Ebrill 2003 mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi penodi Cyfarwyddwyr newydd ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Bydd y Cyfarwyddwyr yn dwyn cyfrifoldeb am holl weithgareddau'r Comisiwn Coedwigaeth yn y wlad berthnasol, yn benodol llunio polisi, cymorth grantiau, rheoleiddio a rheoli'r ystad goedwig. Mae'r datblygiad hwn yn dilyn canlyniad adolygiad rhyngadrannol cynhwysfawr o'r trefniadau gweinyddol ar gyfer datblygu polisïau coedwigaeth gynaladwy ar ôl datganoli. Cafodd y system reolaeth fewnol ei hailgynllunio er mwyn adlewyrchu'r newid yn y strwythur a bydd yn golygu:

- Bydd Bwrdd y Comisiynwyr a Bwrdd Gweithredol y Comisiwn Coedwigaeth yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y Comisiwn. Bydd y Pwyllgorau Cenedlaethol a Byrddau Gweithredol y Gwledydd yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried y cynlluniau a'r cyfeiriad strategol ar gyfer pob gwlad. Bydd y Byrddau'n derbyn adroddiadau rheolaidd gan eu rheolwyr ynghylch prosiectau allweddol.

- Bydd y Pwyllgor Archwilio rhychwantol yn cynnwys un Comisiynwr anweithredol o bob gwlad. Bydd ei gyfrifoldebau'n cynnwys cynghori ynghylch effeithlonrwydd rheoli risg ledled y Comisiwn a'i asiantaethau. Bydd pob gwlad (ac Ymchwil Goedwigaeth) yn gweithredu eu pwyllgorau rheolaeth fewnol eu hunain i gynghori'r Swyddog Cyfrifo/Cyfrifol ynghylch effeithlonrwydd rheoli risg.

- Bydd aelodau Byrddau Gweithredol y Gwledydd yn cael ei briffio ynghylch llywodraethiant corfforaethol a rheoli risg.

- Bydd cofrestri risg ar wahân yn gweithredu ar gyfer pob gwlad, yr asiantaeth rheoli coedwigoedd oddi mewn i bob gwlad, Ymchwil Goedwigaeth ac adran graidd Prydain.

R McIntosh
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Asiantaeth
17 Tachwedd 2003

# Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol i Gymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cadarnhaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 72 i 90 yn unol â pharagraff 6 atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan ailbrisiad asedau sefydlog penodol a stociau a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 76 i 79.

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwiliwr**

Yn unol â'r disgrifiad ar dudalen 67, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir yn ôl y gofynion hynny ac yn gyfrifol hefyd am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol hefyd am baratoi cynnwys arall y Cyfrifon. Sefydlir fy nghyfrifoldebau, fel archwiliwr annibynnol, yn statudol dan arweiniad y Bwrdd Arferion Cyfrifo a chanllawiau moesegol y proffesiwn archwilio.

Yr wyf yn adrodd fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac yn cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir yn unol â'r gofynion ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd ar eu cyfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Yr wyf hefyd yn adrodd os, yn fy marn i, nad yw'r Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Adran wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer f'archwiliad.

Yr wyf yn darllen yr wybodaeth arall yn y Cyfrifon ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Yr wyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os wyf yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau o bwys mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Yr wyf yn adolygu a yw'r datganiad ar dudalen 68 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Adran â chanllawiau'r Trysorlys 'Corporate Governance: Statement on Internal Control'. Yr wyf yn adrodd os nad yw'n diwallu'r gofynion a nodir gan y Trysorlys neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth sy'n hysbys i mi neu â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sail barn yr archwiliad**

Cynhaliais f'archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Gyfunol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Cyfrifo. Mae archwiliad yn cynnwys archwiliad, ar sail profion, o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a barnau arwyddocaol a wneir gan yr Adran wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a ydyw'r polisïau cyfrifon yn briodol i amgylchiadau'r Adran, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais f'archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau a oedd, yn fy nhyb i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd camgymeriad neu dwyll neu anghysonder arall, a bod y gwariant ac incwm, ym mhob ffordd berthnasol, wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli. Wrth lunio fy marn yr wyf hefyd wedi cloriannu digonolrwydd cyffredinol cyflwyniad yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru ar 31 Mawrth 2003 ac o'r alldro adnoddau net, cymhwysiad adnoddau i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifiannau arian ar gyfer y flwyddyn a oedd wedi dod i ben erbyn hynny, a chawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan honno; a
- cafodd y gwariant a'r incwm eu defnyddio, ym mhob ffordd berthnasol, i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli. .

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Archwilwr Cyffredinol i Gymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2003

# Menter Coedwigaeth yng Nghymru

## Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002-03 | | 2001-02 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | | £000 | |
| **Incwm Gweithredol** | | | | | |
| Gwerthiannau Pren | | 15,882 | | 15,831 | |
| Gwarchod a Chynnal Coedwigoedd | | 103 | | 32 | |
| Rheoli a Datblygu'r Ystad | 2b | 3,065 | | 2,830 | |
| | | 19,050 | | 18,693 | |
| **Gwariant Gweithredol** | | | | | |
| Cynllunio Coedwigoedd | | 2,123 | | 2,305 | |
| Cynaeafu a Chludo Pren | | 10,730 | | 10,337 | |
| Ffyrdd Coedwig | | 1,886 | | 1,674 | |
| Gwarchod a Chynnal Coedwigoedd | | 5,530 | | 5,306 | |
| Rheoli a Datblygu'r Ystad | 2b | 5,071 | | 5,562 | |
| | | 25,340 | | 25,184 | |
| **Diffyg Gweithredol** | | (6,290) | | (6,491) | |
| **Hamdden, Cadwraeth a Threftadaeth** | | | | | |
| Incwm | | 1,542 | | 952 | |
| Gwariant | | 7,394 | | 4,368 | |
| | | (5,852) | | (3,416) | |
| **Diffyg Gweithredu Net o Hamdden, Cadwraeth a Threftadaeth** | | | (12,142) | | (9,907) |
| Gwarged ar werthu eiddo | 4 | (30) | | (156) | |
| Diffyg | | (12,172) | | (10,063) | |
| Cost cyfalaf dybiannol | 5 | (9,154) | | (9,804) | |
| **Diffyg net ar gyfer y flwyddyn** | | (21,326) | | (19,867) | |
| Trosglwyddwyd i'r Gronfa Gyffredinol | | (21,326) | | (19,867) | |

Ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau a gweithgareddau terfynedig yn ystod y flwyddyn

Mae'r nodiadau ar dudalennau 76 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Menter Coedwigaeth yng Nghymru

Datganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002-03<br>£000 | 2001-02<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Diffyg net ar gyfer y flwyddyn | | (21,326) | (19,867) |
| Gwarged ailbrisiad cyflawnedig | | 2,096 | - |
| Diffyg ailbrisiad ar gyfer y flwyddyn | 13 | (14,711) | (5,111) |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn** | | **(33,941)** | **(24,978)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 76 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Menter Coedwigaeth yng Nghymru

## Mantolen
## ar 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002-03 £000 | 2001-02 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 6 | 142,058 | 157,086 |
| Asedau anniriaethol | | - | - |
| | | **142,058** | 157,086 |
| Dyledwyr (symiau sy'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn) | 8 | 19 | 22 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Stociau | 7 | 1,816 | 1,703 |
| Dyledwyr | 8 | 4,559 | 4,610 |
| Arian mewn banciau ac mewn llaw | 9 | - | - |
| | | **6,375** | 6,313 |
| **Credydwyr** (symiau'n daladwy o fewn blwyddyn) | 10 | (2,796) | (2,983) |
| **Asedau Cyfredol Net** | | **3,579** | 3,330 |
| **Credydwyr** (symiau'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn) | 10 | (361) | - |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion a Chodiannau | 11 | (476) | (138) |
| | | (837) | (138) |
| **Cyfanswm Asedau llai Dyledion** | | **144,819** | 160,300 |
| **Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 12 | 117,144 | 115,818 |
| Cronfa ailbrisiad wrth gefn | 13 | 27,675 | 44,482 |
| **Cyfanswm Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn** | | **144,819** | 160,300 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 76 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn

R McIntosh
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Asiantaeth
17 Tachwedd 2003

# Menter Coedwigaeth yng Nghymru

## Datganiad Llif Arian
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| **Cysoniad Diffyg Net i Weithredu Llifiannau Arian** | | | |
| Diffyg net ar gyfer y flwyddyn | | (21,326) | (19,867) |
| Cost cyfalaf dybiannol | | 9,154 | 9,804 |
| Codiannau dibrisiad | | 746 | 769 |
| Cymwysiadau cronfa ailbrisiad wrth gefn | 13 | 33 | - |
| (Elw)/colled ar werthu eiddo | 4 | (38) | 55 |
| (Elw)/colled ar werthu asedau sefydlog diiriaethol eraill | | 13 | 132 |
| Trosglwyddiadau anariannol rhwng gwledydd | 12 | (99) | (327) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stociau | | (113) | (283) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | | 54 | 215 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr | | (39) | 795 |
| Defnyddio darpariaethau | | 338 | 58 |
| **All-lif arian o weithgareddau gweithredol** | | **(11,277)** | (8,649) |
| | | | |
| **Datganiad Llif Arian** | | | |
| All-lif arian net o weithgareddau gweithredol | | (11,277) | (8,649) |
| | | | |
| **Cyfalaf** | | | |
| Plannu newydd | | - | (5) |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diiriaethol | | (648) | (1,234) |
| Derbyniadau o werthu eiddo | 4 | 286 | 604 |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog diiriaethol eraill | | 139 | - |
| **Cyfalaf Net** | | **(223)** | (635) |
| | | | |
| **All-lif arian Net ar ôl Cyfalaf** | | **(11,500)** | (9,284) |
| | | | |
| **Ariannu** | | | |
| Diffyg wedi'i ariannu gan y Comisiwn Coedwigaeth | | 11,500 | 9,283 |
| | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian | | - | (1) |
| | | | |
| **Cysoniad Llif Arian Net i symudiad mewn Cronfeydd Net** | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian | | - | (1) |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2002 | | - | 1 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2003** | | - | - |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 76 i 90 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## Nodyn 1 Polisïau cyfrifo

### a. Confensiwn Cyfrifo

Yn unol ag Adran 97(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, caiff y cyfrifon eu llunio ar ffurf wedi'i chytuno a'i chymeradwyo gan y Trysorlys. Caiff y cyfrifon eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol a addaswyd trwy gynnwys prisiad asedau. Heb gyfyngu'r wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn diwallu gofynion y Ddeddf Cwmnïau a'r Safonau Adroddiadau Ariannol pan fo hynny'n berthnasol.

### b. Asedau Sefydlog Diriaethol

Ymddiriedir perchnogaeth gyfreithiol yr holl dir ac adeiladau i'r Cynulliad Cenedlaethol ac ymddiriedir perchnogaeth gyfreithiol y pren, gan gynnwys coed heb eu torri, i'r Comisiynwyr Coedwigaeth. Pan fo'r asiantaeth yn brif ddefnyddiwr buddiol asedau ystad y Comisiwn Coedwigaeth, cânt eu trin fel ased sefydlog yr asiantaeth.

**Ystad goedwig**

Oddi ar 31 Mawrth 1993, cafodd yr ystad goedwig ei phrisio ar sail y gwerth ar y farchnad agored. Bu paneli prisio rhanbarthol, yn cynnwys asiant tir y Comisiwn Coedwigaeth a dau gwmni o'r sector preifat, yn ei phrisio bob pum mlynedd fesul rhanbarth goedwig gan ystyried cymysgedd y rhywogaethau, oedran, dosbarth cynhyrchiant a ffactorau perthnasol eraill. Gwnaed y prisio ar y sail bod yr ystad goedwig yn cael ei gwerthu mewn ffordd drefnus megis rhwng gwerthwr parod a phrynwr parod yn hollol unol ag atebolrwydd cyhoeddus gan dybio bod y defnydd ohoni fel y mae ar hyn o bryd. Tybiwyd hefyd nad oedd unrhyw gyfyngiadau yn bodoli fel y maent yn ymarferol, o berchnogaeth, statud ac ystyriaethau amgylcheddol.

At ddibenion y prisio ar 31 Mawrth 2003, cafodd y paneli eu had-drefnu'n baneli gwledydd a oedd yn cynnwys asiant tir y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer y wlad a dau brisiwr allanol dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Rheolaeth Ystad. Cytunodd y paneli y dylid gwneud y prisio ar sail y gwerth yn ôl y defnydd cyfredol oherwydd gwneir y prisio at ddibenion cyfrifon y cwmni ac maent yn asedau anarbenigol a ddefnyddir gan berchnogion y budd at ddibenion y busnes. Gwnaed y prisio yn unol â Safonau Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr (y "Llyfr Coch") a chyfarwyddyd prisio wedi'i gytuno gan bob panel. Cyflwynwyd tystysgrif brisio gan bob panel er mwyn cadarnhau nad oedd unrhyw wahaniaeth o bwys rhwng dulliau prisio gwerth yn ôl y defnydd cyfredol a gwerth ar y farchnad agored.

Yn absenoldeb mynegai blynyddol yn seiliedig ar goedwigaeth, cafodd y Comisiwn Coedwigaeth farn broffesiynol allanol o'r gwerth ar y farchnad agored rhwng 1998 a 2003, a oedd y tu hwnt i ganllawiau Llyfr Coch Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr ac a wnaed heb ymgynghori â'r paneli prisio a wnaeth yr ailbrisiad pum-mlynyddol. Bydd y polisi hwn yn dal i weithredu yn ystod y cyfnod tan yr ailbrisiad llawn nesaf ar 31 Mawrth 2008.

**Tir Di-goedwig**

Asesir tir di-goedwig bob tair blynedd gan staff sy'n broffesiynol gymwys ac a gyflogir gan y Comisiwn Coedwigaeth trwy ddilyn yr egwyddorion a nodir yn Llyfr Coch Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr. Pryd bynnag y bo modd, bydd tir di-goedwig yn cael ei brisio ar sail ei werth ar y farchnad agored gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol a allai effeithio ar y gwerth. Caiff ei ailddatgan i'w werth cyfredol yn y blynyddoedd yn y canol trwy ddefnyddio mynegai tir amaethyddol digymwyster wedi'i ddarparu gan y Prisiwr Dosbarth.

**Anheddau ac Adeiladau Eraill**

Asesir anheddau ac adeiladau eraill bob tair blynedd gan staff â chymwysterau proffesiynol a gyflogir gan y Comisiwn Coedwigaeth trwy ddilyn yr egwyddorion a nodir yn Llyfr Coch Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr. Pryd bynnag y bo modd, caiff anheddau ac adeiladau eraill eu prisio yn ôl eu gwerth ar y farchnad agored gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol a all effeithio ar y gwerth. Yn yr achosion anfynych hynny pan nad oes modd asesu'r gwerth ar y farchnad agored cânt eu hasesu yn ôl y gost adnewyddu ar ôl dibrisio. Cânt eu hailddatgan i'w gwerth cyfredol yn y blynyddoedd yn y canol trwy ddefnyddio mynegai wedi'i ddarparu gan y Prisiwr Dosbarth.

Y trothwy arferol ar gyfer cyfalafu adeiladau yw £2,000.

**Tir ac Adeiladau Gwyliau'r Goedwig**

Caiff tir ac adeiladau Gwyliau'r Goedwig eu hailddatgan i'w gwerth cyfredol bob blwyddyn trwy ddefnyddio prisiadau cwmni sy'n arbenigo mewn busnesau hamdden.

**Offer a Pheiriannau**

Bydd cerbydau, peiriannau a chyfarpar coedwigaeth yn cael eu hailbrisio bob tair blynedd gan staff â chymwysterau proffesiynol a gyflogir gan y Comisiwn Coedwigaeth. Cânt eu hailddatgan i'w gwerth cyfredol yn y blynyddoedd yn y canol trwy ddefnyddio prisiannau wedi'u darparu gan staff mewnol â chymwysterau proffesiynol ar gyfer peiriannau coedwigaeth arbenigol a mynegeion wedi'u darparu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr holl asedau eraill.

Y trothwy arferol ar gyfer cyfalafu asedau yw £3,000.

**Gosodion a Ffitiadau**

Caiff gwerthoedd peiriannau a chyfarpar swyddfa (OME) eu hailddatgan i'w gwerthoedd cyfredol bob blwyddyn trwy ddefnyddio mynegeion wedi'u darparu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Y trothwy arferol ar gyfer cyfalafu asedau yw £1,500.

**Cronfa Ailbrisiad Wrth Gefn**

Cafodd y gronfa ailbrisiad wrth gefn ei hailddatgan ar 31 Mawrth 1993 pan newidiwyd sail cyfrifo'r ystad goedwig i werth y farchnad agored. Pan sefydlwyd yr asiantaeth, dygwyd ymlaen y balans ar 31 Mawrth 1996 fel balans y gronfa ailbrisiad wrth gefn ond ni chafodd ei ddosbarthu rhwng dosbarthiadau'r asedau. Rhannwyd y balans ar 31 Mawrth 2001 rhwng y dosbarthiadau asedau, ar wahân i'r balans ar gyfer tir di-goedwig ac anheddau ac adeiladau eraill. Yn dilyn adolygiad arall o falansau'r gronfa ailbrisiad wrth gefn ar 31 Mawrth 2003, mae'r cymwysiadau i bob dosbarth ased yn cydymffurfio'n llawn ag FRS 11 ac FRS 15 o 1 Ebrill 2003. Mae nodyn 13 yn rhoi manylion pellach am y cymwysiadau.

O 1 Ebrill 2003, cymhwysir y gronfa ailbrisiad wrth gefn ar gyfer pob dosbarth o ased yn rheolaidd er mwyn ystyried pob gwarediad, yn ogystal â chymwysiadau rheolaidd ar gyfer symudiadau prisiau, er mwyn cydymffurfio ag FRS 11 ac FRS 15. Cyfrifir y cymhwysiad i gronfa ailbrisiad wrth gefn yr ystad goedwig fesul achos gan ddefnyddio prisiad dosbarth priodol ar gyfer coedwig yn seiliedig ar gymysgedd y rhywogaethau, oedran a dosbarth cynhyrchiant.

## C, Dibrisiad Asedau Diriaethol Sefydlog

Ni ddibrisir yr ystad goedwig, na'r tir rhydd-ddaliol na'r tir prydlesol.

Darperir dibrisiad ar yr holl asedau sefydlog diriaethol eraill ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu'r prisiad, llai amcangyfrif o'r gwerthoedd gweddilliol, o bob ased yn wastad yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Mae oes pob ased fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau rhydd-ddaliol | dros 1 i 60 mlynedd |
| Adeiladau prydlesol | y lleiaf o blith tymor annarfodedig y brydles a 60 mlynedd |
| Cerbydau, peiriannau a chyfarpar coedwigaeth | dros 3 i 16 mlynedd |
| Peiriannau a chyfarpar swyddfa | dros 4 i 20 mlynedd |

## D. Asedau Anniriaethol Sefydlog

Nid oes unrhyw asedau anniriaethol yn y cyfrifon. Dosrennir meddalwedd a brynwyd, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd, a chostau datblygu systemau cyfrifiadurol, i'r cyfrif incwm a gwariant yng nghyfnod eu digwydd.

## E. Stociau

Caiff nwyddau gorffenedig a gwaith sydd ar y gweill eu prisio fel a ganlyn:-

a. pren yn ôl cost cynhyrchu;
b. hadau yn ôl y gost leiaf o gasglu neu'r gwerth pris gwerthadwy;
c. planhigion a da byw yn ôl y gwerth gwerthadwy net;
d. defnyddiau a chyflenwadau traul yn ôl y gost amnewid gyfredol.

Mae'r gost o gynhyrchu a chasglu yn cynnwys llafur a threuliau gweinyddol i'w priodoli yn seiliedig ar y lefel arferol o weithgaredd. Mae'r gwerth pris gwerthadwy net yn seiliedig ar amcangyfrifon o brisiau gwerthu , llai'r costau ychwanegol a ddisgwylir cyn cwblhau a gwaredu.

## F. Darparu ar gyfer Drwgddyledion a Dyledion Amheus

Neilltuir darpariaethau ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus ar sail adolygiad blynyddol.

## G. Ymchwil a Datblygu

Bydd y gwariant ar ymchwil a datblygu'n cael ei drin fel cost gweithredu yn y flwyddyn y digwyddodd ac yn cael ei drosglwyddo i'r cyfrif incwm a gwariant.

## H. Codiant Cyfalaf

Cafodd codiant damcaniaethol, yn adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan Fenter Coedwigaeth yng Nghymru, ei gynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant. Cyfrifir y codiant yn ôl cyfradd safonol y Llywodraeth o 6% mewn gwir werth ar gyfanswm cyfartalog yr holl asedau llai ymrwymiadau, ac eithrio ar gyfer balansau arian a ddelir gan Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol. Newidiodd cyfradd y Llywodraeth i 3.5% ar 1 Ebrill 2003.

## I. Trethi

Nid yw Menter Coedwigaeth yn gorfod talu treth gorfforaethol.

Cofrestrwyd y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer treth ar werth (TAW), ac mae'n cyfrifo'r dreth ar sail Brydeinig, sy'n cynnwys unrhyw drafodion TAW ar gyfer Menter Coedwigaeth. Cynhwysir unrhyw TAW sy'n daladwy i neu gan Dollau Cartref a Thramor EM ar ddiwedd y flwyddyn yng nghyfrifon y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr/Prydain fel dyledwr neu gredydwr. Dosrennir TAW anadferadwy i'r datganiad cost weithredu yn y flwyddyn y digwyddodd ynddi.

## J. Prydlesi

Pan fo holl risgiau a buddion perchnogaeth ased prydlesol yn cael eu dwyn gan y Comisiwn Coedwigaeth, cofnodir yr ased fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i brydleswr y taliadau prydles lleiaf gyda disgownt yn ôl cyfradd disgownt y Trysorlys o 6% mewn gwir werth. Cyfrifir elfen log y tâl prydles gyllidol yn rhan o'r Cyfrif Incwm a Gwariant dros gyfnod y brydles ar gyfradd gyson mewn perthynas â'r balans sy'n ddyledus. Codir costau parthed prydlesi gweithredu ar sail llinell-syth dros gyfnod y brydles.

## K. Yswiriant

Yn unol ag arferion cyfrifo arferol y llywodraeth, bydd Menter Coedwigaeth yn cario ei risgiau yswiriant ei hun.

## L. Pensiynau

Mae gweithwyr a chyn-weithwyr y Comisiwn Coedwigaeth yn perthyn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun budd diffiniedig ac anarianedig. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan fydd yn elwa ar wasanaethau gweithwyr trwy dalu i'r PCSPS symiau wedi'u cyfrifo ar sail gronnol. Mae'r cyfrifoldeb am dalu buddion yn y dyfodol yn cwympo ar y PCSPS.

Mae gwybodaeth bellach am bensiynau yn Nodyn 3 i'r Cyfrifon.

## M. Cynllun Iawndal

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Coedwigaeth gwrdd â chost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol y cynllun pensiwn parthed gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'n darparu'n llawn ar gyfer y gost hon pan gytunwyd ar ymrwymiad i dalu costau o'r fath. Ar gyfer staff yn ymadael ar 31 Mawrth 1999 neu cyn hynny, dangosir yr ymrwymiadau i'r dyfodol ar gyfer taliadau 'iawndal' misol yng nghyfrifon y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer Lloegr/ Prydain. Ar gyfer staff yn ymadael ar neu ar ôl 1 Ebrill 1999, dangosir y taliadau yng nghyfrifon y Comisiwn Coedwigaeth neu'r asiantaeth ar gyfer y wlad lle'r oedd staff yn gwasanaethu adeg eu hymddeoliad cynnar. Ariannwyd costau ymddeoliad cynnar 5 aelod o'r staff a ymadawodd yn ystod 2000-01 a 5 aelod o'r staff a ymadawodd yn ystod 2001-02 gan y Gronfa Moderneiddio Llywodraeth gyda'r amcan o wneud y gweithlu'n fwy amrywiol. Cafodd y costau hyn eu cynnwys yn y datganiad incwm a gwariant a'r fantolen yn unol ag ymddeoliadau cynnar eraill.

## Nodyn 2   Diffyg Gweithredu

a. Nodir diffyg gweithredu net hamdden, cadwraeth a threftadaeth ar ôl codi:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dibrisiad asedau sefydlog | 746 | 769 |
| Hurio offer a chyfarpar | 493 | 456 |
| **Rhenti prydlesi gweithredu:** | | |
| Tir ac adeiladau | 21 | 21 |
| Eraill | 659 | 584 |
| Tâl archwilwyr - gwaith archwilio | 28 | 24 |

Mae pedair uned Menter Coedwigaeth yn cyflenwi Cymru, Lloegr a'r Alban â gwasanaethau arbenigol: cyflenwir coed i'w plannu, peirianneg fecanyddol, peirianneg sifil a chynllunio a dehongli. Caiff costau'r unedau hyn eu hadennill drwy'r flwyddyn gan godiannau mewnol.

Mae gan Brif Swyddfa Menter Coedwigaeth dri phrif gyfrifoldeb: datblygu strategaeth gorfforaethol a pholisïau, monitro ac adrodd perfformiad, a darparu gwasanaethau corfforaethol ategol gan gynnwys rheolaeth ystad, gwasanaethau cyfrifo a chefnogi cynllunio busnes. Pryd bynnag y bo modd bydd y gwasanaethau hyn ar gael, am dâl, yn ystod y flwyddyn i bob gwlad yn seiliedig ar gytundebau lefel gwasanaeth. Rhennir y costau sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn ar sail ddiffiniedig, yn gyntaf i weithgareddau gweithredol ac wedyn i bob gwlad.

Mae gwasanaethau canolog y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth, personél, hyfforddiant, cysylltiadau cyhoeddus ac archwiliad mewnol ar gael trwy gytundebau lefel gwasanaeth. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael, am dâl, yn ystod y flwyddyn i gwsmeriaid mewnol ym Menter Coedwigaeth. Codir tâl ar y Comisiwn Coedwigaeth am ei gyfran o wasanaethau ariannol a ddarperir gan Fenter Coedwigaeth ac am wasanaethau peirianneg fecanyddol.

Mae'r Asiantaeth Ymchwil Goedwigaeth yn darparu gwasanaethau datblygu ymchwil ac arolygu i Fenter Coedwigaeth trwy gytundeb lefel gwasanaeth ac yn codi tâl ar gwsmeriaid mewnol Menter Coedwigaeth yn ystod y flwyddyn. Mae Menter Coedwigaeth yn codi tâl ar yr Asiantaeth Ymchwil Goedwigaeth am wasanaethau peirianneg fecanyddol, rhenti eiddo a gwasanaethau ariannol canolog.

Bydd nifer o newidiadau, yn deillio o'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth, yn dod i rym o 1 Ebrill 2003. Bydd pob uned busnes yn cael ei rhedeg o hyd fel uned Brydeinig ar wahân ond bydd yr holl wariant ac incwm yn cael eu cyfrifo yn ôl pob gwlad. Cafodd cyfrifoldebau Prif Swyddfa Menter Coedwigaeth eu trosglwyddo naill ai i'r gwledydd neu fe ddaethant yn rhan o ganolfan y Comisiwn Coedwigaeth, ar raddfa lai, yng Nghaeredin, sy'n dal i ddarparu gwasanaethau canolog megis personél, hyfforddiant, technoleg gwybodaeth, gwasanaethau cyfrifo ac archwiliad mewnol os yw hynny'n gost-effeithiol neu os oes rhesymau polisi neu ymarferol digonol. Bydd mecanweithiau dros dro ar gyfer codi tâl mewn grym ar gyfer 2003-04 a bydd cytundebau newydd ar lefel gwasanaeth mewn grym erbyn 1 Ebrill 2004.

b. Yr incwm a'r gwariant o reoli a datblygu ystad a gafodd eu cynnwys yn y diffyg gweithredu yw:

| | | | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|---|---|
| | **Incwm** | **Gwariant** | **Net** | Net |
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Gwyliau'r Goedwig | **193** | **147** | **46** | (54) |
| Rheolaeth Ystad | **417** | **2,461** | **(2,044)** | (3,080) |
| Llyn Efyrnwy | **4** | **-** | **4** | 48 |
| Cymwysiadau cronfa ailbrisiad wrth gefn | **-** | **33** | **(33)** | - |
| Eraill | **2,451** | **2,430** | **21** | 354 |
| **Cyfansymiau** | **3,065** | **5,071** | **(2,006)** | (2,732) |

Mae Gwyliau'r Goedwig yn uned fusnes ar wahân sy'n gweithredu oddi mewn i Fenter Coedwigaeth i ddarparu llety mewn cabanau pren hunan-arlwy ac ar safleoedd gwersylla a charafannau symudol. Dyrennir incwm a gwariant ar ddiwedd y flwyddyn i Gymru, Lloegr a'r Alban yn ôl safle. Enillodd Gwyliau'r Goedwig wir gyfradd adennill o 8.5% ar gyfalaf a fuddsoddwyd yn ei weithgareddau gweithredol, mewn cymhariaeth â tharged o 8.0%. O 1 Ebrill 2003, bydd yr uned fusnes yn dal i gael ei rheoli fel uned Brydeinig ar wahân ond bydd yr holl wariant ac incwm yn cael eu cyfrifo yn uniongyrchol yn ôl pob gwlad.

Mae Rheolaeth Ystad yn adlewyrchu'r gost net o reoli'r ystad ddi-goedwig sy'n cynnwys tai, ffermydd, tir amaethyddol a phopeth arall sy'n cael ei osod. Mae'n cynnwys gwariant i geisio atal tirlithriadau pellach ar hen domenni glo ar dir y Comisiwn Coedwigaeth a gwarged asedau a waredir pryd bynnag y bo modd. O 1 Ebrill 2002, cafodd cost neu incwm net swyddfeydd ac adeiladau eraill ei drosglwyddo i weithgareddau gweithredol eraill a threuliau gweinyddol, fel y bo'n briodol, yn hytrach nag i weithgaredd Rheolaeth Ystad.

Gwnaeth cynllun Llyn Efyrnwy yng Nghymru elw bychan mewn perthynas â chyfran gyfartal Menter Coedwigaeth yng ngwarged/diffyg y cynllun rheoli ar y cyd â Dŵr Hafren Trent.

Disgrifir cymwysiadau'r gronfa ailbrisiad wrth gefn yn Nodiadau 1B a 13 i'r Cyfrifon .

Mae Eraill yn cynnwys gwaith gan yr asiantaeth ar sail adennill cost yn llawn, incwm net a enillwyd gan uned fusnes y Gwasanaethau Peirianneg Fecanyddol a gwerthiant coed Nadolig.

## Nodyn 3 Niferoedd a Chostau Staff

**a. Gweithwyr a Chostau**

Nifer gyfartalog y gweithwyr cyfwerth llawn-amser a gyflogwyd gan Fenter Coedwigaeth yng Nghymru yn ystod y flwyddyn oedd 291 (270 yn 2001-02). Roedd 457 yn ychwanegol o staff (443 yn 2001-02) yn cael eu cyflogi ar sail Brydeinig er mwyn darparu cefnogaeth i weithgareddau Menter Coedwigaeth ym mhob un o'r tair gwlad. Roedd costau cyfunol y cyflogau fel a ganlyn:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogau | 7,538 | 6,875 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 483 | 468 |
| Costau Pensiynau'r Cyflogwr | 898 | 958 |
| | 8,919 | 8,301 |

Roedd y staff wedi'u cynnwys ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r PCSPS yn gynllun buddion diffiniedig anarianedig ac aml-gyflogydd ond ni all y Comisiwn Coedwigaeth nodi ei gyfran o'r asedau ac ymrwymiadau sylfaenol. Gwnaed prisiad actwaraidd llawn ar 31 Mawrth 1999. Gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet; Civil Superannuation (www.civilservice-pensions.gov.uk)

Ar gyfer 2002-03, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £898,000 yn daladwy i'r PCSPS (£306000 yn 2001-02) yn ôl un o'r pedair cyfradd yn yr ystod o 12 i 18.5% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Ni fydd newid yn y cyfraddau yn ystod y flwyddyn nesaf, yn amodol ar adwerthusiad o'r bandiau cyflog. Bydd cyfraniadau'r cyflogwyr yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad o'r cynllun cyfan gan Actwari'r Llywodraeth. Mae cyfraddau'r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni yn hytrach nag wrth i'r costau ddigwydd mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Gallai gweithwyr yn ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cronfa bensiwn bartneriaeth, sef pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr gwerth £nil i un neu fwy o baneli o bedwar darparwr pensiwn budd-ddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn dibynnu ar oedran ac yn amrywio o 3 i 12.5% o'r cyflog pensiynadwy. Bydd y cyflogwyr hwythau'n gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy. Yn ychwanegol, roedd cyfraniadau gan gyflogwyr o £nil, sef 0.8% o'r cyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS er mwyn talu'r gost o ddarparu cyfandaliadau budd os yw gweithwyr yn marw cyn ymddeol neu'n gorfod ymddeol oherwydd afiechyd.

Roedd y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £nil. Roedd y cyfraniad ar y dyddiad hwnnw yn £nil.

Darperir buddiannau o dan y cynlluniau a ganlyn, yn amodol ar amodau a therfynau ariannol:

i. blaendaliadau cyflog er mwyn prynu tŷ;
ii. blaendaliadau cyflog er mwyn prynu tocynnau tymor ar gyfer teithio
iii. cynllun darparu car.

Cafwyd 24 benthyciad o dan y cynllun blaendaliadau cyflog er mwyn prynu tŷ ac roedd balans o £2,500 neu fwy yn weddill i aelodau staff unigol ar 31 Mawrth 2003. Cyfanswm gwerth y benthyciadau hyn oedd £267,000.

**b. Bwrdd y Rheolwyr**

Roedd cyflog a hawliau pensiwn bwrdd rheolwyr yr asiantaeth fel a ganlyn

| | | Oed | Cyflog | Y gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronnol yn 60 oed ar 31 Mawrth 2003 | Buddiannau | Cyfraniad y cyflogwr i gronfa bensiwn bartneriaeth gan gynnwys yswiriant budd risg (nodyn(d)) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Blynyddoedd | £000 | £000 | £000 | £ | £ |
| **2002-03** | | | | | | | |
| Bob McIntosh | a | 51 | 80-85 | 2.5-5.0 | 25-30 | - | - |
| Bob Farmer | a | 55 | 55-60 | 0.0-2.5 | 20-25 | - | - |
| Geoff Hatfield | a | 51 | 70-75 | 2.5-5.0 | 20-25 | £1,900 | - |
| Hugh Insley | a | 54 | 60-65 | 2.5-5.0 | 20-25 | - | - |
| Mike Lofthouse | a | 58 | 60-65 | 0.0-2.5 | 25-30 | - | - |
| Ian Forshaw | a | 47 | 50-55 | 0.0-2.5 | 15-20 | £500 | - |
| Keith Gliddon | a | 51 | 50-55 | 0.0-2.5 | 15-20 | - | - |
| Craig Heaney | a | 54 | 55-60 | 0.0-2.5 | 25-30 | £1,400 | - |
| Peter Ranken | a | 52 | 60-65 | 0.0-2.5 | 25-30 | - | - |
| Alan Stevenson | a | 45 | 50-55 | 0.0-2.5 | 10-15 | £400 | - |
| Peter Weston | a | 44 | 45-50 | 0.0-2.5 | 10-15 | £800 | - |
| **2001-02** | | | | | | | |
| Bob McIntosh | | 50 | 75-80 | 0.0-2.5 | 25-30 | - | - |
| Bob Farmer | | 54 | 50-55 | 0.0-2.5 | 15-20 | - | - |
| Geoff Hatfield | | 50 | 65-70 | 0.0-2.5 | 20-25 | - | - |
| Hugh Insley | | 53 | 50-55 | 0.0-2.5 | 20-25 | - | - |
| Mike Lofthouse | | 57 | 50-55 | 0.0-2.5 | 20-25 | £2,000 | - |
| Ian Forshaw | | 46 | 40-45 | 0.0-2.5 | 10-15 | £1,200 | - |
| Keith Gliddon | | 50 | 45-50 | 0.0-2.5 | 15-20 | - | - |
| Wilma Harper | | 46 | 45-50 | 0.0-2.5 | 10-15 | - | - |
| Craig Heaney | | 53 | 50-55 | 0.0-2.5 | 20-25 | £2,500 | - |
| Iain Miller | | 56 | 45-50 | 0.0-2.5 | 20-25 | £645 | - |
| Peter Ranken | | 51 | 55-60 | 0.0-2.5 | 20-25 | £200 | - |
| Alan Stevenson | | 44 | 50-55 | 0.0-2.5 | 10-15 | £600 | - |
| Peter Weston | | 43 | 40-45 | 0.0-2.5 | 5-10 | £1,500 | - |

a dewisodd ymuno â’r cynllun clasurol

b dewisodd ymuno â’r cynllun premiwm

c dewisodd ymuno â’r cynllun clasurol plws

d dewisodd ymuno â’r gronfa bensiwn bartneriaeth

## Nodiadau

### Cyflog

i. Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros a bonysau perfformiad.

### Pensiwn

ii. Mae buddion pensiwn ar gyfer bwrdd y rheolwyr yn gyson â'r rhai ar gyfer gweithwyr cyflog eraill y Comisiwn Coedwigaeth ac fe'u darperir trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil berthyn i un o dri chynllun statudol "cyflog terfynol" â buddion diffiniedig (clasurol, premiwm, a chlasurol plws). Gall y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth premiwm neu ymuno â threfniad "prynu arian" o ansawdd uchel yn seiliedig ar fudd-ddeiliaid gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cronfa bensiwn bartneriaeth).

**(a) Cynllun Clasurol**

Mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/80 o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n gyfatebol i dair blynedd o bensiwn yn daladwy adeg ymddeol. Bydd aelodau'n cyfrannu 1.5% o enillion pensiynadwy. Yn dilyn marwolaeth, mae pensiynau'n daladwy i'r p/briod (g)oroesol ar y raddfa o hanner pensiwn yr aelod. Yn dilyn marwolaeth wrth wasanaethu, mae'r cynllun yn talu budd mewn cyfandaliad o ddwywaith y tâl pensiynadwy ac mae hefyd yn darparu gwelliant gwasanaeth wrth gyfrifiannu pensiwn y p/briod. Mae'r gwelliant yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na deng mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achosion o salwch difrifol. Bryd hynny, telir pensiynau ar unwaith heb ostyngiad actwaraidd a chyda gwelliant gwasanaeth yr un fath ag ar gyfer pensiynau gweddwon.

**(b) Cynllun Premiwm**

Mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/60 o'r enillion pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig, ond gall aelodau gymudo peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad o hyd at uchafswm o 3/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth neu 2.25 gwaith y pensiwn os yw'n fwy (y raddfa gymudo yw £12 o gyfandaliad ar gyfer pob £1 o bensiwn a roddir heibio). At ddibenion datgelu pensiynau mae'r tablau'n rhagdybio uchafswm cymudo. Mae aelodau'n cyfrannu 3.5% o enillion pensiynadwy. Yn dilyn marwolaeth, mae pensiynau'n daladwy i'r p/briod (g)oroesol neu bartner cymwys ar raddfa o 3/8 o bensiwn yr aelod (cyn unrhyw gymudo). Yn dilyn marwolaeth wrth wasanaethu, mae'r cynllun yn talu cyfandaliad sydd deirgwaith yn fwy na'r enillion pensiynadwy ac mae hefyd yn darparu gwelliant gwasanaeth wrth gyfrifiannu pensiwn y p/briod. Mae'r gwelliant yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl mewn achosion o salwch difrifol. Bryd hynny, telir pensiynau ar unwaith heb ostyngiad actwaraidd. Os yw salwch aelod yn atal yr aelod yn barhaol rhag ennill cyflog, caiff tymor y gwasanaeth ei estyn i'r hyn a fyddai wedi cronni erbyn cyrraedd 60 oed.

**(c) Cynllun Clasurol Plws**

Yn y bôn mae hwn yn amrywiad ar y cynllun premiwm, ond gyda budd-daliadau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yr un fath ag ar gyfer y cynllun clasurol.

Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau clasurol, premiwm, a chlasurol plws yn cael eu cynyddu yn unol â'r Mynegai Pris Adwerthu.

**(d) Cronfa Bensiwn Bartneriaeth**

Mae'r cynllun hwn yn drefniad o fath budd-ddeiliad gyda'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliad. Nid oes raid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% (yn ychwanegol ar gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Yn ogystal, gall cyflogwyr gyfrannu 0.8% yn ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu am yswiriant budd risg (marwolaeth wrth wasanaethu ac ymddeol oherwydd salwch). Gall yr aelod ymddeol unrhyw adeg rhwng 50 a 75 mlwydd oed a defnyddio'r gronfa gronedig i brynu pensiwn. Gall yr aelod ddewis cymryd 25% o'r gronfa fel cyfandaliad.

**Buddiannau**

iii. Mae gwerth ariannol buddiannau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu hystyried yn incwm trethadwy gan Gyllid y Wlad.

**Benthyciadau i aelodau Bwrdd y Rheolwyr**

Gwneir benthyciadau i aelodau Bwrdd y Rheolwyr ar ffurf cyflog o flaen llawn ar gyfer prynu tŷ. Gwneir y benthyciadau hyn ar yr un telerau â'r rhai sydd ar gael i aelodau eraill o'r staff. Roedd y swm a oedd heb ei dalu ar 31 Mawrth 2003 yn £83,000 (£31,000 ar 31 Mawrth 2002). Ni wnaed cais am ganiatâd i ddatgelu manylion.

## Nodyn 4 Gwerthu Eiddo

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Incwm | **286** | 604 |
| Gwerth ar bapur | **248** | 659 |
| | **38** | (55) |
| **Costau gwaredu** | | |
| Costau allanol | **11** | 57 |
| Treuliau gweinyddol | **57** | 44 |
| | **68** | 101 |
| Gwarged ar werthu eiddo | **(30)** | (156) |

## Nodyn 5 Cost Cyfalaf Dybiannol

Roedd y gost cyfalaf dybiannol yn seiliedig ar 6% o'r cyfanswm asedau cyfartalog llai ymrwymiadau yn 2002-03 yn £9,154,000.

# Nodyn 6 Asedau diriaethol Sefydlog

| | Ystad Goedwig | Tir | Tir Gwyliau'r Goedwig | Anheddau ac Adeiladau Eraill | Adeiladau Gwyliau'r Goedwig | VME | OME | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Prisiad:** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 146,863 | 2,709 | 600 | 4,095 | 252 | 7,576 | 1,230 | 163,325 |
| Ychwanegiadau | 316 | - | - | 81 | - | 319 | 145 | 861 |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | (43) | 20 | (23) |
| Gwarediadau | (139) | (2) | - | (14) | (94) | (1,306) | (7) | (1,562) |
| Ailbrisiad | (15,433) | 310 | - | 370 | 13 | 97 | (17) | (14,660) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **131,607** | **3,017** | **600** | **4,532** | **171** | **6,643** | **1,371** | **147,941** |
| **Dibrisiad:** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | - | - | - | - | 13 | 5,231 | 995 | 6,239 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - | 184 | 14 | 468 | 80 | 746 |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | (43) | 19 | (24) |
| Gwarediadau | - | - | - | (1) | - | (1,154) | (7) | (1,162) |
| Ailbrisiad | - | - | - | - | - | 90 | (6) | 84 |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **-** | **-** | **-** | **183** | **27** | **4,592** | **1,081** | **5,883** |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **131,607** | **3,017** | **600** | **4,349** | **144** | **2,051** | **290** | **142,058** |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 146,863 | 2,709 | 600 | 4,095 | 239 | 2,345 | 235 | 157,086 |

Nodyn 1 Mae Polisïau Cyfrifo yn nodi'r sail ar gyfer ailbrisio asedau sefydlog.

Roedd yr ystad goedwig yn destun ailbrisiad proffesiynol llawn ar sail gwerth defnydd cyfredol ar 31 Mawrth 2003 gan baneli prisiad gwlad yn cynnwys John Clegg a'i Gwmni, Syrfewyr Siartredig, y Syrfewyr Siartredig Raymond-Barker a'i Gwmni ac asiantau tir cymwysedig wedi'u cyflogi gan y Comisiwn Coedwigaeth. Cafodd y prisiad ei gymhwyso 2.5% ar gyfer costau gwerthu i'w priodoli'n uniongyrchol. Mae'r ailbrisiad llawn nesaf i fod i ddigwydd ar 31 Mawrth 2008 gyda diweddariadau blynyddol yn y blynyddoedd yn y canol yn seiliedig ar farn broffesiynol allanol.

Roedd tir di-goedwig, anheddau ac adeiladau eraill yn destun ailbrisiad tair-blynedd ar 31 Mawrth 2002 gan asiantau tir â chymwysterau proffesiynol a gyflogir gan y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r ailbrisiad llawn nesaf i fod i ddigwydd ar 31 Mawrth 2005 gyda diweddariadau blynyddol yn y blynyddoedd yn y canol yn seiliedig ar fynegeion wedi'u darparu gan y Prisiwr Dosbarth.

Cafodd tir ac adeiladau Gwyliau'r Goedwig eu hailbrisio gan Barrs a'r Cwmni, Syrfewyr Siartredig o Leeds ar 31 Mawrth 2003.

Roedd cerbydau, peiriannau a chyfarpar (VME) coedwig yn destun ailbrisiad tair-blynedd ar 31 Mawrth 2002 gan staff â chymwysterau proffesiynol a gyflogir gan y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r ailbrisiad llawn nesaf i fod i ddigwydd ar 31 Mawrth 2005 gyda diweddariadau blynyddol yn y blynyddoedd yn y canol yn seiliedig ar brisiannau wedi'u darparu gan staff mewnol â chymwysterau proffesiynol ar gyfer peiriannau coedwig arbenigol a mynegeion wedi'u darparu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr holl asedau eraill.

Cafodd peiriannau a chyfarpar swyddfa (OME) eu hailddatgan i'w pris cyfredol ar 31 Mawrth 2003 gan ddefnyddio mynegai wedi'i ddarparu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r ystad goedwig ac asedau tir ac adeiladau eraill yn cynnwys asedau rhydd-ddaliol a phrydlesol.

Mae'r ychwanegiadau i asedau sefydlog diriaethol yn cynnwys swm o £213,000 a oedd heb ei dalu ar 31 Mawrth 2003. Cafodd 'Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol' yn y datganiad llif arian ei gymhwyso o ganlyniad er mwyn tarddu'r arian a wariwyd ar ychwanegiadau cyfalaf.

## Nodyn 7 Stociau

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Pren | **904** | 794 |
| Planhigion a hadau | **684** | 637 |
| Defnyddiau traul, cyflenwadau a da byw | **228** | 272 |
| | **1,816** | 1,703 |

## Nodyn 8 Dyledwyr

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn: | | |
| Dyledwyr masnachol | **4,021** | 4,202 |
| Dyledwyr eraill | **114** | 74 |
| Rhagdaliadau | **424** | 334 |
| | **4,559** | 4,610 |
| **Symiau'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill | **19** | 22 |
| | **4,578** | 4,632 |

## Nodyn 9 Arian mewn Banciau ac Mewn Llaw

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Arian mewn Llaw** | **-** | **-** |
| | **-** | **-** |

## Nodyn 10 Credydwyr

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Symiau'n daladwy o fewn blwyddyn:** | | |
| Credydwyr masnachol | **2,423** | 2,432 |
| Credydwyr eraill | **128** | 305 |
| Taliadau a dderbyniwyd ar y cyfrif | **245** | 246 |
| | **2,796** | 2,983 |
| **Symiau'n daladwy ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Prydlesi cyllidol | **361** | - |
| | **3,157** | 2,983 |

## Nodyn 11 Darpariaeth ar gyfer Dyledion a Chodiannau

| | Costau ymadael yn gynnar | Hawliadau cyfreithiol cyhoeddus | Hawliadau cyfreithiol eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2002 | 138 | - | - | 138 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 39 | 225 | 122 | 386 |
| Darpariaethau heb eu hangen a ôl-gofnodwyd | - | - | - | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (57) | - | - | (57) |
| Dad-ddirwyn disgownt | 9 | - | - | 9 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2003** | **129** | **225** | **122** | **476** |

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a chodiannau yn cynnwys darpariaethau ar gyfer

- Costau ymadael yn gynnar. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Coedwigaeth gwrdd â chost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion arferol cynllun pensiwn parthed gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'n darparu'n llawn ar gyfer y gost hon pan fo ymrwymiad i dalu'r cyfryw gostau trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau amcangyfrifedig gyda disgownt yn ôl cyfradd ddisgownt y Trysorlys o 6% mewn gwir werth. Pennir taliadau blynyddol wedyn i unigolion yn ôl y ddarpariaeth.
- Hawliadau cyfreithiol gan y cyhoedd am anaf personol neu ddifrod i eiddo.
- Iawndal am anaf i weithwyr.

## Nodyn 12 Cronfa Gyffredinol

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Balans a ddygwyd ymlaen | **115,818** | 116,923 |
| **Symudiad yn y flwyddyn:** | | |
| Diffyg net ar gyfer y flwyddyn | **(21,326)** | (19,867) |
| Cost cyfalaf dybiannol | **9,154** | 9,804 |
| Diffyg arian a ariannwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth | **11,500** | 9,283 |
| Trosglwyddiadau asedau sefydlog gan/i Gyrff Coedwigaeth eraill | **1** | 2 |
| Ailbrisiad gwarged wedi'i wireddu | **2,096** | - |
| Trosglwyddiadau anariannol rhwng gwledydd | **(99)** | (327) |
| | **1,326** | (1,105) |
| Balans yn cael ei ddwyn ymlaen | **117,144** | 115,818 |

Mae trosglwyddiadau anariannol rhwng y gwledydd yn cynnwys trosglwyddo darpariaethau, TAW i'r Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr/Prydain a dillad gweithwyr. Cyfanswm net y trafodion ar gyfer 2002-03 yw £99,000.

Trosglwyddwyd y gwargedau ailbrisiad wedi'u gwireddu a ganlyn i'r Gronfa Gyffredinol:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Tir arall ac adeiladau | **(1,564)** | - |
| Adeiladau Gwyliau'r Goedwig | **(92)** | - |
| VME | **(382)** | - |
| OME | **(58)** | - |
| | **(2,096)** | - |

Gwnaed y cymwysiadau a ganlyn i'r gronfa ailbrisiad wrth gefn a'u cofnodi yn y cyfrif incwm a gwariant yn unol âr disgrifiaf yn Nodyn 1B i'r Cyfrifon :

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Ystad Goedwig | **33** | - |
| | **33** | - |

## Nodyn 13 Cronfa Ailbrisiad Wrth Gefn

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Cronfa ailbrisiad gronnnol wrth gefn a ddygwyd ymlaen | **44,482** | 49,593 |
| **Diffyg ailbrisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003:** | | |
| Ystad goedwig | **(15,433)** | (5,086) |
| Tir | **310** | (588) |
| Tir Gwyliau'r Goedwig | **-** | 50 |
| Adeiladau Gwyliau'r Goedwig | **13** | 579 |
| Anheddau ac adeiladau eraill | **370** | 3 |
| VME | **7** | (69) |
| OME | **(11)** | - |
| | **(14,744)** | (5,111) |
| Ailbrisiad gwarged wedi'i wireddu | **(2,096)** | - |
| Cymwysiadau cronfa ailbrisiad wrth gefn i'r cyfrif incwm a gwariant | **33** | - |
| Balans yn cael ei ddwyn ymlaen | **27,675** | 44,482 |

## Nodyn 14 Ymrwymiadau Cyfalaf

There were no capital commitments as at 31 March 2003.

## Nodyn 15 Ymrwymiadau dan brydlesi

**Prydlesi gweithredu**

Roedd yr ymrwymiadau ynghylch rhenti prydlesi gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf fel a ganlyn:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Prydlesi tir ac adeiladau yn dod i ben o fewn: | | |
| Un mlynedd | **-** | - |
| Dwy flynedd i bum mlynedd | **-** | - |
| Mwy na phum mlynedd | **-** | 12 |
| | **-** | 12 |

Mae gan y pedair uned Menter Coedwigaeth sy'n cyflenwi gwasanaethau arbenigol ymrwymiadau ynghylch rhenti prydlesi gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf fel a ganlyn:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Prydlesi tir ac adeiladau yn dod i ben o fewn:** | | |
| Un mlynedd | **-** | - |
| Dwy flynedd i bum mlynedd | **-** | 10 |
| Mwy na phum mlynedd | **58** | 49 |
| | **58** | 59 |

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Prydlesi tir ac adeiladau yn dod i ben o fewn:** | | |
| Un mlynedd | **412** | - |
| Dwy flynedd i bum mlynedd | **2,955** | 3,291 |
| Mwy na phum mlynedd | **19** | 80 |
| | **3,386** | 3,371 |

**Prydlesi cyllidol**

Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllidol yn daladwy fel a ganlyn:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| O fewn un mlynedd | **33** | - |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | **115** | - |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **213** | - |
| | **361** | - |

## Nodyn 16 Ymrwymiadau ariannol eraill

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau ariannol eraill ar 31 Mawrth 2003.

## Nodyn 17 Rhwymedigaethau Amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2003 (£18,000 ar 31 Mawrth 2002).

## Nodyn 18 Trafodion â Chyrff ac Unigolion Cysylltiedig

Ystyrir y Comisiwn Coedwigaeth yn gorff cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Menter Coedwigaeth nifer sylweddol o drafodion pwysig gyda'r Comisiwn Coedwigaeth.

Yn ogystal, cafodd Menter Coedwigaeth amryw o drafodion pwysig gydag adrannau llywodraethol eraill a chyrff eraill llywodraeth ganolog. Y prif gyrff o fewn y llywodraeth y bu'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymwneud â nhw yw Trysorlys EM, Cynulliad Cymru, Gweithrediaeth yr Alban, Corff Cydlynol y DG, Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol, Tollau Tramor a Chartref, Cyllid y Wlad, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Yn ystod y flwyddyn tan 31 Mawrth 2003, bu Menter Coedwigaeth yn rhan o'r trafodion a ganlyn a oedd yn ymwneud â Chomisiynwyr Anweithredol y Comisiwn Coedwigaeth:-

Mae Mr Tom Bruce Jones yn gyfarwyddwr James Jones a'i Feibion Cyf a brynodd tua 335,770 metr ciwbig o bren a phlanhigion a hadau gwerth £5,978,000 gan Fenter Coedwigaeth. Y balans a oedd yn ddyledus oddi wrth Mr Jones ar 31 Mawrth 2003 oedd £nil.

## Nodyn 19 Datganiad colledion

Roedd cyfanswm y colledion yn £147,000 o 47 achos (£40,000 o 123 achos yn 2001-02).

Roedd cyfanswm y taliadau arbennig yn £120,000 o 16 achos (£61,000 o 15 achos yn 2001-02).

## Nodyn 20 Offerynnau Ariannol

Mae FRS 13, Derivatives and Other Financial Instruments, yn mynnu datgeliad o'r rhan y bu offerynnau ariannol yn ei chwarae yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau sy'n wynebu corff wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd bod ei gweithgareddau yn anfasnachol eu natur i raddau helaeth ac oherwydd y ffordd y caiff adrannau'r llywodraeth eu hariannu, nid yw Menter Coedwigaeth yng Nghymru yn agored i'r un graddau o risg ariannol a wynebir gan gyrff busnes. Ar ben hyn, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan llawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risg nag a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmnïau rhestredig y mae FRS 13 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan yr adran unrhyw bwerau i fenthyca na buddsoddi cronfeydd gwarged ac mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac ni thybir iddynt newid y risgiau sy'n wynebu'r adran wrth ymgymryd â'i gweithgareddau.

**Risg hylifedd**

Mae Llywodraeth y DG yn darparu ar gyfer y defnydd o adnoddau gan Fenter Coedwigaeth yng Nghymru, at ddibenion refeniw a chyfalaf, yn ei chyllideb ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Ni ellir defnyddio adnoddau ac adnoddau cronnol ond at y dibenion a nodir a hyd at y cyfansymiau a nodir yn y gyllideb. Hefyd, mae'r gyllideb yn nodi awdurdodiad ariannol i weithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol. Felly, nid yw Menter Coedwigaeth yng Nghymru yn agored i risgiau hylifedd o bwys.

**Risg cyfradd-llog**

Nid yw Menter Coedwigaeth yng Nghymru yn agored i risg cyfradd-llog.

**Risg arian tramor**

Nid yw Menter Coedwigaeth yng Nghymru yn agored i risg arian tramor.

**Gwerthoedd Teg**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng gwerth ar bapur a gwerth teg ar gyfer yr arian yn y banc a ddangosir yn Nodyn 9. Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y gwerth teg ar gyfer y darpariaethau a ddangosir yn Nodyn 11 a'r gwerth ar bapur oherwydd, wrth gyfrifo'r gwerth ar bapur, gostyngwyd y llifiannau arian disgwyliedig yn ôl cyfradd y Trysorlys o 6% mewn gwir werth.

## Nodyn 21 Mesurau Perfformiad Ariannol

Y mesurau perfformiad ariannol a bennwyd gan y Comisiynwyr Coedwigaeth ar gyfer 2002-03 a'r gwir alldroeon a gyflawnwyd oedd:

| | **Cyflawnwyd** | Targed |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Diffyg gweithredu | 6,290 | 5,200 |
| Diffyg arian | 11,500 | 9,800 |
| Derbyniadau gros o werthu eiddo | 286 | 200 |

Mae Nodyn 2b yn cynnwys y targed a'r gwir gyfradd adennill ar gyfer Gwyliau'r Goedwig.

# Atodiad 1

## Y Cyfarwyddyd cyfrifon a roddir gan y trysorlys yn unol ag adran 97(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998

1. Bydd y Comisiwn Coedwigaeth yn paratoi cyfrifon ar gyfer Menter Coedwigaeth o'i weithgareddau yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a'r blynyddoedd ariannol dilynol. Bydd y cyfrifon hyn yn cynnwys:

(a) rhagair;
(b) cyfrif incwm a gwariant;
(c) datganiad cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig;
(d) mantolen;
(e) datganiad llif arian;
(f) datganiad o gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo; a
(g) datganiad am reolaeth fewnol;

gan gynnwys y cyfryw nodiadau a all fod yn angenrheidiol at y dibenion y cyfeirir atynt yn y paragraffau a ganlyn.

2. Bydd y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o'r incwm a gwariant, a llifiannau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol, a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

3. Yn amodol ar y gofyniad hwn, bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â:

(a) dulliau cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Gyfunol (UK GAAP);
(b) y gofynion datgelu a chyfrifo a gynhwysir yn "The Fees and Charges Guide" (yn enwedig y rhai sy'n berthynol i'r angen am wybodaeth ddyrannol am wasanaethau neu'r mathau o wasanaethau a ddarperir) ac mewn unrhyw ganllawiau eraill y gall y Trysorlys eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd parthed cyfrifon sydd eu hangen i roi darlun gwir a theg;
(c) gofynion cyfrifo a datgelu "Government Accounting", fel y cânt eu diwygio neu eu hychwanegu o bryd i'w gilydd,

4. Rhoddir eglurhad ynghylch sut i weithredu gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau yn Atodlen 1 sydd ynghlwm. Nodir gofynion datgelu ychwanegol yn Atodlen 2 sydd ynghlwm.

5. Paratoir y cyfrif incwm a gwariant a'r fantolen yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol a addaswyd trwy gynnwys:

a. yr ystad goedwig yn ôl ei gwerth defnydd cyfredol;
b. tir ac adeiladau yn ôl eu gwerth defnydd cyfredol pan fo marchnad yn bodoli, neu fel arall yn ôl cost adnewyddu ar ôl dibrisio;
c. peiriannau, offer a chyfarpar yn ôl y gost amnewid gyfredol;
d. asedau hamdden masnachol yn ôl eu gwerth defnydd cyfredol; a
e. stociau hadau yn ôl y gost isaf neu'r gwerth pris gwerthadwy net, stociau o blanhigion a da byw yn ôl gwerth gwerthadwy net a stociau defnyddiau traul yn ôl y gost amnewid gyfredol.

6. Bydd y cyfarwyddyd hwn yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon ac mae'n disodli'r cyfarwyddyd dyddiedig 25 Hydref 2000.

David Loweth
Pennaeth y Tîm Cyfrifeg Canolog
Trysorlys EM
21 Mai 2002

# Atodlen 1

## Gweithredu gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau a Safonau Cyfrifo

**Y Ddeddf Cwmnïau**

1. Ni fydd yr eithriadau datgelu a ganiateir dan y Ddeddf Cwmnïau yn berthnasol i Fenter Coedwigaeth oni chânt eu cymeradwyo'n benodol gan y Trysorlys.

2. Yn ôl y Ddeddf Cwmnïau mae'n ofynnol bod gwybodaeth benodol yn cael ei datgelu yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr. I'r graddau ei bod yn briodol, cynhwysir yr wybodaeth sy'n berthynol i Fenter Coedwigaeth yn y rhagair.

3. Bydd y cyfrif incwm a gwariant ar ffurf sy'n datgelu'r wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraff 2 Atodlen 2, am nad yw'r fformatau a argymhellir ac sy'n cael eu disgrifio yn Atodlen 4 y Ddeddf Cwmnïau yn briodol i Fenter Coedwigaeth.

4. Wrth baratoi ei mantolen, bydd Menter Coedwigaeth yn rhoi sylw i fformat mantolen 1 a ragnodir yn Atodlen 4 y Ddeddf Cwmnïau. Tynnir cyfansymiau'r fantolen yn ôl "Cyfanswm asedau llai ymrwymiadau".

5. Nid yw'n ofynnol i Fenter Coedwigaeth ddarparu'r wybodaeth gost hanesyddol a ddisgrifir ym mharagraff 33(3) Atodlen 4 y Ddeddf Cwmnïau.

6. Llofnodir y rhagair a'r fantolen gan y Swyddog Cyfrifo a chânt eu dyddio.

**Safonau cyfrifo**

7. Nid yw'n ofynnol i Fenter Coedwigaeth gynnwys nodyn sy'n dangos elw a cholledion costau hanesyddol yn ôl y disgrifiad yn FRS 3.

8. Cyflwynir y datganiad llif arian yn ôl y dull anuniongyrchol a ddisgrifir yn FRS 1.

9. Ni fydd Menter Coedwigaeth yn mabwysiadu'r Safon Adrodd Ariannol (FRS) ar gyfer yr Endidau Lleiaf oni cheir cymeradwyaeth benodol gan y Trysorlys.

# Atodlen 2
## Gofynion Datgelu Ychwanegol

**Rhagair**

1. Bydd y rhagair, ymhlith pethau eraill, yn:

(a) datgan bod y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag Adran 97(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998;

(b) cynnwys hanes Menter Coedwigaeth yn fyr a chefndir statudol yr asiantaeth.

**Cyfrif Incwm a Gwariant**

2. Bydd y cyfrif incwm a gwariant yn dangos, ymhlith pethau eraill:

a. o dan "Incwm gweithredol":
- gwerthiannau pren
- gwerthiannau coedwig eraill
- gweithgareddau eraill

b. o dan "gwariant gweithredol (yn ôl gweithgaredd)":
- cynaeafu a chludo pren
- ailstocio ar ôl cwympo
- ffyrdd coedwig
- cynnal a chadw a gwarchod coedwigoedd
- gweithgareddau eraill

c. dangosir y gwarged/diffyg gweithredu dilynol fel pennawd ar wahân

d. o dan "hamdden, cadwraeth a threftadaeth":
- incwm
- gwariant

rhoi gwarged/diffyg gweithredu net ar gyfer hamdden, cadwraeth a threftadaeth

e. y gwarged/diffyg sy'n deillio o werthu eiddo a'r gost cyfalaf dybiannol

f. y "gwarged/diffyg net ar gyfer y flwyddyn" a drosglwyddir i'r gronfa gyffredinol.

3. Gellir gwneud mân newidiadau i'r penawdau yn y cyfrifon heb gymeradwyaeth y Trysorlys.

**Nodiadau i'r Cyfrifon**

4. Bydd y nodiadau i'r cyfrifon yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

a. manylion y prif dargedau ariannol corfforaethol ar gyfer y flwyddyn a'r cyflawniad yn ôl y targedau hynny ar gyfer y flwyddyn;

b. manylion am gyfanswm canlyniad yr incwm, gwariant a gweithredu ar gyfer pob un o'r gweithrediadau a ddangosir yn "gweithgareddau eraill", ynghyd â nodiadau esboniadol am yr amcanion ariannol a bennwyd a'r cyflawniad;

c. dadansoddiad o gyfanswm costau staff a niferoedd y gweithwyr a gyflogwyd ar weithgareddau Menter Coedwigaeth ac elfennau datgelu perthnasol Cod Greenbury.

# Atodiadau



# Atodiad 1

## Comisiynwyr Coedwigaeth ac Uwch Staff yng Nghymru
## Ar 31 Mawrth 2003

**Comisiynwyr Coedwigaeth Cymru**

Gareth Wardell

Anthony Bosanquet

**Staff yn y Swyddfa Genedlaethol**

| | |
|---|---|
| Simon Hewitt | Prif Warchodwr |
| John Westlake | Rheolwr Gweithredu |
| Huw Davies | Swyddog Polisi |
| Paul Sherrington | Rheolwr Cysylltiadau Allanol |
| Peter Garson | Gwarchodwr - Gweithrediadau |
| Ruth Jenkins | Rheolwr Uned Cynaladwyedd a'r Amgylchedd |
| Paul Finch | Rheolwr Cyllid Ewrop |
| Clive Davies | Swyddog Hysbysrwydd |
| Martyn Giles | Swyddog Cysylltu â'r Cynulliad (wedi'i leoli ym Mharc Cathays, Caerdydd) |

**Staff yn y Swyddfa Diriogaethol a Rhanbarthau Coedwig**

| | |
|---|---|
| Bob Farmer | Cyfarwyddwr Tiriogaethol |
| Ian Shaw | Asiant Tir Tiriogaethol |
| Chris Edwards | Rheolwr Gweithrediadau Cymru |
| Derek Stephen | Cyfrifydd Rheolaeth Diriogaethol |
| Felicity Wills | Ymgynghorydd Personél Tiriogaethol |

**Rheolwyr Rhanbarthau Coedwig**

| | |
|---|---|
| Terry O'Keefe | Coed y Mynydd |
| Richard Siddons | Coed y Gororau |
| Dai Jones | Llanymddyfri |
| Antony Wallis | Coed y Cymoedd |

**Rheolwyr Canolfannau Cost Eraill**

| | |
|---|---|
| John Browne | Rheolwr, Uned Gynaeafu a Marchnata Cymru |
| Karl Lee | Rheolwr yr Asiantaeth |
| David Cross | Rheolwr yr Uned Ailstocio |
| Trefor Owen | Arweinydd Tîm yr Uned Gymdeithasol |
| Sue Ginley | Rheolwr Addysg |
| Andy Fryers | Rheolwr y Canolfannau Ymwelwyr |

# Atodiad 2

## Pwyllgorau statudol ac eraill
## Aelodaeth ar 31 Mawrth 2003

**Y Pwyllgor Cenedlaethol**

Penodir y Pwyllgor o dan Adran 2(3) Deddf Coedwigaeth 1967 er mwyn, ymhlith pethau eraill, ymgymryd ag unrhyw un o gyfrifoldebau'r Comisiynwyr Coedwigaeth y gallant eu dirprwyo, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau neu amodau a welir yn dda ganddynt. Aelodaeth gyfredol y Pwyllgor yw:

Mr G L Wardell (Cadeirydd);
Mr S A J P Bosanquet;
Mr T A Bruce Jones;
Dr V M Edwards;
Yr Athro J Good;
Mr J D James OBE;
Mr D Macniven TD;
Mr A O Raven.
Ysgrifennydd y Pwyllgor: Mr H L Davies
Ni chafodd y Pwyllgor unrhyw gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn

**Pwyllgor Ymgynghorol y Comisiwn Coedwigaeth i Gymru (Pwyllgor Ymgynghorol Rhanbarthol)**

Penodir y Pwyllgor o dan Adrannau 37 a 38 Deddf Coedwigaeth 1967; ei gyfrifoldebau yw:

- Barnu pan fo anghydfod ynghylch ceisiadau am gymorth grant neu drwyddedau cwympo, a phan fo anghydfod yn ymwneud â chyrff statudol sy'n deillio o gynlluniau dylunio Menter Coedwigaeth;
- Cynghori'r Comisiwn ynghylch gweithredu ar lefel ranbarthol strategaethau coedwigaeth cenedlaethol;
- Cynghori ynghylch materion penodol sydd â goblygiadau rhanbarthol; a
- Hysbysu'r Comisiwn am faterion sy'n creu pryder yn rhanbarthol neu'n lleol ac y mae'r Pwyllgor o'r farn eu bod yn haeddu sylw.

Yn ogystal, ceisir barn y Pwyllgor Ymgynghorol am amrediad o faterion sy'n berthynol i strwythurau'r Comisiwn Coedwigaeth, cynlluniau grant a gweithredu polisi. Aelodaeth gyfredol y Pwyllgor yw:

Yr Athro J Good (Cadeirydd);
Mr D G Evans;
Mr R Lovegrove;
Mr I Monckton;
Dr A Gee;
Mr R Murray;
Ms S Price;
Mr J Davies;
Mr E Harris;
Professor D Austin;
Mrs J Webb;
Dr J Taylor. Mae'r ddau Gomisiynydd Gwlad Mr A Bosanquet a Mr G Wardell hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol.
Ysgrifennydd y Pwyllgor: H L Davies
Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn cafodd y Pwyllgor Ymgynghorol Rhanbarthol sawl brîff, a bu'n cynnig cyngor am: waith cymunedol coetirol; cynllunio ffyrdd newydd; tanwydd pren; diwygio'r PAC; atal carbon; cynlluniau grantiau cyfalaf biomas; y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; gwaith y Fforwm Coetiroedd a'r defnydd o dir trefol a diffaith.

# Atodiad 3

## Aelodau Fforwm Coetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol

| **Aelod** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Mr Paul Raymond Barke | Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr |
| Mr Tom Bourne | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Mrs Rosie Carmichael | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Mr Glynn Cook | BASC |
| Mr James Woodcock | Fforwm Pren Cymru |
| Mr Ben Maxted | Tir Coed |
| Mr Huw Denman | Llanfihangel Rhos y Corn/Pobl y Fforest |
| Mr Mike Dunn | Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad |
| Mr Bob Farmer | Menter Coedwigaeth Cymru |
| Ms Sue Gittins | Cymdeithas y Cerddwyr |
| Yr Athro John Good | Pwyllgor Ymgynghorol y CC i Gymru |
| Mr David Jenkins | Coed Cymru |
| Ms Linda Jones | Bwrdd Croeso Cymru |
| Mr John Lloyd Jones | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Mr Jerry Langford | Coed Cadw |
| Mr Harry Lloyd | UKFPA |
| Ms Wendy Merrett | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Mrs Rhian Nowell-Phillips | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Mr Tony Prater | RSPB |
| Yr Athro Colin Price | Prifysgol Cymru Bangor |
| Ms Lindsay Roberts | Adran Gynllunio'r Cynulliad |
| Mr Ken Shaw | Groundwork Cymru |
| Mr Ian Sheffner | Cymdeithas y Contractwyr Coedwigaeth |
| Ms Celia Thomas | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Mr Malcolm Thomas | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru |
| Mr Trevor Thompson | Y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol |
| Mr Phil Tidey | Cymdeithas y Coedydd Bychain |
| Mr Trevor Trevor | Y Gymdeithas Tir a Busnes Gwledig |
| Mr Richard Turner | CADW |
| Mr Rod Waterfield | Y Sector Siarcol a Phrysgwydd |
| Mrs Judith Webb | Y Gymdeithas Goedwigaeth a Phren |
| Mr Hugh Wheeldon | ICF |
| Mr Peter Wilson | FIDC |
| Ms Judy Ling Wong OBE | Rhwydwaith Amgylchedd Du |
| Ms Deb Wozencraft | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| Mr Nick Wynne | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

# Atodiad 4

## Siarter Ymgeiswyr Cynllun Grantiau Coetir

**PERFFORMIAD 2002/3**

Yr ydym yn gweithredu Safonau Siarter ar gyfer ceisiadau Cynlluniau Grantiau Coetir a cheisiadau Trwyddedau Cwympo. Ym mhob achos rydym yn anelu at gydnabod derbyn ceisiadau o fewn tri diwrnod gwaith. Ar gyfer ceisiadau grant y nod yw prosesu ceisiadau o'r cam 'cynigion' i'r cam 'contractau drafft' o fewn 11 wythnos. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymgynghori â chyrff allanol ond nid yw'r targed yn cynnwys yr amser y mae cais yn disgwyl mewnbwn gan yr ymgeisydd. Parthed Ceisiadau Trwyddedau Cwympo, ein nod yw cyflwyno Trwydded o fewn 10 wythnos i dderbyn cais ac mae hyn yn cynnwys yr amser pan fo cais yn disgwyl mewnbwn gan ymgeisydd.

Mae'r tabl isod yn nodi perfformiad yn ôl targedau'r Siarter. Mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, mae'r perfformiad yn wahanol mewn sawl ffordd.

Cafwyd dwywaith yn fwy o geisiadau newydd ar gyfer y Cynllun Grantiau Coetir a golygodd hynny gynnydd o 20% yn nifer y contractau a roddwyd yn ystod y flwyddyn o dan y cynllun. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfran y ceisiadau Cynllun Grantiau Coetir a broseswyd o fewn 11 wythnos, o'r 54% yn y flwyddyn flaenorol. Cafodd yr angen i wella'r amser prosesu ei gydnabod fel gofyniad pwysig wrth ddatblygu system newydd i weinyddu grantiau a gyflwynir yn 2005.

Roedd nifer y trwyddedau cwympo yn debyg i'r flwyddyn flaenorol ond cafwyd cynnydd sylweddol yn y gyfran a broseswyd o fewn y targed o 10 wythnos o'r 68% yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd nifer yr hawliadau a dalwyd yn y flwyddyn ychydig yn is nag yn y flwyddyn flaenorol a gostyngodd y gyfran a broseswyd o fewn 28 diwrnod o 85% i 79%. Aethpwyd i'r afael â'r angen i brosesu hawliadau yn fwy prydlon trwy benodi swyddogion cefnogi Grantiau a Thrwyddedau y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys archwilio hawliadau grant.

Bydd gweithredu'r system GLADE newydd yn 2005 yn golygu gwelliant sylweddol yng ngweinyddiaeth y Cynllun Grantiau Coetir.

| CYMRU 2002/3 | Nifer | % a broseswyd o fewn y traged |
|---|---|---|
| **Ceisiadau Cynllun Grantiau Coetir a gafwyd** | 543 | |
| Wedi'u cydnabod o fewn 3 diwrnod | 522 | 96 |
| Wedi'u prosesu o fewn 11 wythnos ac eithrio WAP | 244 | 44 |
| Ceisiadau Trwyddedau Cwympo | 146 | |
| Wedi'u cydnabod o fewn 3 diwrnod | 144 | 99 |
| Wedi'u prosesu o fewn 10 wythnos | 134 | 92 |
| **Hawliadau Grant** | 1252 | |
| Talwyd ymhen llai na 28 diwrnod | 992 | 79 |

* Sylwer: Cafodd cyfanswm of 397 o gontractau Cynllun Grantiau Coetir eu cymeradwyo yn ystod y flwyddyn.

# Tablau



# Tabl 1

## Arwynebedd y tir a blannwyd gan berchnogion coetiroedd preifat ac y talwyd grantiau ar ei gyfer yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

**Cynllun Grantiau Coetir**

**Hectarau**

| | LLOEGR | | | CYMRU | | | YR ALBAN | | | PRYDAIN FAWR | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Plannu Newydd | Ailstocio | Cyfanswm | Plannu Newydd | Ailstocio | Cyfanswm | Plannu Newydd | Ailstocio | Cyfanswm | Plannu Newydd | Ailstocio | Cyfanswm |
| Conwydd | 305 | 336 | 641 | 41 | 527 | 568 | 2,963 | 2,709 | 5,672 | 3,309 | 3,572 | 6,881 |
| Collddail | 4,287 | 629 | 4,916 | 288 | 186 | 474 | 3,671 | 780 | 4,451 | 8,246 | 1,595 | 9,841 |
| **CYFANSWM** | **4,592** | **965** | **5,557** | **329** | **713** | **1,042** | **6,634** | **3,489** | **10,123** | **11,555** | **5,167** | **16,722** |

**Nodiadau:**

1. Mae'r ffigurau'n cynnwys plannu newydd a gafodd gymorth grant ar y cyd â'r cynllun Premiwm Coetir Fferm a weinyddir gan yr Adrannau Amaethyddol.
2. Mae arwynebedd y plannu newydd a'r ailstocio yn cynnwys y mannau hynny lle talwyd ail randaliad y grant ar gyfer Aildyfiant Naturiol.
3. Roedd yr arwynebedd plannu newydd ym Mhrydain yn cynnwys 8 hectar o Brysgwydd Cylchdro Byr a gafodd gymorth grant.

# Tabl 2

## Arwynebedd y tir a blannwyd gan Berchnogion Coetiroedd Preifat ac y talwyd Grantiau ar ei gyfer yn yr 20 mlynedd rhwng 1 Ebrill 1983 a 31 Mawrth 2003

**Hectarau**

| | LLOEGR | | | CYMRU | | | YR ALBAN | | | PRYDAIN FAWR | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Plannu Newydd | Ailstocio | Cyfanswm | Plannu Newydd | Ailstocio | Cyfanswm | Plannu Newydd | Ailstocio | Cyfanswm | Plannu Newydd | Ailstocio | Cyfanswm |
| 1984 | 1,480 | 1,935 | 3,415 | 1,064 | 113 | 1,177 | 14,129 | 1,019 | 15,148 | 16,673 | 3,067 | 19,740 |
| 1985 | 976 | 1,767 | 2,743 | 918 | 122 | 1,040 | 14,135 | 1,177 | 15,312 | 16,029 | 3,066 | 19,095 |
| 1986 | 984 | 2,346 | 3,330 | 743 | 434 | 1,177 | 17,292 | 1,559 | 18,851 | 19,019 | 4,339 | 23,358 |
| 1987 | 1,219 | 2,644 | 3,863 | 708 | 280 | 988 | 17,220 | 1,547 | 18,767 | 19,147 | 4,471 | 23,618 |
| 1988 | 1,679 | 2,718 | 4,397 | 945 | 476 | 1,421 | 21,197 | 1,660 | 22,857 | 23,821 | 4,854 | 28,675 |
| 1989 | 1,752 | 2,330 | 4,082 | 923 | 256 | 1,179 | 22,433 | 2,248 | 24,681 | 25,108 | 4,834 | 29,942 |
| 1990 | 3,366 | 3,871 | 7,237 | 552 | 270 | 822 | 11,488 | 1,984 | 13,472 | 15,406 | 6,125 | 21,531 |
| 1991 | 4,363 | 3,970 | 8,333 | 510 | 296 | 806 | 10,563 | 2,840 | 13,403 | 15,436 | 7,106 | 22,542 |
| 1992 | 3,966 | 4,042 | 8,008 | 356 | 579 | 935 | 9,825 | 3,210 | 13,035 | 14,147 | 7,831 | 21,978 |
| 1993 | 5,052 | 3,811 | 8,863 | 429 | 654 | 1,083 | 9,814 | 3,609 | 13,423 | 15,295 | 8,074 | 23,369 |
| 1994 | 6,091 | 3,700 | 9,791 | 626 | 441 | 1,067 | 9,180 | 4,314 | 13,494 | 15,897 | 8,455 | 24,352 |
| 1995 | 4,997 | 2,475 | 7,472 | 554 | 626 | 1,180 | 12,577 | 3,068 | 15,645 | 18,128 | 6,169 | 24,297 |
| 1996 | 4,338 | 1,972 | 6,310 | 442 | 620 | 1,062 | 10,195 | 3,169 | 13,364 | 14,975 | 5,761 | 20,736 |
| 1997 | 4,348 | 2,027 | 6,375 | 411 | 814 | 1,225 | 11,212 | 3,692 | 14,904 | 15,971 | 6,533 | 22,504 |
| 1998 | 4,123 | 1,984 | 6,107 | 485 | 804 | 1,289 | 11,304 | 2,737 | 14,041 | 15,912 | 5,525 | 21,437 |
| 1999 | 4,875 | 1,726 | 6,601 | 629 | 802 | 1,431 | 10,410 | 2,958 | 13,368 | 15,914 | 5,486 | 21,400 |
| 2000 | 5,414 | 1,414 | 6,828 | 744 | 813 | 1,557 | 10,363 | 3,083 | 13,446 | 16,521 | 5,310 | 21,831 |
| 2001 | 5,365 | 1,708 | 7,073 | 447 | 759 | 1,206 | 11,627 | 3,561 | 15,188 | 17,439 | 6,028 | 23,467 |
| 2002 | 4,324 | 949 | 5,273 | 270 | 757 | 1,027 | 7,880 | 2,884 | 10,764 | 12,474 | 4,590 | 17,064 |
| 2003 | 4,592 | 965 | 5,557 | 329 | 713 | 1,042 | 6,634 | 3,489 | 10,123 | 11,555 | 5,167 | 16,722 |

Sylwer:Mae'r tabl hwn yn cynnwys plannu newydd a gafodd gymorth grant o dan y Cynllun Grantiau Coetir ar y cyd â'r Cynlluniau Coetir Fferm a Phremiwm Coetir Fferm a weinyddir gan yr Adrannau Amaethyddol

# Tabl 3

## Arwynebedd y Grant Rheoli y talwyd grant amdano yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

### Cynllun Grantiau Coetir

Hectarau

| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Prydain Fawr |
|---|---|---|---|---|
| Grant Rheoli Safonol | 100 | - | 636 | 736 |
| Grant Rheoli Arbennig | 912 | - | 447 | 1,359 |
| Grant Rheoli Blynyddol | 132,971 | 7,698 | 40,149 | 180,818 |
| Grant Gwella Coetiroedd | 7,302 | 2,690 | 4,780 | 14,772 |
| Premiwm Blynyddol Eithrio Da Byw | 2,012 | 793 | 8,453 | 11,258 |
| **Cyfanswm** | **143,297** | **11,181** | **54,465** | **208,943** |

## Arwynebedd wedi'i Gymeradwyo ar gyfer Grant Rheoli o dan y Cynllun Grantiau Coetir

Hectarau

| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Prydain Fawr |
|---|---|---|---|---|
| 1993-94 | | | | |
| Conwydd | 18,246 | 3,911 | 41,983 | 64,140 |
| Collddail | 39,302 | 1,879 | 5,762 | 46,943 |
| **Cyfanswm** | **57,548** | **5,790** | **47,745** | **111,083** |
| 1994-1995 | | | | |
| Conwydd | 7,620 | 1,750 | 31,293 | 40,663 |
| Collddail | 21,749 | 1,037 | 8,088 | 30,874 |
| **Cyfanswm** | **29,369** | **2,787** | **39,381** | **71,537** |
| 1995-1996 | | | | |
| Conwydd | 4,478 | 1,164 | 9,136 | 14,778 |
| Collddail | 15,545 | 1,353 | 4,322 | 21,220 |
| **Cyfanswm** | **20,023** | **2,517** | **13,458** | **35,998** |
| 1996-1997 | | | | |
| Conwydd | 3,257 | 458 | 5,103 | 8,818 |
| Collddail | 12,679 | 1,295 | 4,946 | 18,920 |
| **Cyfanswm** | **15,936** | **1,753** | **10,049** | **27,738** |
| 1997-1998 | | | | |
| Conwydd | 5,900 | 885 | 5,808 | 12,593 |
| Collddail | 18,474 | 1,189 | 3,890 | 23,553 |
| **Cyfanswm** | **24,374** | **2,074** | **9,698** | **36,146** |
| 1998-1999 | | | | |
| Conwydd | 6,205 | 820 | 6,594 | 13,619 |
| Collddail | 24,556 | 1,523 | 3,552 | 29,631 |
| **Cyfanswm** | **30,761** | **2,343** | **10,146** | **43,250** |
| 1999-2000 | | | | |
| Conwydd | 8,563 | 908 | 5,396 | 14,867 |
| Collddail | 24,893 | 1,018 | 4,349 | 30,260 |
| **Cyfanswm** | **33,456** | **1,926** | **9,745** | **45,127** |
| 2000-2001 | | | | |
| Conwydd | 4,920 | 445 | 6,323 | 11,688 |
| Collddail | 18,519 | 1,437 | 2,590 | 22,546 |
| **Cyfanswm** | **23,439** | **1,882** | **8,913** | **34,234** |
| 2001-2002 | | | | |
| Conwydd | 4,578 | 493 | 3,051 | 8,122 |
| Collddail | 15,394 | 963 | 2,058 | 18,415 |
| **Cyfanswm** | **19,972** | **1,456** | **5,109** | **26,537** |
| 2002-2003 | | | | |
| Conwydd | 3,481 | 506 | 2,803 | 6,790 |
| Collddail | 15,709 | 809 | 3,174 | 19,692 |
| **Cyfanswm** | **19,190** | **1,315** | **5,977** | **26,482** |

Nodyn 1: Roedd y ffigurau a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2001-02 yn cynnwys y Grant Gwella Coetiroedd a'r Premiwm Eithrio Da Byw. Cafodd y ffigurau hyn eu diwygio er mwyn dangos y Grant Rheoli Blynyddol yn unig.

# Mapiau



# Ffiniau Cenedlaethol a Gwarchodaethau'r Comisiwn Coedwigaeth



# Ffiniau Menter Coedwigaeth



# Cyfeiriadau Prif Swyddfeydd y Comisiwn Coedwigaeth

## Swyddfeydd yng Nghymru

**Y Swyddfa Genedlaethol i Gymru**
Rhodfa Fuddug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2DQ
Ffôn 01970 625866  Ffacs 01970 626177

**Swyddfa Diriogaethol Menter Coedwigaeth i Gymru**
Rhodfa Fuddug, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2DQ
Ffôn 01970 612367  Ffacs 01970 625282

## Swyddfeydd Eraill

**Caeredin**
Silvan House, 231 Corstorphine Road, Edinburgh, EH12 7AT
Ffôn 0131 334 0303  Ffacs 0131 334 3047
e-bost: enquiries@forestry.gsi.gov.uk
gwefan www.forestry.gov.uk

**Y Swyddfa Genedlaethol i Loegr**
Great Eastern House, Tenison Road, Cambridge, CB1 2DU
Ffôn 01223 314546  Ffacs 01223 460699

**Swyddfa Diriogaethol Menter Coedwigaeth i Loegr**
340 Bristol Business Park, Coldharbour Lane, Bristol, BS16 1EJ
Ffôn 0117 906 6000  Ffacs 0117 931 2859

**Y Swyddfa Genedlaethol i'r Alban**
Silvan House, 231 Corstorphine Road, Edinburgh, EH12 7AT
0131 314 6156  Ffacs 0131 314 6152

**Swyddfa Diriogaethol Menter Coedwigaeth i'r Alban (Gogledd)**
1 Highlander Way, Inverness Business Park, Inverness, IV2 7GB
Ffôn 01463 232811  Ffacs 01463 243846

**Swyddfa Diriogaethol Menter Coedwigaeth i'r Alban (De)**
55/57 Moffat Road, Dumfries, DG1 1NP
Ffôn 01387 272440  Ffacs 01387 251491

## Ymchwil Goedwigaeth

Alice Holt Lodge, Wrecclesham, Farnham, Surrey, GU10 4LH
Ffôn 01420 22255  Ffacs 01420 23653

Northern Research Station, Roslin, Midlothian, EH25 9SY
Ffôn 0131 445 2176  Ffacs 0131 445 5124